

ECO'R WYDDFA

Rhif 170

MEHEFIN 1991

Pris 25c.

MENTRO I FYD GARDDIO



Ydach chi yn garddio, neu'n paratoi at ddechrau gardd a thyfu planhigion? Un cwmni all eich helpu chi ydi 'Gerddi Glascoed' ym Mhenisarwaun.

Perchenogion y cwmni yma yw Robert ac Alwena Leadbitter ac ar ôl cyfnod o Hyfforddiant Menter gyda Menter Gwynedd mae'r dau wedi dechrau eu busnes eu hunain yn magu a gwerthu planhigion i'r ardd.

'Mae gennym ni dros 50 o wahanol deuluoedd llwyni yn ogystal â'r amrywiaeth o fewn y teuluoedd hynny, dwsinau ar ddwsinau o flodau o bob math, grug a digon o ddewis o goed,' meddai Alwena Leadbitter.

'Rydau ni wedi bod yn paratoi ers dros flwyddyn bellach ar gyfer dechrau 'Gerddi Glascoed' drwy feithrin a magu'r planhigion ein hunain yn y "Poly-tunnels"; meddai Robert Leadbitter a fu'n gweithio yng Ngerddi Seiont am flwyddyn a hanner.

'Ein prif arbenigrwydd ydi coed rhyssnau hen ffasiwn nad ydyn nhw ar gael yn hawdd yn yr ardal yma,' ychwanegodd Alwena.

Er mwyn magu'r planhigion a'r blodau yn gryf ac iach mae gan Alwena a Robert Leadbitter ddau dwnel hir plastig gyda gwres yn un ohonyn nhw ar gyfer y toriadau. Pan fyddan nhw'n ddigon cryf mi fyddan yn cael eu trosglwyddo i'r twnel di-wres er mwyn eu tymheru cyn eu rhoi y tu allan.

Mae Robert ac Alwena yn cynnig gwasanaeth arbenigol hefyd, yn ogystal â gwerthu planhigion. Os oes ganddoch fasedi crog yn wag fe allwch fynd â nhw draw atyn nhw, ac mi wna

nhw eu llenwi â'r blodau addas i chi. Mae ganddyn nhw fasedi crog ar werth hefyd a'r bwriad yw cyflenwi'r rhain i westai a thafarndai lleol.

'Mi rydan ni'n dau yn mwynhau gwaith garddio a magu planhigion ac wrthi ers blyneddau bellach,' meddai Alwena, 'a gan fod ganddon ni erw o dir ar gael wrth ymyl y tŷ, mi roedd o'n gam naturiol i ddatblygu'r diddordeb yn fusnes yn enwedig gan fod Robert wedi gweithio yn y diwydiant garddio ei hun.'

'Roedden ni'n ffodus fod Menter Gwynedd wrth law i roi hyfforddiant a chynghor i ni ar sut i redeg busnes gan fod hynny yn rhan yr un mor hanfodol a'i cynhyrchu gan fod rhaid gwerthu'n llwyddiannus i wneud bywoliaeth,' dywedodd Alwena.

'Rydau ni rŵan yn edrych ymlaen at gael cyfnod prysur yn datblygu'r feithrinfa i'w llawn dwf, ac at haf gweddol brysur yn gwerthu'r planhigion a'r coed a chael gweld yr holl waith rydan ni

TALENTAU CERDDOROL



Un o dalentau cerddorol disgleiriaf bro sydd wedi ei bendithio ag offerynnwyr ifainc o safon uchel yw Gwenan Mair Roberts o Lanrug.

Nid yw Gwenan ond 14 oed ac yn barod mae ei hanrydeddau yn niferus. Dyna i chi'r 'ddwbl' a ddaeth i'w rhan yn ddiweddar, sef ennill ei gradd 8 gyda'r piano a'r ffidil, a hynny gydag anrhydedd yn y ddau arholiad.

Mae hi hefyd wedi ei derbyn i Gerddorfa Ieuencid Cymru ac wedi pasio'r cyfweiliad cyntaf o ddau ar ei ffordd i fod yn aelod o Gerddorfa Ieuencid Prydain. Bydd yr ail wrandawriad yn y dyfodol agos — un digwyddiad arall mewn cyfnod prysur i Gwenan.

Yn ystod yr haf, bydd yn canu'r ffidil gyda Cherddorfa Gŵyl Gerdd Aberystwyth — ac yna taith drwy Gymru gyda Cherddorfa Ieuencid Cymru yn cynnwys pum cyngerdd. Yna bydd yn perfformio gyda cherddorfa yng Ngŵyl Gerdd Caeredin, yn yr Alban. Llonyfarchiadau a phob llwyddiant iddi.

Dal i ragori hefyd y mae offerynnwyr ifainc talentog Seindorf Deiniolen. Yr anrhydedd ddiweddaraf i ddod i ran band sy' wedi bod yn hynod lwyddiannus yn ystod y flwyddyn yw bod dim llai na **SAITH** o'r aelodau wedi eu dewis i Seindorf Ieuencid Cymru! Pob hwyl i Iwan Williams, Dylan Williams, Eilir Williams, Euros Williams, Emily Roberts, Martin Williams a Gavin Saynor. Llonyfarchiadau iddynt ac i Seindorf Deiniolen.

eisoes wedi ei roi i'r fenter yn dechrau dwyn ffrwyth.'

YMDDEOLIAD REFF



Ddiwedd Mai, ar ôl 38 mlynedd o fod 'yn y canol', daeth gyrfa ddyfarnu reffari lleol i ben.

Dechreuodd Hugh P. Davies, Bethel, sy'n gweithio i'r Telecom Prydeinig, reffio pêl-droed pan oedd gyda'r Lluedd Arfog yn Ne America ym 1953. Ers hynny, mae wedi bod yn cadw trefn ar ddwsinau o gemau yn y cynghreiriau lleol.

Un gêm sy'n aros yn fyw iawn yn ei gof, a hynny ers tua 20 mlynedd, yw'r un rhwng Nantlle Vale a Llandudno pan y bu'n ddigon dewr i anfon yr holl chwaraewyr (gan gynnwys Orig Williams — El Bandito ei hun) oddi ar y dcae am gamymddwyn!

O hyn ymlaen bydd Hugh yn cynorthwyo ac yn asesu dyfarnwyr. Dymuniadau gorau iddo.

CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL ECO'R WYDDFA

**Nos Iau Mehefin 6ed yn y sefydliad coffa, Llanrug
am 7.00 o'r gloch**

Croeso cynnes i bawb sydd â diddordeb yn y papur

ECO'R WYDDFA

RHIF 170
MEHEFIN 1991

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru.

SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:

Twrog Jones, Pros Kairon,
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU:

Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-
Nant, Pontrhythallt, Llanrug (C'fon
3515)

GOLYGYDD NEWYDDION

PENTREFI:

Nant Roberts, Arwel, Pontrhythallt
(870760)

GOLYGYDD CHWARAEON:

Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun
(Llanberis 872407)

ECO'R IFANC:

Mrs Nan Humphreys, Pant Bryngwyn,
Tanycoed (C'fon 5668)

DYDDIADUR Y MIS:

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (Waunfawr 200)

FFOTOGRAFFWYR:

Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669)

Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug
(C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION:

John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT:

Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL:

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:

Mrs E Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug (C'fon 4778)

GOHEBWYR PENTREFI:

Dyma'r
bobl i gysylltu â nhw yn eich
ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran,
(Portdinorwig 670726)

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts,
GERALLT, Erw Wen (C'fon 3536)

CEUNANT: Gwenno Parri, Morwel
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W O Williams, 6 Rhyd-
fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D J Thomas, 8 Maes
Eilian (870773)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri, 870491.

LLANRUG: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn
Rhuddallt (Caernarfon 76733)

NANT PERIS: Mrs Ann Fleming,
Dolwen, 8 Nant Ffynnon (871457)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael
y Bryn. (872 276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (Waunfawr 570).

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, MEHEFIN 27

Deunydd i law'r

golygyddion perthnasol

NOS FAWRTH,

MEHEFIN 18

os gwelwch yn dda.

Llafar

'T'r Mynydd a'r Mannau Anghysbell'

Y ci defaid oedd gan y bardd dan sylw. Ond pe bai'n fyw heddiw yn ein bro ni, tybed a fyddai wedi bathu'r fath linell. Yn ystod y mis a aeth heibio bûm yn crwydro rhai o'r mynyddoedd sy'n gwarchod ein bro — o Garnedd y Filiast uwchben y Marchlyn ar draws i Fynydd Perfedd ac ymlaen i gopa'r ddwy Elidir; dringo'r Wyddfa, Moel Cynghorion, y Foel Goch, y Foel Gron a Moel Eilio, a diweddu ar ben y Cefn Du — cylch o fynyddoedd fel dwy fraich yn gwarchod dyffryn Peris.

Ond nid mannau anghysbell mohonynt bellach. Roedd cerddwyr yn troedio'r grib uwchben y Marchlyn, a llwybr llydan fel craith ar draws Bwlch y Breacan o'r Elidir draw am Y Garn. Ar lwybr Yr Wyddfa mae'n ddigon llydan i hanner dwsin o bobl gerdded gyd-ochr a'i gilydd — a digon o le wedyn mewn rhai mannau i'r beicwyr mynydd fynd heibio gan erydu'r llwybrau. yr un yw'r stori ar lwybr Bwlch Maesgwm — carnau ceffylau a beiciau mynydd unwaith eto yn mathru'r wyneb. Ar draws y Foel Goch a'r Foel Gron mae siawns dod o hyd i unigrwydd, ond y dydd o'r blaen roedd Land Rover o fewn cyrraedd i gopa Moel Eilio — ac nid ffermwr oedd ynddi chwaith. Ac o Gaernarfon, mae llwybrau'r ceffylau sy'n dinoethi mawnogydd y Cefn Du i'w gweld fel esgyrn sychion yn sgleinio'n yr haul.

Mae'n stori wahanol ar lawr gwlad. Yn Llanddeiniolen a Llanrug mae llwybrau cyhoeddus mewn rhai rhannau o'r plwyfi yn mynd yn fwy anodd i'w troedio. Weithiau, diffyg defnydd yn unig yw'r rheswm fod dilyn llwybr ar draws tir agored bron yn amhosibl. Dro arall, mae ffermwyr wedi penderfynu 'perswadio' (?) cerddwyr rhag mentro ar draws eu tir drwy osod gwifren bigog ar draws camfa go fregus. Hawdd deall teimladau'r ffermwyr. Mae rhai cerddwyr heb ronyn o barch i fywoliaeth y ffermwyr, gan adael gatau ar agor neu ddymchwel cloddiau. Mae ffermwyr eraill yn parchu hawliau'r cerddwyr. Rhaid diolch yn gyhoeddus yma i'r ffermwr a fu'n aredig Carnedd Wil ar gongl lôn Tyddyn Rhyddid, Llanrug — gadwodd y llwybr cyhoeddus yn rhimyn glas ar draws y tir ar.

Beth tybed sy'n denu gor-ddefnydd o rai llwybrau a diffyg defnydd o lwybrau eraill? Mae hawliau tramwy yn bod ers cyn cof ac y mae rhai unigolion a chymdeithasau yn mynnu eu cadw ar bob cyfrif. A ninnau yn ddiweddar wedi cynnal wythnos genedlaethol yr amgylchedd, a oes lle i osod cyfyngiadau ar rai hawliau tramwy rhag i'r genhedlaeth nesaf golli am byth y pleser o ddarganfod y 'mannau anghysbell'?

CRONFA GOFFA

R. H. OWEN

Gwahoddir ceisiadau am grant
neu fenthyciad o'r gronfa uchod.

Anfoner am y manylion a'r
ffurflenni cais at: **Aled Owen**
13 Charlotte Street, Llanberis

DYDDIAD CAU: AWST 31AIN

Llythyrâu

Cynghorydd yn Cywiro
Camgymeriad Gweinyddol

Annwyl Gyfeillion,

Carwn ddiolch o galon i bawb o ward
Llanrug a fu'n gefnogol i'm cais ar
gyfer sedd yr etholaeth ar Gyngor
Arfon yn ddiweddar.

Yn anffodus, oherwydd cam-
gymeriad gweinyddol, fe'm
cofrestrwyd fel aelod annibynnol ar
gyfer y ward. Dymunaf ar gychwyn
fy nhymor fel eich Cynghorydd
Dosbarth lleol, gyhoeddi yn gwbl
eglur mai fel aelod o Blaid Cymru y
byddaf yn gwasanaethu'r fro yn
ystod y bedair blynedd nesaf.

Cefais fy enwebu ar gyfer y swydd
gan aelodau Pwyllgor Llanrug o Blaid
Cymru ac rwyf yn aelod llawn o'r
Blaid honno.

Edrychaf ymlaen at gael eich
gwasanaethu yn y dyfodol, a phe
gallaf fod o gymorth i unrhyw un o'r
etholaeth, peidiwch a phetruso rhag
cysylltu â mi yn y cyfeiriad isod.

Yn gywir,

EMYR THOMAS

Tan y Cae,

Tan-y-Coed, Llanrug.

Ffôn: Llanberis 870044

S.O.S.

galw plant, cyn-aelodau
a charedigion

Eglwys Soar (A), Penygroes, Arfon
Annwyl Gyfeillion,

Mae'ch cyn-Eglwys yn wynebu
costau enfawr ar ei hadeiladau yn y
dyfodol agos. Oherwydd dirywiad yn
ansawdd yr adeilad a chostau cynnal
a chadw mor uchel, mae'r Eglwys
wedi penderfynu dymchwel y capel
presennol ac addasu'r festri yn le
addas i addoli, a pharatoi adeilad
priodol ar gyfer gweithgareddau eraill
yr eglwys. Golyga hyn godi cronfa o
£50,000 ar gyfer y gwaith
arfaethedig.

Ein hapêl fel Pwyllgor Cronfa'r
Adnewyddu, drwy golofnau'r 'Eco',
yw gofyn i'r fuasech yn hoffi
cyfrannu i'r gronfa er sicrhau dyfodol
ffyniannus i Eglwys Soar. Os
gwyddoch am eraill a chysylltiadau
â'r Eglwys, ag sydd o fewn eich
cyrraedd, efalli y byddwch garediced
a chario'r genadwri iddynt hwythau.

Os am helpu, gellwch anfon eich
cyfraniad i naill ai **Jean Hefina Owen**,
Rhianfa, Carmel, Caernarfon; neu
Margaret Bowness Jones, Cae Garw,
Bethesda Bach, Llanwnda,
Caernarfon.

Diolch am eich ymateb a'ch
cefnogaeth i'r Achos.

Yn gywir,

JEAN HEFINA OWEN

a MARGARET BOWNESS JONES

MAE'R

SAMARIAID

YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

Antur Padarn yn Trafod Cynllun Menter Cefn Gwlad

Fel canlyniad i alwad **Antur Padarn** ar i'r Awdurdod Datblygu Cymru gynnwys ardal Dyffryn Padarn o dan eu Cynllun Menter Cefn Gwlad Cymru mae Mr Alun Daniel, Cyfarwyddwr Gweithredol yr Awdurdod wedi cytuno i fynychu cyfarfod nesaf yr **Antur** i drafod y mater. Cynhelir y cyfarfod hwnnw ar nos Fercher, 12 Mehefin am 7 yn Angorfa, Stryd y Ffynnon, Llanberis.

Yn ogystal ac aelodau yr Antur mae gwahoddiad wedi ei estyn i gynrychiolwyr o'r Cynghorau Cymuned i fynychu y cyfarfod hwn. Bydd yn ddiddorol cael gwybod pa adnoddau y bydd yr Awdurdod Datblygu yn gallu ei gynnig o dan y Cynllun yma er mwyn rhoi hwb pellach i'r gwaith sydd eisoes ar droed i sicrhau ffyniant economaidd, cymdeithasol a diwylliannol i'r ardal.

O safbwynt Holiadur yr Antur mae'n dda gallu adrodd bob pob pentref bron a chwblhau y gwaith a'r ffurflenni wedi ei dychwelyd. Yn naturiol mae'r diolch yn fawr i drefnwyr a dosbarthwyr y gwahanol bentrefi am drefnu yr holl waith ac i bawb a fu mor barod i'w llenwi. Eisoes mae'r wybodaeth

yn cael ei fwydo i gyfrifiadur a'r gobaith yw cyhoeddi'r cyfan ar ffurf llyfryn. Eisoes mae Dr Liz Hughes, o Goleg y Brifysgol Aberystwyth wedi trafod sefyllfa ddiweddaraf yr Holiadur gyda Swyddogion yr Antur ac y mae hi yn ffyddiog ac yn hyderus y bydd y wybodaeth a gesglir yn arwain at gyhoeddi dogfen a fydd o bwys mawr wrth lunio cynlluniau a datblygiadau ar gyfer Dyffryn Padarn dros y ddegawd nesaf.

Gair o Gyngor Llanddeiniolen

Ail-etholwyd Mr Richard Ll. Jones, Bethel yn gadeirydd Cyngor Cymdeithas Llanddeiniolen am y flwyddyn 1991-92; a Mr Idris Morris, Llanddeiniolen yn Is-gadeirydd.

Croesawyd tri aelod newydd, sef Elwyn Jones a Robert Hefin Williams i gynrychioli ward Rhiwlas a Miss Paula Linton dros ward Bethel.

Cytunwyd i estyn gwahoddiad i'r cynghorwyr sir a dosbarth i gyfarfodydd y cyngor fel sylwedyddion.

Cafwyd cwynion ynglŷn â'r ffaith bod amryw o enwau wedi cael eu gadael allan o'r Rhestr Etholwyr, a hefyd fod nifer o gyfeiriadau yn cael eu cofrestru yn Saesneg er i'r ffurflenni gael eu llenwi yn Gymraeg.


Llongyfarchwyd côr adran bentref Penisarwaun ar eu llwyddiant, a chytunwyd i roi cyfraniad tuag at eu costau i fynd i Eisteddfod yr Urdd, Tâf Elai, gan ddymuno pob llwyddiant iddynt.

Chwaraewyr Monopoly

Rhai o bobl y fro sydd i'w gweld yn chwarae 'Monopoly' ar y teledu yn ystod misoedd Mai a Mehefin.



Rowena Maxwell, Deiniolen.



Gwilym Medwyn Thomas, Penisarwaun

Gofal a Chymwynasgarwch Pentref


Bûm yn byw am ymron i bedair degawd mewn dinas fawr ddi-hid. Yna ers dros ugain mlynedd symud i fyw a chartrefu ym mhentref Llanrug.

Flwyddyn yn ôl bu digwyddiad wnaeth i mi werthfawrogi o waelod calon garedigrwydd pentref. Cymerwyd fi yn bur wael, ac yn bur sydyn. Trwy lygaid craff fy nghymdogion drws nesaf, bu iddynt sylweddoli fod rhywbeth o'i le, a chael fy mod angen meddyg, a hynny ar frys.

Cymerasant yr awennau yn eu llaw a galw meddyg ac aros hefo mi nes y daeth. Hefyd cysylltu



Dafydd Thomas, Brynrefail.



Olwen Smith, Dinorwig.



Robin Williams, Ceunant.

a'm plant a'm cyfeillion. Y plant yn byw cryn bellter oddi yma.

Aethpwyd a mi am driniaeth i Ysbyty Gwynedd, er nas cofiaf ddim am hynny nes gweld fy mhiant y naill ochr i'r gwely.

Bu y gofal cyflym gan fy nghymdogion a'm ffrindiau yn gyfrwng i mi gael gwella yn dda iawn, ac yn fuan.

Diolch hefyd am y gofal eithriadol yn yr ysbyty. Nid wyf am enwi neb. Ceisio dangos fy ngwerthfawrogiad diffuant o garedigrwydd pentref.

Cynghorwyr y Fro

Dim ond mewn dwy o chwech ward y fro y bu etholiad i ddewis cynghorwyr ar Gyngor Bwrdeistref Arfon am y pedair blynedd nesaf. Mae'n ymddangos felly fod y mwyafrif ohonoch yn eithaf bodlon ar eich cynrychiolwyr. Yn Llanberis y bu'r chwyldro, gyda'r cyn-aelod profiadol Francis Jones (Llafur) yn cael ei guro gan Noel Davies (Plaid Cymru). Yn ward Bethel/Rhiwlas y bu'r unig etholiad arall, gyda Gwen Aaron (Plaid Cymru) yn methu â disodli Samuel Jones o'r sedd sydd wedi bod yn ei afael ers blyneddau. Mae un aelod newydd yn cynrychioli Llanrug hefyd, sef Emyr Tomos, a etholwyd yn ddiwrthwynebiad, ynghyd â Brian Jones (Llafur). Yn y tair ward arall, mae'r cynghorwyr yn aros fel ag o'r blaen, sef Pat Larsen (Plaid Cymru) ym Mhenisarwaun, Gwilym O. Williams yn y Waunfawr, a Jacob James yn Neiniolen.

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestedig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Plumbing and
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

CEIR ELIDIR LLANBERIS 870449

Cerbydau preifat i'w llogi
Gwaith Contract
Pell ac Agos
Maes Awyr a Phorthladd

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (93) 714043
neu
Caernarfon 4520
edau, nodwyddau
ac ati mewn stoc

Gŵyl Gorawl Eryri

Dydd Sul, Mai 12, cynhaliwyd Gŵyl Gorawl Eryri yn Eglwys Dewi Sant, Glanadda, Bangor. Yng nghyfarfod y prynhawn croesawyd eglwysi rhanbarth Eryri i Wyl y Plant pryd y cyflwynwyd tystysgrifau i'r plant yn y pedwar dosbarth o dan 12 oed am ddysgu allan. Ar ôl derbyn eu tystysgrifau gan y Parch Gordon Owen, Y Felinheli, a'r Parch Peter Pritchard Williams, Llanberis, cydadroddai'r plant y darnau yr oeddynt wedi eu dysgu. Canwyd emynau plant bob yn ail o dan arweiniad y Canon Glyndwr Williams.



Huw Tegid, Eglwys Penisarwaun — buddugol blwyddyn 1 a 2 Arholiad Ysgrifenedig.

Arholwr y gwaith ysgrifenedig i ddisgyblion ysgol uwchradd eleni oedd y Parchedig Ganon R. L. Owen, a chyflwynwyd tystysgrif a medal i bawb o'r ymgeiswyr. Cyflwynwyd tarian i Huw Tegid Roberts, Ysgol Sul Penisarwaun — y buddugol ym mlwyddyn 1 a 2, a Chwpan Coffal Alun Jones, Offeiriad, i Hayley Williams, Eglwys Crist, Llandinorwig — y buddugol ym mlwyddyn 3 a 4.

Eleni am y tro cyntaf rhoddwyd Cwpan Arian am Gywaith Creadigol ar y thema Diolchgarwch. Cyflwynwyd y gwpan gan deulu Lowri Pritchard, Llanrug, er cof am Lowri. Mr John Meirion Morris, Brynrefail, fu o gwmpas yr Ysgolion Sul yn gweld y cyweithiau ac Ysgol Sul Eglwys St. Padarn, Llanberis, oedd yn fuddugol.

Llywyddwyd y gweithrediadau gan y Parch Tegid Roberts a thalwyd

diolchiadau ganddo i bawb fu'n ymwneud â Gŵyl y Plant gan gyfeirio yn arbennig at bwyllgor yr Wyl Gorawl a'r gwaith sy'n cael ei wneud yn flynyddol i drefnu'r Wyl gan yr ysgrifennydd a'r trysorydd, Mrs Eileen Hughes a Mrs Gwen Griffith, Llandinorwig. Yn fwy na dim diolchodd i blant yr Ysgolion Sul i gyd a'u hathrawon, am eu gwaith clodwiw ac i rieni a chyfeillion am eu diddordeb a'u cefnogaeth i waith yr Ysgol Sul.



Hayley Williams, Eglwys Llandinorwig — buddugol blwyddyn 3 a 4 Arholiad Ysgrifenedig.

Gyda'r nos cynhaliwyd Cymanfa Ganu o dan arweiniad Mr David Brown, organydd Eglwys Dewi Sant, Glanadda, a chafwyd eitem gan un ferch o gôr yr Eglwys. Deaon Cadeirlan Bangor, yr Hybarch Erwyd Edwards, oedd yng ngofal y gwasanaeth hwn.



Plant Ysgol Sul Llanberis enillwyr Cwpan Coffa Lowri Pritchard am waith Celf a Chrefft.

Gweithgareddau
ar y CYD



Mae pawb yn fwyfwy ymwybodol y dyddiau hyn ei bod hi'n anodd iawn i bobl lwyddo i ddysgu'r Gymraeg onibai eu bod yn cael help a chydweithrediad y Cymry Cymraeg i ymdoddi'n llwyddiannus yn y gymdeithas Gymraeg.

Mae CYD yn trefnu llu o weithgareddau ledled Cymry i ddod â Chymry Cymraeg a dysgwyr at ei gilydd i helpu dysgwyr i groesi'r bont, ac fe hoffwn i roi manylion i'ch darllenwyr am ddau o'r

gweithgareddau hynny.

Ar Awst 1-5, 1991, fe gynhelir penwythnos hir yng Ngholeg Llysfasi, ger Rhuthun er mwyn dod i adnabod bro'r Eisteddfod Genedlaethol eleni. Yn ystod y penwythnos byddwn yn ymweld â llefydd difyr yn y fro ac yn cyfarfod â rhai o gymeriadau lliwgar Clwyd er mwyn i ni gyfarwyddo ein hunain â chymeriad a thraddodiadau'r ardal.

Awst 17-24, 1991 fe gynhelir wythnos o wyliau 'Miri Awst' yn Nant Gwrtheyrn, ym Mhen Llŷn. Mi fydd yno wledd o weithgareddau i'r teulu cyfan, gan gynnwys adloniant, sgysiau, tripiâu a gweithgareddau awyr agored yn y rhan hyfryd hon o Gymru.

Os oes gennych chi ddiddordeb yn y gweithgareddau uchod, mae croeso i chi gysylltu â Siân Meredith, Swyddfa CYD, Adran y Gymraeg, Yr Hen Goleg, Heol y Brenin, Aberystwyth, Dyfed SY23 2AX. Ffôn: (0970) 622143 (24 awr).

CEFNOGWCH EIN
HYSBYSEBWYR

CLWB FFERMWYR IEUANC CAERNARFON



Ysgol Uwchradd Llanrwst oedd cychfan y mudiad ar 27 Ebrill lle y cynhaliwyd cystadleuthau chwaraeon Eryri. Aeth nifer o aelodau'r Clwb yno i gymryd rhan mewn pêl-rwyd, hoci, pêl-droed, rygbi a rownderi. Dyma'r flwyddyn gyntaf i mi gofio i'r hogiau geisio chwarae rygbi, ni allaf ddweud dim mwy wrthych ond ni wnaeth yr holl ymarfer dalu'i ffordd. Piti fod tîm Llanrwst mewn cymaint o stêm! Ond, cystadlu a chymryd rhan sy'n bwysig yntê. Ni ddaeth llwyddiant ysgubol i'r Clwb ond mwynhaodd pawb eu diwrnod.

Nos Fercher, 1 Mai, i Fferm Castell Pistyll aeth Rhys Tudur, Aled ac Eurwyn i farnu gwartheg biff Charolais pedigree. Gwnaeth Aled yn dda iawn drwy ddod yn gyntaf i rai dan 21 oed. Llongyfarchiadau iddo a gwell lwc i'r tri arall y tro nesaf.

Barnu gwartheg godro Fresian fu hanes Meilyr, Nia, Helen ac Eurwyn yn Cae Mawr, Pontllyfni, ar nos Fercher, 8 Mai. Dyfarnwyd Eurwyn

yn gydradd drydydd a gwnaeth lleill yn reit dda drwy cael pedwerydd a phumed. Diolch i chi am fod mor barod i fynd i gynrychioli'r Clwb mewn gwahanol gystadleuthau.

Erbyn hyn braidd yn anrhefnus yw nosweithiau'r Clwb. Paratoi ar gyfer y Rali rydym fwyaf gan ymarfer ar gyfer y dawnsio gwerin, 'cheerleaders' a gwisgo cymeriad. Mae'r bechgyn wedi bod yn Lleuar Bach, Pontllyfni yn brysur yn paratoi y fferm ar gyfer y Rali ac erbyn i'r Eco ddod allan diwedd y mis bydd y Rali drosodd a thymor y ffermwyr ieuainc bron ar ben.

Diolch i bawb a fu'n ein cynorthwyo yn ystod y flwyddyn diwethaf gan ei gwneud yn flwyddyn fwyaf llwyddiannus ers blynnyddoedd i'r Clwb.

Y mis nesaf cewch hanes y Rali.

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.
YSGOL YRRU
OFALUS

- * Gwasanaeth 7 diwrnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol

D

L

PRITCHARD

43 Glanffynnon

LLANRUG

CAERNARFON 5112

Cymeradwyr gan yr Adran
Drafnidiaeth

MEDWEN

TRIN GWALLT YN EICH CARTREF

Ffoniwch **871213** i drefnu amser

MURIAU

Yn y rhifyn diwethaf cyhoeddwyd cerdd ar y testun 'Muriau', sef gwaith bardd lleol a ddymunai aros yn ddi-enw. A dyma ni unwaith yn rhagor y mis hwn yn cyhoeddi cerdd gan fardd lleol di-enw eto a anfonodd ei waith i'r un eisteddfod.

MURIAU FY NGWLAD

Mae bylchau yn y muriau,
a rhwng y mynydd a'r gweundir
daw awelon castiog y Gwanwyn
i ysgubo'r cynnwrf drwy'r ddaear.

Amaethwyr rhwng cloddiau'r Foty a'r Wenallt,
o Fryniwrch i Gae Moch,
o Glwt y briwsion i Ddolmynach
â'u herydr o fore gwyn
hyd gochni'r hwyr
yn cyleddu'r gwrymiau
yn nalgylch carregog y fro.

Tynnu'r og, hau bob cilfach,
a'r wyrth ddi-ddiwedd
a ddaw yn anterth
tymor geni'r Gwanwyn.

Ffrwst yr egin, a'r ddawns flagur
yn brigo ymhob twll a chongl
ac yn cadw cwmni i'r muriau mudion.

Ac yn theatr ddramatig yr ysbyty
llafn y gyllell a lanhawyd,
a'r geni Caesarian sy'n oedi'n fyw
yng nghanol yr arogl carbolic.
Llawenydd a thristwch; pwnio a thuchan,
a rhwng y muriau
clywir llef egwan yn cynhesu dwy ysgyfaint.

Ac heddiw ni chyffry lleisiau ein cyd-wladwyr,
aeth y lliwiau ar ddisberod rhwng y muriau.
Ym Mryniwrch a Dolydd gleision
bu farw'r acenion, a'u claddu dan gerrig
ac ar rinogau bylchog drysau'r aelwydydd
erys olion brau yr enwau ar feini.

Rhwng y rhosdir a'r fawnog
a oes bylchau yn y muriau?

Gwynt y Dwyrain, milain ei dafod
a yrr fywyd ar chwâl.

Ryngle dros y drum a'r griib
ym môn clud y cloddiau
y bryntni ddaeth i flingo
ireidd-dra amlwg y glaswellt,
a'i daflu i newydd-deb bedd
wrth odre Cytiau'r Moch.

Bylchau dirifedi sy'n y muriau;
o'r adweithyddion yn Long Island a Chernobyl,
O Woomera i Winscale,
O Sellafeld yng Nghymbria i lannau'r môr yng Nghymru
daeth y Gwyfyn marwol i deyrnasu.
Y Foty? Y Wenallt?
Clwt y briwsion? Cae Moch? Dolmynach?



Ac yn theatr yr ysbyty
erys y cryndod oer
i ysigo arddwrn y llawfeddyg.

Epil heddiw yn y groth
yw epil coll yfory.

Ar odre Craig y Wenallt,
yn walbant beudy'r Foty,
nid erys ond yr eco.
Ar y ffridd ac yn ffald y caru,
nid erys ond y llonyddwch llonydd.

Ffugenw: HENDREF GERRIG

Teithiau Cerdded yr Amgueddfa

Mae staff Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn eich gwahodd i ymuno a hwy ar eu ugeinfed cyfres o arweindeithiau. Gyda chymorth hael *Cars Cardiff Cyf* a *Chyfeillion Amgueddfa Genedlaethol Cymru*. Trefnwyd 21 o deithiau cerdded ar hyd a lled Cymru lle bydd staff yr Amgueddfa yn eich helpu i ddarganfod peth o etifeddiaeth gyfoethog y wlad — planhigion ac anifeiliaid, creigiau, ffosiliau a mwynau, gweddillion diwydiannol yn ogystal ag agweddau diddorol ar hanes lleol. Fel rheol ni fydd y teithiau gyda'r nos yn fwy na dwy filltir.

Bydd pob taith yn dechrau ac yn gorffen yn y man cyfarfod a nodir. Dylech wisgo'n addas ar gyfer y teithiau awyr agored hyn: fe'ch cynghorir i wisgo esgidiau cryf neu esgidiau cerdded ynghyd â dillad sy'n gallu gwrthsefyll tywydd garw. Byddai binocwlars yn ddefnyddiol hefyd. Fe'ch cynghorir i wisgo Wellingtons. Er ein bod ni'n ceisio dewis safleoedd hygyrch a diogel, pwysleisia'r trefnwyr eich bod yn cymryd rhan ar eich cyfrifoldeb eich hun. Y tal am bob taith yw: oedolyn £1; plant a phensiynwyr 50c.

Dylech gyfeirio unrhyw ymholiad am

y teithiau hyn i'r **Adran Gwasanaethau Cyhoeddus, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Caerdydd CF1 3NP. Ffôn: Caerdydd (0222) 397951.**

Dyma fanylion am y teithiau sydd yn gymharol gyfleus i'r fro hon:

Traeth Lligwy, Ynys Môn; dydd Sadwrn, 8 Mehefin. Cyfarfod am 2 p.m. yn y maes parcio gogleddol. Daeareg arfordirol a hanes naturiaethol. Arweinydd: J. Horak.


Llandeusan, Môn; dydd Sul, 23 Mehefin. Cyfarfod am 2 p.m. ym Melin Wynt Llynnon. Taith wedi'i seilio o gylch yr unig felin ddŵr ar Ynys Môn a'r unig felin wynt yng Nghymru sy'n dal i weithio. Peth hanes naturiaethol lleol. Arweinydd: E. Wiliam.

Yr Wyddfa; dydd Sul, 9 Mehefin. Cyfarfod am 11 a.m. yn y maes parcio Pen-y-pas. Hanes naturiol a daeareg llethrau'r Wyddfa o gylch Llyn Llydaw. Arweinydd: B. A. Thomas.

Chwarel Lechi Dinorwig; dydd Sadwrn, 27 Gorffennaf. Cyfarfod am 2 p.m. yn yr Allt Ddu (parciwch ger y cylch lle bydd bysiau'n troi). Hanes diwydiannol mewn man nad yw fel rheol yn agor i ymwelwyr. Arweinydd: D. Roberts.

Am bob math o
WYDR wedi'i
DORRI, DDANFON
NEU EI OSOD.
cysylltwch â

Barrys
GLASS



Camelot,
PENISARWAUN
Ffôn: Llanberis 871144

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES

17 BRYN TIRION

PENISARWAUN

Ffôn: LLANBERIS 872421

IEUAN
WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLEN

Llanberis 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i
bensiywyr, myfyrwyr a
phlant ysgol

DEINIOLLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

Enillwyr Clwb 100 Plaid Cymru am fis Mai — £10: Miss M. R. Jones, Tan y Caerau; £8.50: Mrs Marina Bryn Jones, d/o Tŷ'r Ysgol, Dinorwig.

Deiniol S.F.C. — Clwb 200: Tynnwyd yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis, 24 Ebrill. 1, £80: Dilwyn Hughes (89); 2, £40: John G. Jones (145). Diolch am eich cefnogaeth — Alun Wyn Evans, ar ran Clwb Pêl-droed Deiniol.

Merched y Wawr: Yng nghyfarfod mis Mai cafwyd noson ddiffr dros ben yng nghwmni Marian Williams, Ffordd Deiniol yn sôn am ei gwaith fel Swyddog Personel gyda Safeways ym Mangor. I ddilyn cafwyd sgats ddoniol iawn gan Marian Wyn, Beryl a Marian Williams. Enillwyd y raffl, basged o ffrwythau yn rhoddedig gan Safeways, gan Miss Nansi Owen.

Clwb Elidir: Cynhaliwyd cyfarfod ar 30 Ebrill dan lywyddiaeth Mrs Eirlys Ll. Jones pryd y cafwyd Cwis wedi ei drefnu gan Miss Eileen Williams. Gwesteion y te oedd Mrs Glenys Williams, Mrs Grace Williams a Mrs Sally Lewis. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Glenys Williams a'r enillydd oedd Mrs Dolly Brown.

Treuliwyd prynhawn difyr ar 14 Mai yn gwrando ar Miss Jean Moeller yn adrodd hanes ei gwyliau yn Seland Newydd. Diolchwyd iddi gan Mrs Eirlys Ll. Jones. Rhoddwyd y te gan Mrs Beti W. Davies, Miss Lizzie Thomas a Mrs Mair Lewis. Enillwyd y raffl, rhoddedig gan Mrs Beti W. Davies, gan Miss Jean Moeller.

Sefydliad y Merched: nos Fawrth, 14 Mai, cyfarfu'r aelodau yn y Ganolfan a'r wraig wadd oedd Mrs Pat Jones, Brynrefail, y V.C.O. Diolchwyd iddi gan Miss Betty W. Davies a Mrs Eirlys Williams. Enillwyd y raffl gan Mrs Glenys Williams. Bydd y cyfarfod nesaf 3 Mehefin, pryd y disgwylir Miss Jean Moeller, i ddangos ffilmiau a hanes ei gwyliau yn Rwmania, bydd hefyd yn noson Moes a Phryn. **Cyfarfod Pregethu.** Bydd Cyfarfod Pregethu Blynnyddol y Wesleaid yn cael ei gynnal yng Nghapel Ebeneser (A), ar 2 Mehefin am 10 y bore a 5.30 yr hwyr. Y pregethwr gwadd fydd Y Parch John Alun Roberts, Abergele. Croeso cynnes i bawb.

Cyngor Eglwys: Ddechrau'r mis anfonwyd £430 gan y Cyngor, ar ran eglwys i'r pentref, i Bencadlys

Cymorth Cristnogol, tuag at helpu anffodusion Kurdistan.

Cyd-ddigwyddiad oedd bod y Cyngor hefyd wedi trefnu i gynnal gwasaneth arbennig yn Eglwys Llan-dinorwig ar nos Lun 13 Mai, i lansio Wythnos Cymorth Cristnogol 1991. Y Parchg John Pritchard oedd llywydd y cyfarfod a chafwyd cyfraniadau gan gynrychiolwyr eglwys i'r Cyngor. Estynnwyd croeso arbennig a chynnes i ysgrifennydd newydd Adran Gogledd Cymru, Cymorth Cristnogol, Mrs Liz Perkins, i'r cyfarfod. (Bydd y cyfarwydd yn gwybod mai merch y Parchg a Mrs Glyndwr Williams yw Mrs Perkins, ac yn amlwg roedd yn gwbl gartrefol yn ein plith wrth sôn am rai atgofion pan oedd y teulu yn byw yn Ficerdy Llan-dinorwig.) Diolchodd y llywydd i Mrs Perkins am ei hanerchiad grymus yn cymell ein cefnogaeth frws i'r wythnos eleni eto.

Dymuna'r Cyngor ddiolch ymlaen llaw am dderbyniad cynnes i'r casgyllyddion fydd yn casglu o dŷ i dŷ yn ystod yr wythnos ac am haelioni'r pentrefwyr. Cyhoeddor cyfanswm y casgliad yn rhifyn nesaf o'r Eco.

Ysgol Gwaun Gynfi:

Yn nechrau a chanol y mis hwn, bu Mr Dafydd Williams y plismon, yn brys iawn yn stampio rhifau beiciau llawer o blant yr ysgol. Am ei gymwynas a'i barodrwydd cwrtais, diolchwn yn gynnes iddo.

Dydd Mawrth y 14eg roedd plant y dosbarth hynaf yn cymeryd rhan mewn hyfforddiant gwahanol chwaraeon yn Ysgol Gyfun Brynrefail. Cychwyn cadwyn o wyth gwers oedd yr achlysur, a bu i bawb gael pleser a mwynhad.

Dydd lau y 16eg cymerodd plant hynaf yr ysgol ran mewn chwaraeon a drefnwyd gan yr Heddlu ac a gynhaliwyd yng Nghanolfan Hamdden Arfon, Caernarfon.

Yn gysylltiedig â'r Ffair lechyd a gynhaliwyd yn ddiweddar 'ma, daeth cynrychiolydd o'r heddlu, Mr Alun Bevan, a chynrychiolydd Banc Barclays, Bangor, Mr Merfyn Owen, i'r ysgol i feirniadu cynnyrch y plant oedd yn seiliedig â'r Ffair. Dyma fuddugwyr y dosbarthiadau — dosbarth Mrs B. Griffith: Ffion Haf Jones; dosbarth Miss I. Williams: Ruth March; dosbarth Miss J. Jones: Tom Lea; dosbarth Mrs Wyn: Leah

Edge; dosbarth Mr Robinson: Sam Lea; dosbarth Mr G. Roberts: Maria Spain. Banc Barclays, Bangor, oedd yn noddi'r gwobrau.



Alaw Mari Hughes.

Yr Urdd: Llongyfarchiadau i Alaw Mari Huws, 8 Tai'r Faenol, ar ennill yr ail wobwr yn adran Rhyddiaith dan 10 oed yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Nhâf Elai.

Hefyd llongyfarchiadau iddi ar ennill pedair gwobr gyntaf am adrodd ac un wobwr gyntaf am ganu mewn eisteddfodau ar hyd a lled Gwynedd yn ystod y mis. Mae'n cael ei dysgu gan Mrs Mair Wyn Jones a Mrs Einir Wyn Owen.

Seindorf: Daeth newyddion ardderchog yn ystod y mis pan ddewiswyd saith o aelodau ieuanc i Fand Cenedlaethol Ieuencid Cymru. Mae hyn yn anrhydedd fawr iawn nid yn unig i'r saith ac i'r Seindorf ond i'r ardal gyfan, ac mae'n adlewyrchu dawn arbennig y bobl ifanc yma; dim ond y goreuon sydd yn cael eu dewis i Fand Cymru. Y saith yw: Iwan Williams, Dylan Williams, Eilir Williams, Euros Williams, Emily Roberts, Martin Williams a Gavin Saynor. Llongyfarchiadau mawr iddynt a'r dymuniadau gorau am bob llwyddiant gyda'r Band ym mis Gorffennaf.

Cynhaliwyd cyngerdd blynnyddol y Seindorf yn Neuadd Ysgol Llanrug, nos Wener, 17 Mai. Gyda'r Seindorf roedd Lleisiau'r Frogwy, John Ogwen a Iwan Williams. Cafwyd noson arbennig o dda a dymuna'r trefnwyr ddiolch i drigolion y fro am eu cefnogaeth ac hefyd i fusnesau'r ardal am eu cefnogaeth ariannol.

Enillwyr Clwb 200 y Seindorf am fis Mai yw — £25: Dafydd Wyn Hughes, Rhydfadog; £15: Siôn Wyn Hughes, Deiniol; £10: Sian Lewis, Deiniol.

Diolchiadau:

Hoffai Melfyn, Glenda, Mathew a Huw, 3 Tai Orwig, Brynrefail, ddiolch yn ddiffuan i'r Gwasanaeth Tân ac Ambiwylans, i'w teulu, cymdogion a'u ffrindiau yn Neiniol a Brynrefail am bob caredigrwydd a ddangoswyd iddynt. Diolch i'r Parchg D. J. Pritchard am ei eiriau o gysur ac am y llu galwadau ffôn a dderbyniwyd. Diolch i chwi oll.

Dymuna Sharon Wyn Williams, 2 Rhydfadog, ddiolch o galon i'w theulu, perthnasau a'i ffrindiau oll am y llu cardiau a'r rhoddion a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn ddeunaw oed.

Dymuna Ceri Wyn Williams ddiolch i'w chymdogion, ffrindiau a'i theulu am fod mor garedig wrthi ar ôl iddi gael damwain â'i cherbyd yn ddiweddar.

Hoffai Iorwerth a Peni, 5 Hafod Oleu, ddiolch i'w teulu, ffrindiau a'u cymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar ddathlu eu Priodas Rhuddem ar 7 Mai.

Dymuna Eric a Jennie, 34 Hafod Oleu, ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am yr holl gardiau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniasant ar achlysur dathlu eu Priodas Aur.

Dymuna Mr a Mrs Hefin Hughes, Llys Myfyr, a'r teulu i gyd, ddiolch i'w holl ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn ddiweddar ar achlysur colli mam a nain annwyl, Mrs Ivy Williams.

Diolch hefyd am y rhoddion hynny a roddwyd i Ward Gwyrfa, Ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon.

Clwb 100 mis Mai — 1, £9: Tecwyn Jones, 83 Pentrehelen (56); 2, £4: Meirion Jones, Clwt y Bont (39); 3, £3: Gloria Thomas, Rhydfadog (64).

Undeb y Mamau: Cynhaliwyd cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys ar 7 Mai dan lywyddiaeth y Parch. Tegid Roberts. Mr Alan Bevan, Swyddog Atal Troseddau yr Heddlu yng Nghaernarfon oedd ein gŵr gwadd. Cafwyd noson ddiffr yn ei gwmni yn siarad am ei waith gyda chwis a thrafodaeth wedyn. Diolchwyd iddo gan Mrs Gwen Griffith. Rhoddwyd y te gan Mrs Beth Jones a Mrs Beti Roberts. Enillydd y raffl oedd Mrs Eileen Hughes. Dymuna'r aelodau ddiolch i Mrs Pat Hayers am wneud gwaith ardderchog ar y 'kneeler', rhodd Undeb y Mamau i'r Eglwys Gadeiriol ym Mangor, i ddathlu canmlwyddiant yr Undeb.

YN EISIAU GOFALWR

i Dŷ Capel Libanus (B) Clwtybont, Deiniol

Manylion gan:
Robert Williams,
4 Tai Caradog, Deiniol
Ffôn: (0286) 872571

Dyddiad cau: 30 Mehefin, 1991

GWAHODDIAD I FUDIADAU'R FRO

Gwahoddir unrhyw fudiad ym Mro'r Eco i gynnal stondin ar ddiwrnod Ras yr Wyddfa — am ddim.

Os oes unrhyw un â diddordeb, cysylltwch â:
Cledwyn Jones
Ffôn: Llanberis 871496



ERYRI ORGANIG

LLANFAGLAN
Ffôn: C'fon 76905
Rhwyng 5 a 7 yr hwyr

CYFLENWYR CYNNYRCH GARDDIO ORGANIG

★ Gwrtaiith ★ Bwydydd Hylif

★ Offer atal Pla a Chwyn ★ Compost a mwy
Archebion Post 'Garddio llaw yn llaw â Natur'

DAFYDD IWAN

O ddechrau'r chwedegau y canodd ei gân,
I ddeffro'r holl genedl, a rhol Cymru ar dân!
Fe swynodd y werin gyda'i lais a'i gitâr,
Cyfansoddodd alawon a geiriau mor wâr.

Fe strymiodd y cordiau gyda miwsig mor leddf,
A chynhesodd y gynulleidfa mewn angerdd a greddf,
Fe strymiodd y cordiau gyda'i fysedd a'i fawd,
A'r gynulleidfa'n ei fynwes, pob un iddo'n frawd!

Ei wreiddiau o'r 'Cilie' — hen frethyn go iawn,
Digrifwr ar lwyfan, ac artist o ddawn;
Mae'i ganeuon mor hudolus, am ei bobl a'i wlad,
Rhaf fel 'Merch y Mynydd' heb anghofio 'I'r Gad'.

Trwbawriodd drwy Gymru, o'r gogledd i'r de,
A'r un oedd y croeso gan bawb ym mhob lle;
Fe frwydrodd drwy'r gwyntoedd, yr eira a'r glaw,
Wrth gadw cyngherddau fan yma a'r fan draw.

Gwnaeth Dafydd fwy dros Gymru na'r un aelod o'i Blaid,
Mae ganddo neges ym mhob canig — a gwrando sydd rhaid;
Mae safon ei gynnyrch ymysg y rhai gorau'n y byd,
Ac ar ôl chwarter canrif — mae o 'Yma o Hyd'!

JOHN V. MORRIS, Clwt-y-Bont.

DINORWIG

Mr D. J. Thomas, 8 Maes Eilian

A ninnau'n edrych i lawr yn feunyddiol ar Lanberis yn llechu yn Nyffryn Padarn, ni allwn lai na meddwl am y cysylltiad agos sydd rhwng Llanberis a Dinorwig ar hyd y blynyddoedd. Fe aiff fy atgofion personol i yn ôl hyd gyfnod y Parch J. Eifl Hughes, ac mae eraill wrth reswm yn cofio am gyfnod cynharach na hynny, ac yn sylweddoli y cyswllt agos a fu rhwng achosion Calfinaidd Dinorwig a Llanberis. Dyma'r amser pan oedd bri ar Gorffwysfa, Capel Coch a Preswylfa, ac 'roedd y capeli hyn yn cyfrif mewn bywyd ardal. Fe allai nad oedd y cysylltiad mor glôs â chydya capeli Deiniolen. Llanberis oedd yr atynfa draddodiadol.

Mae gweinidog yr ardal bellach yn gofalu am Dinorwig, Deiniolen a Llanberis a'r prinder gweinidogion cyfoes yn gwneud hyn yn anochel. Ni wyddom a yw crefydd ein Gwaredwr yn colli ei gafael ar ieuencid heddiw a nifer o'r bobl ifanc yn chwilio am gysur oddi wrth sefydliadau seciwlar, ond serch hynny, mae Cymanfaoedd Canu a phregethu grymus yn mynnu eu lle ymysg ieuencid yr oes bresennol. Tybed a yw ein gweinidogion bellach yn fwy o arweinwyr cymdeithasol yn hytrach na lladmeryddion yr Efengyl? Tybed a ydym wedi colli'r ffordd yn rhywle? Mae'n gwbl hanfodol rhoddi'r Arlwydd Iesu Grist ar ei orsedd uchel a dyrchafedig, a sylweddoli na all dim na neb arall gymeryd ei le Ef. Cyfryngau wedi'r cyfan yw pob peth dynol i'n harwain at y Dwyfol ei hun. Cynorthwyer ni i sylweddoli o'r newydd pwy yw Pen Tywysydd a Pherffeithydd ein ffydd ni. Yr ydym fel llong yn llusgo ymlae, a heb ganddi angor i warantu ei diogelwch. Fe allai y maddeuer am y tro y cymysgu ffigurau fel hyn, ond rhaid sefydlu ein traed ar ddaear gadarn.

Er i ni ymfalchïo ein bod yn genedl breintiau mawr ac yn wlad y cymanfaoedd, fe ofynnwn am arweiniad oddi uchod er crisialu yr hyn sydd gennym a sylweddoli bod y Duw byw yn estyn ei law i'n codi o ddyfnderoedd ein trueni i'n gwneud yn gyd-etifeddion â'r saint. Mae Duw wedi creu y byd i bwrpas arbennig, ac er amlygu Ei allu yn cadw'r rhai colledig gan orchfygu angau a'r bedd a dod â'r byd i gytgord tangnefeddus âg Ef ei Hun.

Fe fu'r dyddiau diwethaf hyn yn gyfnod hynod o brysur i ni yn Sardis. Y Sul cyntaf o'r mis yr oeddem yn y Gymanfa Ganu ym Mheniel, Bangor, tra roedd y Presbyteriaid yn eu Cymanfa Ganu hwythau ym Methel, Arfon — capel Y Cysegr. Yn fuan ar ôl y Gymanfa Ganu fe weinyddwyd yr ordinhâd o Fedydd y Crediniol yma yn Sardis — hyn ar noson waith, a'r Sul dilynol fe dderbyniwyd y rhai a fedyddiwyd yn gyflawn aelodau. A'r Sulgwyn wedyn fe gafwyd ein gŵyl bregethu flynyddol ninnau. Y cennad a wahoddwyd i'n cynorthwyo i ddathlu'r ŵyl oedd y Parchg Idwal Wynne Jones, Llandudno. Fe ganolbwyntiwyd yn fwyaf arbennig ar neges y Pentecost cyntaf, ac fe dynwyd gwersi addas iawn parthed yr ŵyl arbennig hon. Mae ein tystiolaeth ninnau heddiw yn dibynnu pa agosed y gallwn ninnau fod i ysbryd gwreiddiol yr ŵyl, pryd y daeth nerth yr Ysbryd Glân ar y disgyblion a'r tystion cyntaf gan wneuthur yr eiddil yn wrol.

Tra ein bod yn ymdristau ac yn gofidio i ni golli rhai annwyl o'n mysg, mae'n rhaid i ni hefyd ddiolch am yr esiampl a roesant hwy i ni. Pobl yn credu yn eu Beibl oedd y bobl hyn, ac yn rhoddi'r arwyddbyst i ninnau i ddilyn eu hesiampl. Er eu curo gan stormydd creulon bywyd, cerddasant hyd ol traed eu Gwaredwr. Er eu siomi ar brydiau ni chwerwasant.

Fe ddaw newydd trychinebus o'r India a ninnau ar gau'r mwld. Fel Bedyddwyr fe gofiwn am William Carey, y cenhadwr. Fe laddwyd Ragav Gandhi yn union fel y lladdwyd ei fam Mrs Indira Gandhi o'i flaen. Hyn fu'r achlysur iddo ef gymeryd yr awenau. Beth fydd canlyniadau hyn i gyd mae'n anodd darogan, a ninnau'n pendroni pa fath o haf a gawn ar ôl gwanwyn digon siomedig. Yn bendifaddau mae'r byd cyfan yn cael ei ysgwyd hyd at ei seiliau, a rhai ohonom yn amau bellach a ydym yn byw mewn byd gwareiddiedig. Ai camgymeriad oedd rhoi rhyddid ewyllys i ddyn?

Y Ganolfan: Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Ganolfan ar nos Fawrth, 7 Mai. Yn ddarwybod i'r swyddogion roedd digwyddiad arall wedi ei dreu yn y pentref ar yr un noson gyda'r canlyniad mai nifer siomedig iawn ddaeth i'r Cyfarfod Blynyddol. Er hynny penderfynwyd cario ymlaen â'r cyfarfod. Etholwyd Mr Derek

Williams fel llywydd newydd a Mrs Margaret Jones fel is-lywydd. Diolchwyd i Mr Glyn Tomos am ei arweiniad i'r pwyllgor dros y ddwy flynedd diwethaf. Ail etholwyd pawb arall ar y pwyllgor. Mynegwyd pryder mai cyndyn iawn yw pobl ifanc y pentref i ddod ymlaen i wasanaethu ar y pwyllgor. O gofio mai hwy yw dyfodol y pentref gobaith y pwyllgor yw y byddant yn gweld y ffordd yn glir i ddod i'r cyfarfod nesaf yn ôl pob tebyg yn cael ei gynnal ym mis Medi. Cyflwynwyd a derbyniwyd adroddiad y trysorydd, sef Miss Marian Jones, fel un cywir, yr un modd hefyd adroddiad ariannol y Clwb Snwcer oedd wedi ei baratoi gan Mr Rennell Williams.

Hwyl Haf: Am ba reswm bynnag ni fu neb yn y cyfarfod oedd wedi ei dreu ar nos Llun, 20 Mai, ar gyfer cynnal Hwyl Haf am eleni. Felly cynhelir cyfarfod arall ar nos Lun, 3 Mehefin am 7 yn y Ganolfan. Fel y soniwyd yn y rhifyn diwethaf cynhelir Hwyl Haf eleni ar brynawn dydd Sadwrn, 13 Gorffennaf. Felly os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno yn yr hwyl o drefnu'r cyfan cofiwch ddod i'r cyfarfod ar y 3ydd o Fehefin.

Eglwys St. Mair: Y digwyddiad mwyaf yn ystod mis Mehefin fydd cynnal yr Ŵyl Bregethu, ac fe ddigwydd hynny ar y trydydd Sul wedi'r Drindod (16 Mehefin) am 3.45 o'r gloch. Fel pob blwyddyn bydd croeso i aelodau o enwadau eraill i ymuno â ni. Hefyd ar yr un Sul cynhelir Cymun Teuluol am 10. Am weddill y mis bydd gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid ar 2 Mehefin am 3.45; yna gwasanaeth y Gosber ar 11 a 23 Mehefin am 3.45. Wrth gwrs erbyn hyn mae'r Adroddiad Ariannol

wedi gweld golau dydd ac mae'r diolch i bawb am eu cyfraniad ariannol dros y flwyddyn a aeth heibio. Er bod yr Eglwys yn cynnal ei hun yn wyrthiol o dda yn ariannol buasai gweld mwy yn ymuno yn y gwasanaethau o Sul i Sul yn gymorth mawr.

Llongyfarchiadau: Er na lwyddodd Clwb Pêl-droed Deiniolen i ennill Cwpan Alves/Sbec yn y ffeinal nos Lun, 20 Mai, nid yw hynny yn tynnu dim oddi wrth lwyddiant y Clwb am eleni o dan gapteniaeth Kevin John Jones, 4 Bro Elidir. Kevin yw capten y tîm eleni a deallwn ei fod yn aelod allweddol iawn o'r tîm. Wrth ei longyfarch ef gobeithiwn y bydd y tîm yn llwyddo i ennill Cwpan Moorings o fewn yr wythnos. Da iawn Kev.

Plât Dathlu'r Eisteddfod

Un o'r nwyddau diweddaraf a baratowyd i hyrwyddo dyfodiad yr Eisteddfod Genedlaethol i Aberystwyth yn 1992, yw plât a gynlluniwyd yn arbennig ar gyfer yr achlysur.

Mae'r patrwm a welir arno yn cynnwys arwyddlun yr Eisteddfod wedi ei amgylchynu â ffurfiau naturiol yn darlunio blodau ac anifeiliaid, siapiau yn dynodi cerddoriaeth, ynghyd â phatrwm Celtaidd. Holl bwysig yw'r cynllun lliw wedi ei seilio ar fwynau alcalïaidd a lliwiau a gysylltir yn draddodiadol ag offer a llawysgrifau Celtaidd.

Cynhyrchwyd nifer cyfyngedig o 500 a'r pris yw £25. Gellir eu prynu yn Siop yr Eisteddfod.

Am fanylion pellach, cysyllter â **Penri Roberts, Trefnydd, Swyddfa'r Eisteddfod, 6 Y Stryd Fawr, Aberystwyth.**

CARTREF NYRSIO PENISARWAUN

- ★28 Stafell Wely Sengl gyda thy bach a lle ymolchi
- ★2 Stafell Wely Ddwbl gyda "en suite" (delfrydol i barau priod)
- ★Gwres canolog llawn
- ★Sustem ddiogelu rhag tân
- ★Eisteddfa fawr gyfforddus efo teledu lliw
- ★Sustem alw nyrs
- ★Yn Cwrdd â phob angen personol
- ★Lle bwyta mawr
- ★Aros cyfnod hir/byr
- ★Gofal 24 awr y dydd gan staff proffesiynol
- ★Croesawir rhai gyda cymorth D.H.S.S.
- ★Ymwelwyr yn cael galw unrhyw adeg
- ★Coginio cartefol
- ★Metron a staff sy'n siarad Cymraeg
- ★Ar lwybrau bws o Fangor a Chaernarfon

Am fanylion pellach cysylltwch â'r
Metron Cheryl Williams, Ffôn 872038.

E.W.Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI



YMWELIAD Â THEATR GWYNEDD
Ar fore Gwener, 17 Mai, teithiodd saith deg o ddisgyblion y pedwerydd a'r chweched dosbarth i Theatr Gwynedd i wyllo addasiad John Ogwen o ddrama Alan Ayckbourn, 'Un o'r Teulu'.

Un arall o gynyrchiadau Cwmni Theatr Gwynedd oedd y ddrama hon a brofodd yr un mor llwyddiannus â'i rhagflaenwyr. Yr actorion yn y cynhyrchiad arbennig yma oedd Valmai Jones, Llion Williams, Nia Williams ac Eilian Wyn. Mae'n arferiad gan Gwmni Theatr Gwynedd erbyn hyn i gynnal perfformiadau yn ystod y dydd er mwyn i blant ysgol gael cyfle i wyllo'u dramau. Mae hyn yn syniad gwych ac yn rhoi cyfle i blant fynychu'r theatr a thrin a thrafod cynyrchiadau yn rhan o'r cwrs TGAU Cymraeg.

Comedi slic a digrif dros ben yw 'Un o'r Teulu' 'Roedd yn amlwg bod y plant yn y theatr wedi mwynhau eu hunain yn arw wrth wrando ar eu chwerthin tra'n gwyllo'r pedwar cymeriad yn twyllo'u gilydd ac yn cael eu twyllo. Nid dyma'r lle i sôn am gynnwys y ddrama, dylech fynd i'w gweld drosoch eich hunain!

Bu sôn am y ddrama ar y bws adref, a bydd y cynhyrchiad yn aros yn hir yng nghof y disgyblion a fu'n ddigon ffodus i fynychu Theatr Gwynedd.

ENNILL ROWND AR 'PENAWDE'

Yn ddiweddar bu Lowri Angharad yn recordio i'r rhaglen gwis 'Penawde' yn Stiwdio Barcud, Caernarfon. Enillodd ei rownd ar y rhaglen a dymunwn y gorau iddi yn y rownd nesaf.

* * * * *

Tra'n sôn am fyd teledu dymunwn longyfarch Tami Jones, dosbarth 5, sydd wedi ei dewis i ymddangos ar y rhaglen ddychan 'Sblat' i bobl ifanc. Bydd Tami yn recordio i'r rhaglen yn ystod mis Gorffennaf. Yn ogystal â hyn cafodd ei derbyn i'r Theatr Ieuencid Genedlaethol yn

ddiweddar a dymunwn y gorau iddi yn ystod mis Awst pan fydd ar gwrs gyda'r Theatr Ieuencid yng Nghaerdydd.

Dau arall o'n disgyblion a ddewiswyd yn ddiweddar i ymddangos mewn drama deledu yw Martin Williams, dosbarth 3, a Susan Humphreys, dosbarth 2. Bydd y ddau i'w gweld yn y dyfodol mewn cynhyrchiad o 'Traed Mewn Cyffion'.

Llongyfarchwn Mr Hywel Roberts sydd wedi cael ei benodi yn Bennaeth Cemeg Ysgol Eifionydd, Porthmadog, yn ddiweddar. Dymunwn pob llwyddiant iddo yn ei swydd newydd.

YR ADRAN GERDD

Y mis yma mae pedwar disgybl o'r ysgol wedi cael eu dewis i chwarae gyda Band Prês Cymru. Mae hyn yn anrhydedd i Eilir Williams, dosbarth 4; Euros Williams, dosbarth 3; Dylan Williams a Martin Williams sydd wedi ei ddewis fel eilydd.

O ganlyniad i gael eu derbyn bydd y pedwar yn mynychu cwrs yn y Coleg Normal ar ddiwedd mis Mehefin ac yn chwarae mewn tri chyngherdd ym Mangor, Aberystwyth a Chaerdydd.

YR ADRAN ADDYSG GORFFOROL

Pêl-rwyd Gwynedd: Mae'r genethod canlynol wedi cael eu dewis i ymarfer hefo sgwad Pêl-rwyd Gwynedd am weddill y tymor. Llongyfarchiadau mawr i Nicola Houston, dosbarth 4; Manon Williams, dosbarth 2 a Rhian Green, dosbarth 1.

Ysgolion Cynradd: Rhoddwyd cychwyn ar gynllun newydd o fewn yr adran Addysg Gorfforol yn yr ysgol yn ddiweddar. Tan ddiwedd y tymor yr haf bydd pob ysgol gynradd yn yr ardal yn cael cyfle i ddod a'u haelodau hynaf i ddefnyddio adnoddau chwaraeon Ysgol Brynrefail a hynny am brynawn cyfan bob wythnos. Mae'r disgyblion ifanc yn cael eu hyfforddi i chwarae criced, tenis a rownderi ac i ddysgu athletau a gymnasteg.

CHWARAEON

Pêl-droed: Bu Jonathan Davies o'r 3edd flwyddyn yn chwarae i dîm dan 14eg oed Ysgolion Gwynedd yn erbyn Ysgolion Gwent yn Aberystwyth ar y 15fed o'r mis. Bu'r tîm yn fuddugol, gan sgorio pedair gôl yn erbyn un.

Criced: Mae Iestyn Roberts o'r 6ed dosbarth yn aelod o dîm hŷn Ysgolion Gwynedd, ac fe ddewiswyd Aled Roberts i chwarae dros y tîm dan 15eg oed yn Ne Morgannwg ar yr

22ain o'r mis.

Mae nifer o'r hogia yn chwarae hefyd i dîm ieuencid Fron Dinas, fu'n llwyddiannus ym mhob gêm nemor un hyd yma yn y tymor. Mae'r tîm yn chwarae yng nghynghrair ieuencid Sir Fôn, a'r aelodau o'r ysgol ydi Aled Roberts, Meical Owen, Dyfed W. Thomas, Owain ap Gruffydd, R. Ginsberg a Michael Moran.

Gweithgareddau Awyr Agored: Y mae nifer o ddisgyblion y bedwaredd yn manteisio y tymor yma ar y cyfle i ymarfer sgiliau awyr agored dan ofal Mr H. Walter, Brynrefail a Mr I. A. Jones. Hyd yma maent wedi profi dringo a chanwio.

Athletau: Dyma restr o'r rhai ddaeth yn gyntaf, ail neu drydydd yng nghyfarfod Athletau Ysgolion Arfon ym Mangor ar Fai 9fed. Fe ymddengys nifer ohonynt yn y llun isod.

Alun Vaughan: 1, 1500m dan 13; Ambrose Choy: 1, Naid Hir dan 13; Dylan Williams: 1, Naid Driphlyg; 2,

100m dan 13; Alan Parry: 1, Disgen dan 13; Dylan Yandell: 3, 800m dan 13; Rhodri Roberts: 3, 200m dan 13; Gavin Jones: 3, Pwysau dan 13; Meinir Roberts: 3, 800 dan 13; Rhian Green: 3, Picell dan 13; Bechgyn dan 13: 2, Ras Gyfnewid; Manon Williams: 1, 100m, 200m genethod dan 15; Sandra Nisbett: 1, Naid Hir; 3, Pwysau dan 15; Caitlin Wroe: 1, Clwydi; 3, Picell dan 15; Rowan Thomas: 1, Pwysau, Disgen dan 15; Raphael Ginsberg: 1, Picell dan 17; Jonathan Davies: 1, Naid Hir, Naid Driphlyg; 3, Naid Uchel dan 15; Arwel Jones: 2, Picell dan 15; Genethod dan 15: 3, Ras Gyfnewid; Eryl Roberts: 1, Pwysau, Disgen dan 17; Andrew Lawrence: 2, 100m dan 15; Michael Williams: 3, Naid Hir, Naid Driphlyg dan 17; Arfon Roberts: 2, Disgen dan 17; Caroline Jones: 1, 800m; 3, 1500m dan 15; Simon Williams: 3, 400m dan 15; Jonathan Williams: 1, Pwysau, Disgen dan 19; Louise Murphy: 1, Picell; 3, Pwysau dan 19; Anwen Parry: 1, Naid Uchel dan 19; Colin Jones: 1, 1500m, 800m dan 19.

Fel y gwelwch: 22 yn gyntaf; 5 yn ail a 14 yn drydydd. Ardderchog wir!!



DIOGELU'R AMGYLCHEDD

Beth fedrwn ei wneud yn yr ardal hon?

'Rydym yn teimlo nad oes digon yn cael ei wneud yn ardal Ysgol Brynrefail i ofalu am yr amgylchedd. Dyma yw ein barn ni yn nosbarth 3.

Nid oes hanner digon o fanciau papur, gwyrdr ac aliwminiwm yma yn yr ardal. Mae pobl yn gorfod teithio'n bell i roi eu poteli a'u papurau yn y banciau yn Llanberis a Chaernarfon. Mae'n llai o drafferth iddynt eu rhoi allan ar gyfer y lori sbwriel. Dylai ein cynghorau wneud yn siwr bod banciau fel hyn ar gael ym mhob un o bentrefi'r ardal.

Peth arall y gallwn ei wneud yn yr ardal yma yw defnyddio llai ar geir. Dylai bod gwell gwasanaeth bws ar gael i ni fynd i Gaernarfon a Bangor ac o un pentref i'r llall. Dylai pawb wneud mwy o ymdrech i ddefnyddio'r bwsiau neu i ddechrau defnyddio beic a cherdded o le i le yn amlach. Byddai'n braf cael lonydd beicio o un pentref i'r llall gan bod y ffyrdd yn eithaf peryglus.

Mae digon y gall ysgolion yr ardal ei wneud i helpu'r amgylchedd hefyd. Mae tunnelli o bapurau yn cael eu gwastraffu wrth eu taflu yn hytrach na'u gyrru i gael eu hail-gylchu. Dylai'r ysgolion drefnu eu bod yn ail-gylchu papur yn hytrach na'i daflu i ffwrdd a dylent hefyd ddefnyddio papur wedi ei ail-gylchu. 'Rwy'n siwr y gallai hyn arbed arian i ysgolion.

Byddai'n syniad da mynd ati i blannu coed ym mhentrefi'r ardal. Ychydig o fisoedd yn ôl planodd Ysgol Dolbadarn Llanberis goed yn y cae chwarae i drio helpu'r amgylchedd. Ymhen ychydig o ddyddiau wedyn roedd y coed yma wedi eu torri i lawr a'u difetha!

Gobeithio gwnewch chi bobl yr ardal sylweddoli bod gennym ni gyd ran yn y frwydr i ddiogelu'r amgylchedd. Gallwn ni i gyd wneud rhywbeth!

CARYS PARRY, Dosbarth 3

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser
Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff

CABS LLANRUG



C'fon 5951

Prisiau cystadleuol
Gwaith contract
pell ac agos

BRYNREFAIL

Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. Ffôn: 870580



Plant Ysgol Sul Brynrefail M.C. a wobwyd yng Nghymanfa Dosbarth Padarn.

Cymanfa Dosbarth Padarn: Cynhaliwyd y Gymanfa eleni yng Nghapel Cysegr, Bethel, ddydd Sul, 5 Mai. Gwobwyd y canlynol o Ysgol Sul M.C., Brynrefail, am eu gwaith yn yr Arholiad Llafar: Dylan Davies, Bethan Owen, Ellen Williams, Ruth Owen, Iestyn Williams, Rhian Owen, Amy Lambert, Rhian Davies, Mrs Mair Davies a Miss Lowri P. Roberts.

Cymdeithas y Chwioriudd: Cyfarfu Cymdeithas Chwioriudd Capel M.C., Brynrefail yn y Ffestri, nos Iau, 2 Mai. Yn absenoldeb y llywydd, Mrs Jennie Angharad Roberts a oedd ar ymweliad a Sasiwn y Gogledd yng Nghroesoswallt, estynnwyd gair o groeso i bawb gan yr ysgrifennyddes Mrs Ifanwy Jones. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Mrs Rhian Jones a chafwyd ganddi ddisgrifiad byw o rinweddau bywyd eu hynafiaid oedd yn adlewyrchu'r ffordd Gristnogol o fyw. Cyflwynwyd y gŵr gwadd, Mr Rol Williams, Waunfawr, gan Mrs Jennie Hughes, y ddau wedi eu cyd-fagu ym Mrynrefail mewn cyfnod pur lewyrchus yn grefyddol a diwylliannol. Testun sgwrs y gwestai oedd 'Galifantio' a rhoddodd ddarlun byw o'i yrfa ym myd adloniant o'r cychwyn cynnar yn y Ffestri ym Mrynrefail ac wedyn ledled y wlad mewn eisteddfodau, cyngherddau a nosweithiau llawen yn ogystal ag ar y cyfryngau. Gwerthfawrogwyd yn fawr ei sgwrs hwyliog a diolchwyd iddo gan Mrs Betty Owen. Paratowyd y baned gan Mrs Euronwy Roberts a Mrs Betty

Owen. Ar y terfyn rhoddwyd croeso i Mrs Dwynwen Williams a Mair Davies i'r Gymdeithas a chyhoeddi mai Mr Gwyn Hefin Jones fydd y gŵr gwadd yn y cyfarfod nesaf ar 11 Mehefin.

Cronfa Melfyn a Glenda: Dymuna Mr a Mrs C. Wager gyhoeddi i'r casgliad a wnaed yn y Llythyrdy er budd teulu 3 Tai Orwig, lle difrododd tân ran helaeth o'u cartref, ddod i'r swm o £95.50. Diolch yn fawr i bawb.

Casgliad: Mewn casgliad a wnaed yn y pentref yn ddiweddar tuag at y Genhadaeth (Sasiwn Chwioriudd y Gogledd) casglwyd y swm o £53.00. Diolch i'r casglyddion am eu gwaith ac i bawb am eu rhoddion.

Sefydliad y Merched: Nos Lun, 13 Mai, cyfarfu'r gangen leol yn y Ffestri. Treuliwyd y cyfarfod yn trafod yr Argymhellion ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol a gynhelir eleni yn Birmingham ac a fydd yn achlysur tair blynedd o hyn ymlaen. Bydd y gangen yn cael ei chynrychioli yn y cyfarfod gan Mrs Betty Owen, Tros yr Afon. Rhoddwyd croeso i Mrs Jean Davies ar ei dychweliad o Awstralia lle bu hi a'i phriod yn treulio rhai misoedd yng nghartref eu merch. Mynegwyd balchder o weld Mrs Mair Jones yn bresennol ac wedi gwella o'r anhwylder a gafodd yn ddiweddar ac anfonwyd cofion at Mrs Gwyneth Williams. Paratowyd y lluniaeth gan Mrs Eirlys Williams a Mrs Euronwy Roberts. Enillydd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs

Susan Chitty, oedd Mrs Gillian Morris.

Nos Lun, 20 Mai, daeth y gangen yn ail yng nghystaleuaeth Cwpan Rhosynnau gan fethu o un pwynt yn unig i ennill safle yn Sioe Llanellwedd. Dymunir diolch i bawb am eu hymdrech ac am gefnogaeth arbenig y llywydd Mrs Pat Jones.

Hospis yn y Cartref: Cynhelir Barbeciw i lansio apêl Hospis yn y Cartref ar nos Wener, 21 Mehefin, ym muarth yr Hen Ysgol Fach. Apêlir yn daer am gefnogaeth i'r noson pryd y bydd un o drefnwyr yr Apêl yn bresennol.

Trip Blynnyddol: Bydd trip blynnyddol Eglwys M.C. Brynrefail yn cael ei drefnu dan nawdd Cymdeithas y Chwioriudd. Eleni yn hytrach na thrip



Priodas: Ddydd Sadwrn, 11 Mai, yng Nghapel M.C. Brynrefail priodwyd Eluned Mai, merch John ac Elsie Owen, Hafod y Rhos, Llanrug, â Mark McQuire Jones, mab Mr a Mrs Kelvin Jones, Delphie, Gwalchmai. Gweinyddwyd gan y Parch John Morris a'r organyddes oedd Miss Lowri P. Roberts. Y morynion oedd Siân Dvies (ffrind y briodferch), Mandy Jones (chwaer y priodfab) ac Esyllt Mair Jones (cyfnither y briodferch) ynghyd â'r ddau facwy Meilyr Siôn a Dîon Siôn (dau frawd y briodferch). Yr ystlyswyr oedd David Lloyd (ffrind y priodfab) ac Emlyn Llŷr Jones (cefnder y briodferch). Cynhaliwyd y wledd briodas yng Ngwesty Fictoria, Llanberis. Yno hefyd cafwyd Disco a Bwffe gyda'r nos. Treuliodd y pâr ifanc eu melrawd yng Nghaer a bydd y ddau yn cartrefu yn 9 Pennant, Llangefni. Gwnaed y deisen briodas gan Mrs Janet Ann Owen, Brynsiencyn ac addurnwyd hi gan Jane Pierce. Gwaith Mrs Wendy Jones, Glanffynnon, Llanrug, oedd gwisgoedd y briodferch a'r morynion.

gyda'r nos, bydd y trip yn cael ei gynnal ddydd Sadwrn, 20 Gorffennaf ac yn cychwyn yn brydlon ar ôl cinio.

Diolch: Hoffai Melfyn, Glenda, Mathew a Huw, 3 Tai Orwig, Brynrefail, ddiolch yn ddiffuant i'r gwasanaeth tân ac ambiwlans, i'w teulu, cymdogion a'u ffrindiau ym Mrynrefail a Deiniolen am bob caredigrwydd a ddangoswyd iddynt. Diolch i'r Parch D. J. Pritchard am ei eiriau o gysur ac am y llu galwadau ffôn a dderbyniwyd. Diolch i chwi oll.

DUW A DYN

Cydgerrdded ar hyd glan y môr
'Roedd Duw a dyn un diwrnod.
Gan ddilyn ôl a wnaethant gynt,
Ddangosai yn y tywod.

Ond cyn bo hir, daeth newid cas
Fe drôdd y gwynt i chwiplo
A thonnau enfawr ar y traeth
Yn corddi a malurio.

A sugno'n ôl i'r dyfnder du,
Pob peth oedd wan a simsan
Ac nid oedd mwy, ond un ôl troed
I'w ganfod yn y graean.

'Paham, o Dduw, gadewaist fi
Ar gyfnod gwaetha 'mywyd,
Pan nad oedd cysgod mewn un man,
Ond creigiau geirwon adfyd?'

'Na, na, medd Duw, nid felly bu,£
Fan hyn dy gwyp oedd sydyn
A syrthio wnes i'r llwtrach gwylyb
A methu codi wedyn.'

Dy garlo fu yn rhaid i mi
Nes dod i lecyn brafllach,
Rhoi cyfle i ti wella'th friw
A gwneud dy ffydd yn gyfrach.'

Na nid yw Duw yn gadael neb
Pan mae ei fyd yn duo,
Ond rhydd o'i nerch a'i gymorth hael
Nes daw goleuni eto.

O. IDRIS OWEN
Minffordd, Peniarwaun.

**WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI
GWAIR
E. PUGH
WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394**

CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf
modern, diweddaraf, sydd
ar gael. Am fanylion
cysylltwch â

TEGID PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 291
Hefyd ail-osod carpedi

CRIB COCH

Y Sgwâr, Llanrug
Ffôn: Caernarfon
76772

TRIN GWALLT I
BAWB O'R TEULU
GAN JEN

Ffoniwch neu galwch
i drefnu amser

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

Cerddor Arall o'r Nant

Gyda mawr ddiddordeb y darllenais yr erthygl am Miss Gayney Griffith yn rhifyn Ebrill o'r *Eco*, gan i mi glywed fy nhaid, oedd wedi ei eni yn Tŷ Beili, Nant Peris, prin ganllath o'r Weirglodd-ddu, yn sôn amdani droeon. Yr oedd yn uchel ei glod i'w dawn fel cantores, ac yn ei hystyried fel un o'r unawdwyd gorau a glywodd erioed. Soniai gyda brwdfrydedd am goethder ei llais, a'i dawn i lwyfannu yn dda.

Ymddengys y byddai Miss Griffith yn ymweld a Tŷ Beili yn aml i ymarfer gyda brawd fy nhaid, sef David D. Parry, oedd fel hithau, yn brysur ennill enw iddo ei hun fel cerddor. Gwelir ei enw yn y ddau hysbyseb a gynhwysid yn yr erthygl fel cyfeilydd yng Ngŵyl Eryri ac yn y perfformiad o'r opera 'Blodwen'.

Er mai 'D. D. Parry Bethesda' sydd yn yr hysbysebion, wedi dechrau ar y swydd o organydd yn un o gapeli y dre honno roedd o, ond ni fu yno yn hir iawn cyn symud i fod yn organydd Capel Seion (M.C.) Llanrwst, ac fel 'Dafydd Parry Llanrwst' yr adnabyddid ef gan y cyhoedd o hynny ymlaen. Fe'i ganwyd yn y flwyddyn 1862 ac felly yr oedd yn cyfeilio yng Ngŵyl Eryri yn 1879 yn ddwy ar bymtheg oed. Y cwestiwn yw sut y meithrinwyd ei dalent i gyrraedd y fath safon gerddorol mor ifanc, ond yn anffodus mae hyn yn ddirgelwch i mi. Yn sicr yr oedd o wedi ymwneud llawer a'r Dr Joseph Parry, ond chlywais i neb o'r teulu yn sôn am ei addysg gerddorol. Beth bynnag am hynny, yn anarferol yn y cyfnod, mentrodd allan i wneud bywoliaeth drwy gyfrwng ei ddawn gerddorol, drwy gyfeilio mewn eisteddfodau a chyngherddau, beirniadu, arwain cymanfaoedd, dysgu plant ac oedolion i chwarae y piano a'r organ, a chyfansoddi ar gyfer cystadlaethau — ond bychan fu ei gynnyrch mwya'r piti. Dim ond dwy unawd o'i eiddo ddaeth i boblogrwydd, sef 'Bugail Hafod y Cwm' a 'Corn y Glyn'. Efallai fod y rheswm am hyn i'w gael mewn sylw a wnaeth y diweddar J. R. Morris, y Llyfrwerthwr, i mi un tro: 'Pe bai o wedi canolbwyntio mwy ar gyfansoddi na mynd i eisteddfoda mi fuasai wedi datblygu yn un o gyfansoddeyr gorau ei gyfnod. Dipyn yn ddiog oedd o yn hyn o beth, ac mae'n debyg fod yn haws ennill bara ar lwyfannau y wlad'.

Mae hanesion amdano yn arwain rhywun i gredu fod ganddo ddawn gerddorol pur arbennig. Yr oedd yn cyfeilio i gôr lleol yng

Ngŵyl Eryri un tro pan aeth y côr allan o diwn o hanner tôn wrth ganu un darn. Dyma Dafydd yn newid y cyfeiliant hanner tôn heb i bron neb o'r gynulleidfa sylwi, ond, yn ei feirniadaeth gwnaeth y beirniad sylw fel hyn gan bwyntio at Dafydd wrth y piano: 'Young man, you may have deceived the

audience with your skill, but you didn't deceive this,' gan gyfeirio at ei glust!

Mae hanes arall amdano yn cymeryd drosodd arweiniad band pres lleol mewn eisteddfod ar ôl i'r arweinydd swyddogol gael ei daro'n wael, ac yn dwyn y band i fuddugoliaeth.

Cyn diwedd ei oes symudodd o Lanrwst i Landudno ac yno y bu farw yn 1929, ac fe'i claddwyd ym mynwent Eglwys Sant Tудо ar Ben-y-gogarth. Wyth oed oeddwn i pan fu farw, ac mae yn edifar gennyf hyd heddiw na chefais y fraint o'i adnabod.

Fel y sylwa awdur yr erthygl am Gayney Griffith, syndod di-bendraw oedd fod talentau mor gyfoethog wedi dod i fri yn eu cyfnod, er yr holl anfanteision oedd yn bodoli, ond fe roddodd y ddau — ac eraill tebyg iddynt — enw hen bentref bach Y Nant ar fap Cymru.

ROBERT HENRY PARRY, Caernarfon.

Yn yr Ardd . . .

Fy hoff raglen deledu i yn yr haf ydyw 'Palu Mlaen', ac y mae'r penawd Cymraeg yn fwy agos at rywun na 'Gardening Together'. Yr un ardd sydd dan sylw yn y ddwy raglen. Y mae clywed trin yr ardd mewn Cymraeg Sir Fôn mor naturiol yn gwneud eisiau i un fynd ati'n syth i wneud y goruchwylion a ddangosir. Er y byddwn yn cael tipyn o amrywiaeth efo tafodiaeth Ray Gravel mae'n dda gweld y cyn chwaraewr rygbi yn cymryd diddordeb ac yn awyddus i ddysgu.

Dotio y bydda i at weld y pridd mor hawdd ei drin yn yr ardd yn Sain Ffagan. Dim cerrig o gwbl fel sydd yn yr ardaloedd yma. Cawn bob amrywiaeth o dyfu llysiau o bob math, a'r tomato a gawn yn y tŷ gwyr ymhellach ymlaen. Dangosir i ni hefyd sut i dyfu planhigion tŷ ac y mae llawer o ferched heb ardd yn ymddiddori yn rhain. Anogaf bawb i edrych ar y rhaglen ac os nad oes gennych ond pwt o ardd rydych yn siwr o ddysgu rhywbeth am sut i'w thrin.

Mis Mehefin — mis y rhosynau traddodiadol. Mae tyfu rhosod fel y byddwn yn dweud, yn boblogaidd iawn, ond nid mor hawdd ag y tybiech. Mae cannoedd ar gannoedd o wahanol rai ac arbenigir arnynt yn y gerddi masnachol. Mae'n werth cael llwyni da. Am fod yr ardal yn wyntog rhai byr sydd orau — fel y floribundas sy'n llawn blodau, ond mae gen i un gweddol dal, sef y *Queen Elizabeth*, a gefais o doriad gan ffrind, ac y mae'n gwrthsefyll y gwyntoedd yn dda ac yn blodeuo am

fisoedd. Byddaf yn eu bwydo efo 'Growmore', ond cymeradwyir rhoi glaswellt (os heb ddefnyddio chwynladdwr ar y lawnt), ac fe geidw hyn y lleithder.

Y mae gen i forder o flodau parhaol, ond mae ychydig o le gwag rhyngddynt a pheth da ydyw llenwi i mewn efo hadau o flodau blynyddol, fel *mignonette*, *virginian stocks*, efo *night scented stocks* yn gymysg, i gael arogl hyfryd gyda'r nos.

Mae'n amser rhoi'r torion o'r *dahlia*s i lawr rŵan, wedi perygl y rhew ddiplannu; a llawer o'r planhigion bach hanner-caled fel yr aristocrat y *begonia*.

Wel, wir mae yna gymaint o bethau i'w gwneud a tydi'r rhai wyf fi wedi sôn amdanynt ond rhan fechan o'r gwaith.

Y mae'r chwyn yn tyfu yn well na dim arall a'r

*'Hen estron gwyllt o Ddant y Llew
A dirmyg lond ei wên.
Sut gwyddai'r hen droseddwr hyf
Fod mam yn mynd yn hen'*

Digwyddiadau'r Haf ym Mharc Glynllifon

Trefnwyd rhaglen uchelgeisiol ac amrywiol ar gyfer yr haf yng Nglynllifon ac mae'r tymor eisoes wedi agor.

Unwaith eto amser arbennig i'r plant fydd Gŵyl Banc y gwanwyn, gyda pherfformwyr a diddanwyr proffesiynol y Saith Rhyfeddod yn cynnal diwrnod unigryw o weithdai celf a gweithgareddau eraill, i ddechrau am 10 o'r gloch. Yn cydfynd â'r Saith Rhyfeddod, bydd dau sesiwn stori lafar, gyda Llion Williams ac Angharad Tomos, am 11 a.m. ac 1 p.m. Bydd y cwbl yn cyrraedd uchafbwynt gyda noson o gerddoriaeth werin a dawns yn yr Amffitheatr. Argymhellir bwcio buan ar gyfer y gweithdai gwneud pypedau, llysernau a bagbibau (£1 y sesiwn) ac ar gyfer y Sioe Fawr gyda'r nos (£3 neu £2 gyda gostyngiadau).

Yr Amffitheatr ryfeddol yn nyfnderoedd y Parc fydd y brif ganolfan ar gyfer perfformiadau a cherddoriaeth o bob math o roc i jas, drwy gerddoriaeth gwerin i gorau a cherddorfa.

Mae'r gwaith yn parhau i adfer y gweithdai, a bydd yn darparu lle i hyd at ddeuddeg o grefftwyr yn ogystal â chanolfan ymwelwyr sylweddol. Bydd yr injan stêm, a atgyweiriwyd yn ddiweddar, yn cael ei throi am y tro cyntaf ers y 30au, yn ystod Diwrnod Stêm arbennig ar Fehefin 15. Bydd hwn yn achlysur i'r teulu cyfan gyda hen geir a thractorau i'w gweld, bwyd ar gael ac amrywiaeth o stondinau. Bydd Fred Dibnah yn bresennol i dano'r boiler.

Mae'r prosiect cerflunwaith tirwedd yn mynd o nerth i nerth. Mae artist wedi cael ei ddewis gyda chynllun gwreiddiol a dychmygus, ar gyfer y trydydd safle, yn dathlu llenyddiaeth 'gwerin y graith'. Trwy gydol yr haf bydd arddangosfa o waith dylunio o safon uchel grŵp o artistiaid ifanc lleol i'w gweld, ac o fis Awst bydd cerflunwraig o Philadelphia yn artist preswyl am ddeufis yn y Parc.

Am wybodaeth bellach ffoniwch Morgan Parry ar Llanwnda 830222.

fel y canodd Crwys i'r 'Border Bach'.

Sut i gadw'r estroniaid yma o'r ardd? Y mae chwynladdwr i'w cael na wnant ddrwg i'r planhigion meddir. Ond fel y dywedodd hen arddwr profiadol wrth un a ofynai sut i gael gwared o'r chwyn o'r ardd: 'hofi'wch nhw bob dydd Mawrth'. Y peth pwysig yw cadw'r hof yn mynd yn gyson a lladd y chwyn cyn eu bod.

Wel, daliwch ati a pheidiwch a gadael i'r hen Ddant y Llew yna wneud mistar arnoch!

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

PRIF GYNRYCHIOLWYR



YNG

NGWYNEDD

Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD

GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

**DIOLCH I
BAWB O
FRYNREFAIL
am helpu i
blygu'r
rhifyn hwn**

DEINTYDDION

Eich Hawliau

- Oes raid i chi dalu am archwillad gan y deintydd?
- Ydy gofal deintyddol i blant yn parhau i fod yn rhad ac am ddim?
- Beth os ydych chi'n gaeth i'r tŷ — a ddaw'r deintydd atoch chi?
- Ble a sut y gallwch chi gwyno am driniaeth ddeintyddol wael?

Ceir yr atebion i'r cwestiynau hyn ynghyd â llawer mwy mewn taflen newydd, **Deintyddion: Llawlyfr hawliau cleifion** a gyhoeddwyd ddiwedd Mai 1991 gan Gyngor Defnyddwyr Cymru a Chymdeithas Cynghorau Iechyd Cymdeithas Cymru.

Mae'r daflen deg tudalen, Gymraeg ei hiaith, wedi ei hanelu at bobl sydd yn defnyddio gwasanaethau deintyddol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac mae'n egluro eu hawliau a'u cyfrifoldebau o dan drefn newydd y cytundeb gofal parhaol.

Meddai Rhiannon Evans, Cadeirydd Cyngor Defnyddwyr Cymru: 'Tybed faint sy'n gwybod bod modd derbyn barn deintydd arall am unrhyw driniaeth, y gellir disgwyl i ddeintydd drwsio neu ail-wneud triniaeth sydd yn mynd o'i le o fewn 12 mis yn rhad ac am ddim. Neu y gellir cael deintydd i ymweld â'r cartref o dan rai amgylchiadau arbennig. Mae gwybodaeth fel hon yn arf bwysig i unrhyw ddefnyddiwr.'

Y mae'r daflen, **Deintyddion: Llawlyfr hawliau cleifion** ar gael yn rhad ac am ddim oddi wrth Gyngor Defnyddwyr Cymru, Adeiladau'r Castell, Heol Womanby, Caerdydd CF1 2BN neu oddi wrth eich cyngor iechyd cymdeithas lleol.

**CEFNOGWCH EIN
HYSBYSEBWYR**

Danhaul

Y CYLCHGRAWN NATUR

Cystadleuaeth i Wella'r Amgylchfyd

Ar Fai 15, 1991, lansiwyd cystadleuaeth gan y cylchgrawn natur newydd, **DanHaul**.

Bwriad y gystadleuaeth yw i bawb — yn unigolion a chymdeithasau — edrych o'u cwmpas. Oes 'na unrhyw beth yn yr ardal sy'n ddolur i'r llygad? Rhywle ble mae pawb yn gadael eu sbwriel? Hen chwarel fechan, darn o dir blêr, melin yn mynd â'i phen iddi, neu nant yn brysur gael ei thagu? Sut fuasech chi'n mynd ati i'w gweddnewid?

TYBED A YDYCH WEDI MEDDWL AM
WNEUD RHYWBETH YMARFEROL I
WELLA'CH ARDAL?



Croesewir pwb i yrru eu syniadau i **DanHaul**; yna byddwn, gyda thim o arbenigwyr, yn asesu pob syniad. Pa un sy'n cyfrannu fwyaf i'r gymdeithas — yn nhermau gella'r amgylchedd, creu adnoddau hamdden ac yn gymorth i fywyd gwyllt yr ardal.

Dyddiad cau'r gystadleuaeth yw 9

Awst 1991 a bydd enillwyr wedi'u dewis erbyn 1 Medi pan fydd y rhifyn cyntaf o **DanHaul** yn ymddangos.

Y cam nesaf fydd i **DanHaul** weld faint o waith sydd ar y safle. Beth sydd ei angen, pwy sydd am wneud

EFALLAI FOD 'NA DDARN O DIR DIFFAITH
YNG NGHANOL Y PENTREF — NEU HEN
ADFAIL A ALLAI FOD O FUDD I'R
GYMUNED LEOL.



BETH AM ADEILADU CUDDFAN I WYLLIO'R
ADAR SY'N BWYDO GERLLAW?



beth. Ânt ati wedyn i gael cymorth a defnyddiau i'r project. Efallai y bydd angen benthyc jac-codi-baw i glirio, coed a phlanhigion i'w plannu, blychau nythu i ddenu adar, ac ati. Bydd **DanHaul** yn trefnu i gael y rhain i gyd.

Ac ar ben hyn, bydd **Hel Straeon** yn ffilmio'r diwrnod pan fydd cymaint â phosib o'r gwaith yn cael ei wneud — y clirio, y plannu, gosod y ffens, gwneud y llwybr, ac ati.

Ond nid y buddugwyr yn unig fydd yn ennill. Bydd pob ymgeisydd yn cael Pecyn Cadwraeth **DanHaul**, ble cânt wybodaeth am gymorth a grantiau i fynd ati'u hunain i wella'r amgylchedd.

Felly, ewch ati i chwilio am syniadau. Mae digon y gellir ei wneud ym mro'r **Eco**. Bydd Ffurflenni Cais ar gael yn eich cymdeithasau lleol, ysgolion, prif lyfrgelloedd, siopau llyfrau neu oddi wrth **DanHaul**, Pen-y-groes, Gwynedd LL54 6NG.

Lluniau i'r Eco

— CYHOEDDIAD PWYSIG —

Beth amser yn ôl bu'n rhaid i ni wneud apêl ynglŷn ag anfon lluniau i'w cyhoeddi yn yr **Eco**. Dyma un arall i'r un perwyl.

Da chi, wnaiff y rhai ohonoch sy'n cymeryd benthyc ein camera ofalu eich bod yn anfon atom **WYBODAETH YNGLŷN Â'R LLUNIAU** wrth ddychwelyd y camera. Mae gennym luniau sydd wedi eu dyblygu ar gyfer y rhifyn hwn, er enghraifft, heb eu cyhoeddi oherwydd nad oedd gan yr un ohonom syniad beth oedd yr achlysur — a hynny ar ôl gwario peth amser gwerthfawr yn gwneud bob math o waith ditectif.

ROYAL VICTORIA HOTEL

LLANBERIS 870149

- ★ Bwyd da ★ Cwrw da
- ★ Cwmni da



Beth am
ddysgu
dreifio gydag
YSGOL YRRU
BETHEL

Cysylltwch â Dic ac Eirlys
42 Bro Rhos, Bethel
PORTDINORWIG 671009

TACSI CARIAN

- * Pell ac agos
- * Stesion, Maes Awyr, Porthladd
- * 24 awr y dydd

OSMOND SHAW DEINIOLEN

GWERTHU
— TRWSIO
★ Teledu
★ Fideo
★ Offer Trydan
Gwasanaeth
Ffôn 24 awr
LLANBERIS 870545

W. H. JONES

TRYDANWR

Green Bank

Stryd Fawr

LLANBERIS

Ffôn: Llanberis

871470

Cottractau Weirio Tai

Cawodydd Trydan
ac ati

CAEATHRO


Mrs Beryl Roberts, Erw Wen.
Ffôn: C'fon. 3536

Capel y Pentref: Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod y mis nesaf — Mehefin 9: Dafydd Ll. Hughes; 16: John Pritchard; 23: Albert Jones; 30: John Roberts; Gorffennaf 7: Iorwerth Jones Owen. Croeso i bawb bob prynhawn Sul am 2.


Gwarchod Cymdogaeth: Cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus yn y Festri am 7.30, nos Fercher, Mehefin 19, er mwyn trafod posibilrwydd o sefydlu cynllun Gwarchod Cymdogaeth (Neighbourhood Watch) yn y pentref. Bydd aelod o'r heddlu yn bresennol.

ECO'R IFANC

1. Coch; 2. Glas Golau; 3. Oren;
4. Pinc; 5. Gwyrdd Golau;
6. Glas Tywyll; 7. Melyn.



EWCH O DDOT I DDOT



CORNEL JÔCS

Doctor! Doctor! — Mae Defi John ni yn bwyta fel ceffyl!
Yn bwyta fel ceffyl — Wel mae hynny'n iawn.
Nag ydy wir, mae o wedi pori dau gae yn lân yn barod!
Rydw i 'n gweld smotiau pinc o flaen fy llygaid trwy'r amser.
Wyt ti wedi gweld y meddyg?
Naddo, dim ond smotiau pinc!!
Dwi'n gallu neidio'n uwch na'r Wyddfa!
Y? Paid a deud celwydd!
O.K. Pa mor uchel welaist ti'r Wyddfa yn neidio erioed?
Hei, Sam! Glywaist ti fod Anti Jên wedi brifo wrth smwddio cyrtans?
Brifo wrth smwddio cyrtans? Sut felly?
Mi syrthiodd allan drwy'r ffenest!!!
Be' sy'n mynd o gangen i gangen ac yn gwisgo het bowler?
Rheolwr banc!!
Syr! Syr!
Ia, Idwal?
Be' 'di'r peth pwysicaf i gofio wrth astudio Cemeg? — Peidio byth a llyfu'r llwy!!!
Hei Mr Barbwrl! Faint 'da chi'n ei godi am dorri gwallt?
Punt union, Giaffar.
O, ia, faint am shêf felly?
Saith deg pump ceiniog, giaffar.
Wel, shiafia 'mhen i 'tal!
Doctor! Doctor! Mae 'na foron yn tyfu yn fy nghlustiau!
Ew, sut ddigwyddodd hynny?
Dydw i ddim yn gwybod wirl!
Hadau pys blanaï il!
Miss! Miss! Fyddech chi yn fy nghosbi i am rywbeth nad ydw i wedi ei wneud?
Ew, na faswn siwr!
O, da iawn. Dydw i ddim wedi gwneud fy ngwaith cartref!!
Cnoc! Cnoc!
Pwy sy'n 'na?
Huw
Huw pwy?
Huw! fawr i chi gyd!
Cnoc! Cnoc!
Pwy sy' 'na?
Ceri!
Ceri pwy?
Ceri weld pwy sydd wrth y drws!
Cnoc! Cnoc!
Pwy sy' 'na?
Besi.
Besi pwy?
Besi'n bod ar eich cloch chi, roedd yn rhaid i mi gnocio!!
Welsoch chi blisman o gwmpas fan hyn?
Naddo.
Wyddoch chi ble mae'r orsaf heddlu agosaf?
Na wn.
Reit ta. Dwylo i fyny!
Cnoc, Cnoc
Pwy sy' 'na?
Dewi
Dewi pwy?
Dewineb di sy'n hyll!!
Be' ti'n galw merch sy'n dal dillad?
Pegil!
Ha ha! Ha ha!
Be' ti'n galw gellygen dda dda?
PERFFAITH!!!
Be' ti'n galw oren sy'n boddi?
Sudd oren!!!

Enillydd cystadleuaeth mis Mai yw:

RHIAN MELERI JONES

3 Rhes Cynfi, Deiniolen. Mae Rhian yn 7 oed.
Llongyfarchiadau lu i ti! Mae dy wobr yn y post.

Cawsom bump cystadleydd arall a fu bron, bron, a chipio'r wobr hefyd. Da iawn chi'ch pump am luniau arbennig o dda:

ELFED MORGAN MORRIS, Llechwedd, Deiniolen (8 oed);

CLAIRE LLOYD WILLIAMS, 9 Rhes Victoria, Deiniolen (6 oed);

DAFYDD HARRY MORRIS, Tŷ Capel M.C., Dinorwig (7 oed);

MICHELLE LOUISE ROBERTS, 6 Tal y Bont, Llanrug (8 oed);

CLAUDET PLEMING, 4 Green Terrace, Deiniolen (7 oed).

Cystadleuaeth Mis Mehefin

Enw.....

Cyfeiriad

Oed.....

LLIWIWCH Y LLUN GAN DDEF NYDDIO'R LLIWIAU PRIODOL



1. Gwyrdd

2. Brown

3. Porffor

4. Melyn

5. Glas

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Clwb Cant Ysgol Dolbadarn — enillwyr 1/5/91. 1, £25: Mrs Carys Morris, 2 Rallt Goch, Ceunant, Llanberis (060); 2, £15: Mrs M. Starky, Stryd Fawr, Llanberis (110); 3, £10: Mr Arwel Jones, Pant Hywel, Penisarwaun (113).

Cwmni Drama Llanberis: Fel y gwyr y pentrefwyr mae aelodau'r Cwmni wedi bod yn brysur ers peth amser yn addasu hen Festri Gorffwysfa yn Theatr Fach. Mae'r gwaith bron iawn â'i gwblhau, a gobeithir cael agoriad swyddogol i'r adeilad yn fuan iawn.

Yn ogystal â bod yn Theatr bydd yr adeilad yn cael ei ddefnyddio fel neuadd i wahanol fudiadau o'r pentref a'r ardal, i'w gweithgareddau hwy, am bris rhesymol i ateb costau cynnal.

Mae'r Cwmni Drama wedi bod yn cynnal gweithgareddau codi arian tuag at y fenter. Cawsant hefyd rywfaint o gymorth ariannol gan grantiau a rhoddion gan wahanol fudiadau a charedigion yr ardal. Hoffai'r aelodau ddatgan eu diolch diffuant i'r caredigion hyn.

Gan fod prisiau nwyddau wedi codi yn arw yn y blynyddoedd diwethaf mae angen peth arian eto i glirio dyled y banc. Bwriad y Cwmni yw parhau i gynnal gweithgareddau i'r perwyl hwn, ond fe fyddant yn ddiolchgar iawn am gyfraniadau gan gymdeithasau a mudiadau lleol (neu unigolion) fel y gall pawb elwa o'r adnoddau a gynigir. Cysyllter, os y dymunir, â Mrs Ann Pritchard, Madryn (y trysorydd).

Credwn fod ein hymdrechion presennol yn sail i gynnal diwylliant dyfodol pentref Llanberis a'r cylch. **Sefyldiad y Merched:** Cynhaliwyd y cyfarfod misol ar nos lau, 25 Ebrill, gyda Mrs Hannah Jones yn llywyddu. Estynwyd croeso cynnes i Mrs Jean Elis ar ôl absenoldeb hir oherwydd gwaeldd.

Prif ddigwyddiad y noson oedd cystadleuaeth coginio i'r aelodau, ac yr ydym yn diolch yn fawr iawn i Mrs Gwyneth Roberts, Becws Eryri, am ei pharodrwydd i feirniadu — y mae hi bob amser yn barod ei gwasanaeth. Dyma'r canlyniadau:

Victoria Sandwich: 1, Betty Humphreys; Dilys Phillips; Eluned M. Jones; 2, Hannah Jones; Katie Griffiths; 3, Jean Elis; Glenys Jones. **Scons:** 1, Annie M. Evans; 2, Betty Humphreys; 3, Katie Griffiths; Eluned M. Jones. **Telsen Grl:** 1, Dilys Phillips; 2, Betty Jones; Betty Humphreys; 3,

Glenys Jones. **Bara Ceirch:** 1, Betty Humphreys. **Telsen Afal:** 1, Betty Humphreys; 2, Dwynwen Roberts. **Fudge:** 1, Eluned M. Jones; Annie M. Evans; 2, Glenys Jones. **Taffi Triagl:** 1, Hannah Jones; Annie M. Evans; 2, Glenys Jones; Eluned M. Jones.

Y gwestwragedd oedd Mrs Annie M. Evans, Mrs Arfon Evans a Mrs Eluned M. Jones. Enillwyd y raffl gan Mrs Betty Humphreys a rhoddwyd y diolchiadau gan Mrs Jan Davies.

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos lau, 30 Mai.

Llongyfarchiadau i Owain G. Griffiths am ennill pedair medal (un arian a thair efydd) ym Mabolgampau Myfyrwyr Cymru yng Nghaerdydd. **Diolch:** Dymuna Mark, 62 Maes Padarn, ddiolch yn fawr i'w holl deulu a'i ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei benblwydd yn ddeunaw oed.

Personol: Da yw clywed fod Mrs Eirlys Jones, Ger-y-Llyn, Maes Padarn wedi dychwelyd adref ar ôl treulio rhai misoedd yn yr ysbytai a dymunwn wellhâd buan iddi. Brysia wella Eirlys.



Mari Wyn — enillydd y tlws am ganu, adrodd a chân werin yn Eisteddfod Llanberis.

Diolch: Dymuna Mrs Eirlys Jones, Ger-y-Llyn, 49 Maes Padarn, ddiolch i'r meddygon a staff ward Beuno yn Ysbyty Gwynedd am eu caredigrwydd a'u gofal amdani tra yn yr ysbyty. Hefyd diolch i'r staff a'r meddygon yn Uned Macmillan, Caernarfon, am eu gofal a'u caredigrwydd. Diolch arbennig iawn i Sister Margaret Williams, sydd wedi bod mor ffyddlon a charedig ar hyd yr amser. Bu meddygon a staff Ysbyty Clatterbridge yn fawr eu gofal a diolch iddynt hwythau. I hogiau yr ambiwlans y mae'r diolch am eu ffyddlondeb ar hyd yr amser ac i feddygon a staff Clinig Llanberis am eu gofal caredig bob amser ac i Sister Beth Jones am ei hymweliadau.

Dymuna ddiolch hefyd i'w ffrindiau, cymdogion a'i theulu am y cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn tra bu yn y dair ysbyty. Diolch o galon hefyd i'r Rheithor Peter Pritchard am bob gair caredig a'i ymweliadau cyson. Diolch yn fawr i bawb.

Diolch: Dymuna Shirley, merch Olwen a Gwynedd Owen, 10 Maes Derlwyn ddiolch i bawb am eu caredigrwydd a'u dymuniadau da yn ystod y misoedd hir y bu ei mab, Michael Aaron, yn yr ysbyty. Diolch hefyd am yr holl anrhegion a dderbyniwyd i Michael.

Llongyfarchion i Sioned W. Roberts, Ty Eryri (Becws Eryri) ar ei llwyddiant diweddar ym maes nyrsio. Pasiodd arholiadau SRN ac SCN yn Ysbyty Alder Hey, Lerpwl.

Cymanfa Ysgolion Sul Dosbarth Padarn

Cynhaliwyd y Gymanfa pnawn a nos Sul, Mai 5ed, 1991, yng Nghapel y Cysegr. Arweinydd y gân yng Nghymanfa'r Plant yn y prynhawn oedd Mrs Glenys Griffiths, Cysegr, gyda Mrs Nora Parry a Mrs Rita Williams wrth yr organ. Cymerwyd rhan gan Carwyn, Gethin a Rhodri a chafwyd cyd-adrodd gan ddosbarth Mrs Nan Owen yn y gwasanaeth dechreuol. Yn yr hwyr Mr Maldwyn Parry, Pen-y-groes, oedd Arweinydd y gân Gwenan, Catrin, Llinos, Llinos Angharad, Menna a Nia yn y gwasanaeth dechreuol. Mr Geraint Elis a Mr Goronwy Jones, Cysegr, fu'n llywyddu'r ddau gyfarfod.

Dyma'r canlyniadau:

Arholiad Llafar. Dan 4 oed — 1: Gemma a Darren, Rhiwlas; Nia Glyn, Cysegr; Ynyr Gwyn Parri a Heledd Bryn Parri, Deiniolen; Elen Williams, Ruth Owen, Bethan Owen, Dylan Wyn Davies, Brynrefail; Rhiannon Jones, Elin Roberts, Ceri Jones, Gruffudd Siôn Pritchard, Lliffon Jones, Iwan Morris a Daniel Lloyd Roberts, Capel Coch; Ceri Bryn Morris, Dinorwig. **Dan 5 oed** — 1: Robin Meredydd Owen a Huw Dulyn Davies, Rhiwlas; Lois Wyn Hughes a Ffion Williams, Cysegr; Iwan Jones, Gethin Siôn Pritchard a Mathew Lloyd Roberts, Capel Coch. **Dan 6 oed** — 1: Meirion John Owen, Rhiwlas; Iwan Ellis Morris a Gwen Rowlands, Cysegr; Gethin Jones, Claire Lloyd Williams a Robin Glyn, Deiniolen; Rhian Elisabeth Ann Owen a Amy Lynne Lambert, Brynrefail; Sioned Williams, Bethan Roberts, Dafydd Siôn Pritchard, Owain a Rhys Peris Morris, Capel Coch; Nia Catrin, Cysegr. **Dan 7 oed** — 1: Arwyn Owen ac Aled Vaughan Roberts, Cysegr; Rhodri Glyn ac Urien Siôn, Deiniolen; 2: Dafydd Emrys, Cysegr; Iestyn Williams, Brynrefail. **Dan 8 oed** — 1: Mari Williams, Capel Coch; Jennifer Clare Jones ac Ifan Rowlands, Cysegr; 2: Huw Derfel Davies, Rhiwlas; 3: Siôn Jones, Rhiwlas a Gareth Jones, Capel Coch. **Dan 9 oed** — 1: Gethin Owen, Rhiwlas; Robin Gwyn Owen, Sioned Catrin Davies, Lara Davies a Gwynfor Jones, Cysegr; Gethin Williams ac Alaw Mari Hughes, Deiniolen. **Dan 10 oed** — 1: Meilyr Emrys, Delyth Morris, Anest Williams, Catrin Roberts, Kelly Williams, Bethan Fôn Jones, Gerallt Hughes a Dewi Griffiths, Cysegr. **Dan 11 oed** — 1: Rhys Lloyd Jones,

Dafydd Jones a Dylan Elis, Cysegr; Rhian Wyn Davies, Brynrefail. **Dan 12 oed** — 1: Rhodri Roberts a Carwyn John Morris, Cysegr; 2: Sara Pepper, Capel Coch; 3: Gethin Davies, Cysegr. **Dan 13 oed** — 1: Catrin Hughes, Llinos Morris a Gwenan Elis, Cysegr. **Dan 14 oed** — 1: Llinos Angharad Morris, Cysegr; 2: Nia Elin Davies, Cysegr. **Dan 15 oed** — 1: Menna Dauncey Williams, Cysegr. **Cyd-adrodd dan 9 oed** — 1: Parti Robin, Cysegr. **Cyd-adrodd dan 11 oed** — 1: Parti Catrin, Cysegr. **Dan 50 oed** — Miss Lowri Prys Roberts a Mrs Mair Davies, Brynrefail; Mrs Valmai Pritchard, Capel Coch; Mrs Nan Owen, Mrs Nora Parry, Mrs Rita Williams a Myfanwy Jones, Cysegr. **Dros 50 oed** — Mrs Elsie Davies, Deiniolen. **Cyd-adrodd dan 50 oed** — Parti Cysegr. **Arholiad Ysgrifenedig. Dan 9 oed** — 1: Rhodri Glyn a Ceri Olwen Hughes, Deiniolen. **Dan 11 oed** — 1: Gerallt Hughes; 2: Bethan Fôn Jones; 3: Anest Williams; 4: Meilyr Emrys; 5: Dewi Griffiths a Bethan Williams; 7: Delyth Morris, Catrin Roberts, Laura Millican, Kelly Williams, oll o Cysegr; a Richard Jones, Deiniolen.

Carai'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd i wneud y Gymanfa yn un llwyddiannus. Diolch arbennig i aelodau ac athrawon Ysgol Sul Y Cysegr am eu cyfraniad. I bawb a fu'n gyfrifol am y rhoddion ar gyfer y te ac i'r rheini fu'n darparu a gweini'r te — roedd yn flasus dros ben. Diolch arbennig i Mrs Edwina Morris am drefnu'r blodau a oedd yn rhodd gan Mrs E. Evans, Blaen Parc, a'r Ysgol Sul.



Aelodau Ysgolion Sul y fro yn mwynhau'r te a baratowyd ar eu cyfer yn Festri Capel Cysegr ddiwrnod y Gymanfa.

Penblwydd Hapus i DARREN OWEN, 15 Ddi Eilidir yn 8 oed ar Mehefin 5, oddi wrth Mam, Nain, Taid, Andrew,

Nerys, Peter, Llinos a Lliffon, Chris, Anne a'r plant — Penblwydd Hapus iawn — X X X X X X X X

**FIDEO
FIDEO
FIDEO**

**Gwasanaeth Fideo
Proffesiynol**

**JOHN BLIGHT
LLANBERIS
872209**

Priodasau a phob
achlysur arbennig arall
Hefyd Ffilmiau Hyfforddi
a Gwasanaeth newid
CINE I FIDEO

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

Wel — Tawn i'n marw gan Y Gwalch

Mae 'na ddynion dirifedi wedi dwad adra o ryfeloedd hefo'r straeon mwya anghredadwy am ddihangfeydd cyfyng gan amla — rhai yn amlwg yn wir — a'r lleill hefo ymestyniadau, ond i gyd yn haeddu gwrndawriad, tasa dim ond er mwyn parch i'r storiwr oedd ar wahan, wedi mynd drwy gymaint. Y rhyfedda glywais i oedd gan Huw Maelor.

Roedd Huw yn beilot yn yr Ail Ryfal, a doedd hynny fawr o syndod i neb. Dipyn o rafin oedd o'n cael ei gyfri, wedi piclo hefo moto beics a genod. Hogyn tal pryd gola oedd o, fasa rhwng dau ola yn pasio yn hawdd am Jeri, neu'r amgyffrad gyffredinol am un beth bynnag.

Yn ystod haf '44 pan oedd ein byddinoedd yn gwasgu ar Baris, roedd Huw yn hedag Typhoons o faes awyr ar Ynys Sheppey yng ngheg y Tafwys, ar gyrchoedd lefel isel i Ffrainc a'r Iseldiroedd, i falu trennau a phob math o drafnidiaeth a oedd yn dwad ag adgyfnerthion i'r Panzera yn Pas de Calais a'r Somme. Roedden nhw yn mynd tros y Môr Udd ddwywaith a thair bob dydd hefo rocedau, a doedd ddim rhaid i neb a welodd drên neu res o lorïau ar ôl ymweliad felly, amau dim am effeithiolrwydd yr adnoddau hynny.

Ganol bora ar ddiwrnod teg yr oedd y squadron i gyd yn yr awyr, hefo'u throttles led y pen yn scimio tonnau'r Môr Udd, ar eu ffordd i gyffiniau Chalons-sur-Marne, yn lle yn ôl y wybodaeth ddiweddaraf, roedd yna golofn o artillery yn symud. Roedd Geoff Maund, chwalad Huw, yn hedag No. 2 tu ôl i'w adain dde. Roedd y ddau yn un ar hugain oed, wedi ymuno â'r Typhoons hefo'u gilydd, a chan fod eu lwc wedi dal mor dda, roedden nhw yn cael eu cysidro yn hen ddynion ymysg y criw cyfnewidiol o'u cwmipas.

Roeddan nhw mewn lwc y bora hwnnw, gan iddynt ddal y golofn artillery ar ddarn o ffordd agored allan yn y wlad, ac ar ôl torri yn line astern, dyma nhw'n plymio arni fel hebogiaid. Ar ôl un run doedd yna fawr angan un arall, ond fedrai Huw ddim ymuno ynddi p'run bynnag. Roedd peiriant y Typhoon wedi ei tharo â shell ac yr oedd hi'n barod ar dân.

Doedd 'na ddim gobaith neidio allan; roedd o'n rhy isel, ac erbyn hyn uwchben coedwig, ond tu draw roedd dól lydan. Agorodd Huw hwd y cocpit, a gosododd y Typhoon i lawr orau y gallai. Sglefiodd honno ar ei bol am bellter gan aredig y ddôl. Tarawodd Huw ei wyneb yn y panel, ond medrodd neidio allan ar ei union. Roedd ei ffêr yn brifo'n uffernol, ond yn ei gynnal. Rheddodd oddi wrth yr awyren cyn iddi ffrwydro, a syrthiodd ar ei wyneb ar y cae. Roedd ei wyneb yn gwaedu.

Sylwedolodd wedyn fod Geoff Maund wedi datgysylltu ac yn troelli uwch ei ben fel Jac Dô yn gwyllo un clwyfedig. Cododd Huw ar ei draed gan wneud arwydd.

Siglodd Geoff ei adenydd a diflanodd tros y coed. Gyda hynny chwirliodd haid o Messerschmits 109 heibio ar ei union drywydd. Gobeithiodd Huw fod ei gyfaill wedi clirio o'u llwybr neu fasa ganddo fo ddim siawns Robin Goch.

Ond yr oedd ganddo ddigon ar ei blât ei hun. Yn boenus ei gam llusgodd at gwr y coed i guddio. O'r fan honno gwelai'r dyffryn bas, a'r Typhoon a oedd yn dal i fygu ymhen draw'r ddôl. Archwiliodd gyflwr ei Smith and Wesson .38 a gariai bob amser yng nghlwm wrth ei glun.

Ardal o goedlannau oedd hi yn gymysg â dolydd gleision. Sylwodd Huw ar ffermdy bach gyda beudai i lawr ar y chwith. Penderfynodd fynd tuag yno ar ôl iddi nosi, ond yr oedd y dydd yn hir. Pan ddaeth y gwyll dechreuodd ar ei daith flinedig. Ac yr oedd y Smith and Wesson yn ei law.

Roedd hi'n noson welw, a phan ddaeth Huw at y beudai, gwelodd adeilad ar ffurf 'sgubor a phen y rhagddor yn agored. Pan aeth i mewn teimlodd wair sych wedi ei daenu ar y llawr. Taflood ei hun arno a chysgodd ar ei union.

Goleu dydd â'i deffrodd yn dangos merch yn sefyll yn ffrâm y drws a'i llygaid brown yn llydan. 'Notre Dame' meddai gan ymgroesi. Yna diflanodd ar ei hunion. Ond daeth yn ei hôl mewn munud a hen wr i'w chanlyn. Wrth ddrabio dwy iaith, deallodd Huw eu bod yn gwybod am y Typhoon, ac yn naturiol yn ei gysylltu â hi. Doedden nhw ddim yn anghyfeillgar, ond yr oedd hi'n amlwg nad oeddent ei eisïau ar eu dwylo mwy na chur yn eu talcenni. Roedd y gosb am lochesu ffoaduriaid yn wybyddus i bawb.

Beth bynnag penderfynwyd iddo lochesu yng nghroglloft y sgubor dros dro. Erbyn hyn roedd y fam wedi ymddangos, ac yn ei llaw roedd ganddi bowlaid o gawl. Ar ôl llowcio hwnnw a golchi ei wyneb, dringodd Huw i'r groglloft, ac nid cyn pryd. Clywyd sŵn moto beic yn dwad i lawr at y buarth. Aeth y teulu allan i'w gyfarfod gan gau y drws. Clywodd Huw y peiriant yn distewi, ac yna sŵn lleisiau yn codi a gostwng. Yna distawodd rheiny hefyd.

Gyda hynny daeth y ferch yn ei hôl i'r sgubor. Dringodd at Huw a phenliniodd yn ei ymyl. Roedd

ganddi newydd drwg. Roedd 'na Jeri yn y tŷ; swyddog o Chalons, yn stilio'r hen bobol am y Typhoon a'i pheilot colledig.

Roedd Huw wedi arfer gwneud penderfyniadau sydyn; roedd dawn o'r fath yn angenrheidiol yn ei swydd o. Daeth i lawr o'r groglloft a speciodd allan i'r buardd. Ar wal yr ardd gwelodd BMW mawr yn pwyso. 'I arbed helynt,' meddai wrth y ferch, 'rwyf am roi fy hun i fyny. Gofyn iddo ddwad yma.'

'Qui-bon,' meddai hitha ac yr oedd gollyngdod yn ei llais.

Pan ddaeth y Jeri i mewn i'r sgubor roedd Huw yn sefyll wrth y mur a'r .38 yn ei law. Gyrrodd ergyd yn glir drwy ben y Jeri, nes y syrthiodd hwnnw fel dol glwt. Roedd y teulu yn sefyll yn y drws yn edrych arno a'r merched yn ymgroesi a mwmial paderau. 'Mais-pourquoi?' meddai'r hen fachgen o'r diwadd.

Ddarfu Huw ddim ei adael yn dyfalu yn hir. Amneidiodd arnynt â'i wn i ddiosg dillad y Jeri, ac ar yr un pryd yr oedd yn tynnu ei lifrai ei hun. Doedden nhw ddim awydd gwrthwynebu. Roeddan nhw yn deall erbyn hynny eu bod yn delio â lladdwr.

Roedd lifrau'r Jeri yn ffitio Huw yn ddifai. Ond roedd y jacbwts yn rhoi dipyn o loes iddo. Dywedodd wrth y triawd am gladdu ei ddillad hefo'r Jeri, a cheisiodd eu calonogi drwy ddweud y basa byddinoedd y Gorllewin yno rhag blaen.

Taniodd y moto beic ar y gic gyntaf, a ffwrdd â fo am y lôn fawr. Roedd wedi deisyfu marchogaeth BMW erioed. 'Chydig â feddyliodd mai o dan amgylchiadau fel hyn y basa fo'n cael y cyfla. Ond doedd ei gynlluniau ddim wedi cynnwys y ffaith y basa'r ffyrdd yn dagfa o drafnidiaeth rhyfel y Jeri yn mynd i fyny i'r lein. Ymhen dim aeth ar ei ben i golofn o danciau a lorïau yn llawn milwyr. Doedd dim amdani ond blyff noeth. Gyrrodd i mewn ac allan rhwng y cerbydau ag agwedd awdurdodol fel pe tasa fo'n perthyn i'r symudiad, ac nid amheudd neb ei bresenoldeb. Pan ganfyddodd ei hun ar y blaen, agorodd y BMW a gadawodd hwy yn sefyll.

Doedd o ddim hyd hynny wedi meddwl sut y basa hi arno yn croesi i linellau cyfeillgar yn lifrau'r Jeri heb gael bwled drwy ei ben ei hun gan fod ganddo broblem daerach ar y pryd: roedd ei betrol yn prinhaus. Heb hwnnw fasa'r moto beic yn ddim mwy o werth na bwndal o hen haearn, a pheth amheuthun fasa i neb weld swyddog Almaenig yn heicio ar draws gwlad mewn jacbwts.

**COFIWCH GYFARFOD
CYFFREDINOL
YR ECO
Sefydliad Coffa, Llanrug
Nos Iau, Mehefin 6ed
am 7.00**

Pan ganfu goedlan ar fin y ffordd a llwybr yn arwain iddi, trodd i'w dilyn er mwyn cael hoe fechan. Rhoddodd y beic i bwysio ar goeden yn wynebu'r lôn fawr, a cherddodd i mewn i'r coed ac eistedd. Roedd hi'n dawel iawn yno, a doedd hynny ddim yn arwyddocau yn dda. Dylai bellach fod yn ddigon agos i'r frwydr i glywed y gynnu. Dychmygai y basa'r hogia allan y diwrnod hwnnw yn malu rhywbath neu'i gilydd, a gobeithiodd fod Geoff yn eu mysg.

Yna clywodd siffrwd yn y dyrys-lwyni gerllaw. Heblaw y .38, roedd Luger y Jeri ganddo hefyd erbyn hyn, ac yr oedd ganddo un ymhob llaw. Speciodd drwy'r dail a gwelodd ddyn mewn côt las yn mynd o lwyn i lwyn yn ei gwman fel pe bai yn cael ei ymlid. Yna, cododd y dyn i'w union sefyll, a gwelodd Huw diwnic glas yr Awyrlu a'r adennydd gwynion uwchben y boced chwith, ac arlliw o rhuban medal: Flight Lieutenant Geoffrey Saunders Maund, DFC.

Gwnaeth Huw y camgymeriad cyntaf ers ei saethu i lawr. Cododd ar ei draed a gweiddi gan chwifio'r gynnu uwch ei ben. Ffodd Geoffrey Saunders Maund am ei fywyd, yn fyddar i ymbiliau a bygythion. A doedd Huw ddim mewn cyflwr i'w ymlid. Yn ei rwystredigaeth gwnaeth bethau yn waeth. Taniodd y gynnu i'r awyr.

Ar hynny sylwodd fod Geoffrey Maund wedi newid ei gyfeiriad, a ddarfu ei fwriad o ddim taro ymhen Huw nes y gwelodd yr hogyn yn cyrraedd y moto beic, taflu ei goes trosto a'i danio ag un gic. Yna rhuodd i lawr y llwybr am y lôn fel tasa yna haid o ellyllon wrth ei gwt.

Fedrai Huw wneud dim ond taflu'r gynnu gweigion at rhyw goeden. Yna eisteddodd i lawr, a dwedodd wrtho fo'i hun, 'Mae'n rhaid fod yr Messerschmits 109s 'na wedi ei gael o ddoe. Eitha gwaith a'r cythral hefyd.'

RHODDION

£5 Mrs Eirlys Jones, Ger y Llyn, Maes Padarn, Llanberis. Teulu Hafod y Rhos, Llanrug.

£3 R. Jones, Brynsiencyn, Ynys Môn. Mr a Mrs E. Goldsworthy, 34 Hafod Oleu, Deiniolen. Mrs Shirley Hughes, 8 Bryntirion, Bethesda.

£2 Teulu 62 Maes Padarn, Llanberis. Nigel a Lynda, Carlinig, Tŷ Du Rd., Llanberis. Iorwerth a Peri, 5 Hafod Oleu, Deiniolen. Ceri Wyn Williams, 12 Deiniol Rd. Deiniolen. Mrs Griffith, Llys Helen, Waunfawr. Heulwen Huws, Argoed, Waunfawr. Tony a Mary Elliot, 3 Bryn Eglwys, Penisarwaun. Menna, 4 Tan y Cae, Bethel.

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

Llongyfarchiadau i Mrs H. M. Roberts, 1 Bryn Gro, ar achlysur ei phenblwydd yn 80 oed. Hefyd i Mrs E. M. Jones, Seiont House, yn 80 oed ar 27 Mehefin.

Gwellhâd buan: Dumunwn wellhâd llwyr a buan i Mr Hubert Roberts, Bod Gwynedd, ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Clwb Pobl y Cwm: Egwyl o Bingo a gafwyd ar 2 Mai, gyda Mrs Enid Price yn galw. Gofalwyd am y baned a'r raffl gan Mrs Mair Parry a Mrs Mair Williams, ac enillydd y raffl oedd Mr Llew Hughes.

Ar 21 Mai bu tri o'n haelodau yn ein diddori a chafwyd sgwrs ddifyr iawn gan Mr Llew Hughes am hanes te, y modd a'r sylw arbennig a arferid ei roi i'r ddeilen, a'r cymysgu, gan ein hatgoffa o'r siopau a arferai werthu y gwahanol fathau yng Nghaernarfon a'r cylch. Roedd gan Mr Hughes rai lluniau o'r siopau hynny a'u hysbysebion.

Darllenodd Mr R. H. Parry dair o gerddi o'i waith ei hun, rhain yn dlws a hyfryd iawn, a chafwyd peth o hanes ac o waith y Bardd Cocos gan Mrs K. Watkins.

Hyfryd oedd cael cwmni Mr a Mrs Hugh Pritchard yn ôl yn y Clwb, a deall fod Mrs Pritchard lawer yn well. Mae Mr Russell Rowlands yn dal heb fod yn dda, mae'r aelodau yn cofio atoch Russell. Drwg oedd deall am farwolaeth Mrs Ellen Williams, ein cyn-aelod.

Y gwestwagedd oedd Mrs M. Rowlands a Miss M. Davies ac enillwyd y raffl gan Mr Llew Hughes.

Bydd y trip blynyddol yn mynd i Aberystwyth ar 30 Mai.

Undeb y Mamau: Cynhaliwyd y cyfarfod olaf o'r tymor yng nghartref Mrs Joyce Ransom, Stâd Bryn Moelyn, Llanrug, ar 2 Mai. Cafwyd gwasanaeth byr i ddechrau'r cyfarfod a thrafodwyd rhai materion gan Mrs Enid Taylor. Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth Mrs G. Roberts a Mrs M. Latham. Dangoswyd fideo Undeb y Mamau 'Y Briodas'. Yr oedd bwrdd prynu a gwerthu wedi ei baratoi a rhoddwyd yr elw ar y faner newydd sydd yn cael ei gwneud. Yn gofalu am y lluniaeth yr oedd Mrs J. Side, Mrs K. Jones a Mrs M. Latham a diolchwyd iddynt gan Mrs Dorothy Jones. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Ransom ac fe'i henillwyd gan Mrs M. Barlow. **Newyddion o Ysgol Gymuned Cwm-**

y-Glo: Cyfarchion ddarllenwyr yr Eco. Sut mae'r hwyl erbyn hyn? Methu gwybod lle mae'r haf, fel finnau, mae'n siwr?

Fore Gwener, 26 Ebrill, daeth **Peter Cubbley o Birmingham** i'r ysgol. Dyn diarth oedd o i mi ond roedd o yn gwybod yn iawn am yr ysgol a'r ardal. Daeth yma fel *evacuee* amser rhyfel gan aros yn y Railway Hotel. Yr oedd yn cofio am yr ardal yn iawn ac yn cofio cael gwobr am waith da yn yr ysgol gan athrawes dosbarth y babanod. Pan welodd ei enw yn y Cofrestr, deth lwmp i'w wddw. Holi y mae o os oes rhywun o'r ardal yn ei gofio? Os oes, efallai y byddwch cystal a gadael i mi wybod gan fod cyfeiriad cartref y gŵr bonheddig yma yn yr ysgol ac mae'n bwriadu dod yn ôl yma eto. Cyd-ddigwyddiad mawr y stori hon yw mai hanner can mlynedd uniokn i'r penwythnos y daeth yn ôl yma! Wyddoch chi beth, daeth rhyw lwmp i ngwddw innau wrth wrando arno yn sôn am y croeso a gafodd yma.

Ar ddydd Sul, 9 Mai, bu Eluned, Iola, Paul, Glyn, Kevin, Rhys, Huw a Keith yn rhan o dîm Cwm-y-Glo mewn cystadleuaeth rhyng-bentrefol yn y Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon. Cafodd pawb ddiwrnod cofiadwy iawn a chwpan i gofio'r achlysur. Diolch i Mr Dafydd Price am ei waith yn trefnu a goruchwylio.

Am y saith wythnos nesa, bydd plant dosbarth 3 a 4 yn mwynhau prynhawn o gemau yn Ysgol Brynrefail bob dydd Mawrth. Efo hyfforddwy profiadol, bydd pawb yn siwr o elwa o'r profiad.

Elwa o'r profiad o gydweithio â phlant o Ysgol Tan y Coed, Penisarwaun ddaru pawb hefyd yn Niwrnod Agored yr Heddlu yn Nghanolfan Chwaraeon Arfon. Cafodd bechgyn y pêl-droed hwyl eitha a'r pêl-rwyd angen ychydig mwy o ymarfer! Ond Mr Robert Humphreys, pennaeth Tan y Coed, gafodd yr hwyl orau. Chwarae yn gôl i dîm o athrawon wnaeth o ac er gwaethaf y ffaith fod holl Heddlu Gogledd Cymru yn ei fygwth, fe'u cadwodd draw. Mae yna sôn fod Terry Venables ei angen yn Spurs ar ôl i'r 'pen bach' Gazza 'na frifo ei hun. Cai well synnwyr gan Robert na gan hwnnw!!

Ar yr un diwrnod bu dosbarth 1 a 2 am dro yn Nôl Bach, cartref Sara

Roberts, yn gweld ei anifeiliaid anwes. Diolch i Mr a Mrs Roberts am y croeso ac am brynhawn difyr dros ben.

Y bore wedyn, cynhaliwyd gwasanaeth arbennig gan blant dosbarth 3 a 4. Yr oeddynt wedi cyfuno eu neges a'u gwneud yn addas ar gyfer Cymorth Cristnogol a Dydd Ewyllys Da. Diolch i chi am gymryd eich rhan mor dda a didwyll.

Neithiwr, bu wyth o aelodau'r Urdd yn y Mabolgampau yng Nghaernarfon. (Mi rydan ni yno mor aml y dyddiau yma, bron na allwn chwilio am lety yno!!) Beth bynnag, daeth pedwar allan o'r wyth adref efo tystysgrif. Eluned yn gyntaf am daflu pêl; Iola yn ail am neidio'n uchel a bydd y ddwy yn mynd i Fabolgampau'r Sir ym Mangor — na nid Caernarfon!; Paul yn drydydd am daflu pêl a Karen yn drydydd am neidio'n uchel. Da iawn bawb a diolch arbennig i Mrs Alwen Jones a Mrs a Mrs Gareth Jones am helpu efo'r ceir.

Drwy'r wythnos yma, mae Nia Hughes efo ni o Ysgol Brynrefail ar wythnos o brofiad gwaith. Gobeithio iddi fwynhau dod yn ôl i'w hen ysgol a diolch iddi am ddysgu tipyn o Ffrangeg i mi erbyn gwyliau'r haf.

Fe gewch wybod mwy am ein trip i'r Piggery Pottery y tro nesaf ac erbyn hynny, hefyd, bydd y Gala Nofio wedi bod.

Am y tro, fe dawelwn wrth ddiolch fod Mrs Rita Williams wedi gwella a gobeithio fod Gwil Williams, Bryn, wedi cael penblwydd hapus iawn yn ***** oed!! Er na chafodd o weld y Cup Final yn fyw (mae honno'n stori hir!!) fe gurodd Spurs i godi ei galon.

Mae gen i yn fy meddiant rhywbeth gwerfawr iawn — llyfr am dîm pêl-droed Llanber wedi ei arwyddo gan yr awdur. Os ca i gynnig ddigon da amdano ella y gwerthwn i o a rhoi yr arian i gronfa'r ysgol. Cyntaf i'r felin gaiff falu ydy hi, cofiwch. Mae Mr Maldwyn Hughes wedi cynnig yn uchel yn barod.

Hwyl fawr ac yn iach a dibechod y boch.

Gweithgareddau Haf Adran Gymuned Cwm-y-Glo: Cynhelir pwyllgor i drefnu Sêl Cist Car yn yr Ysgol Gymuned ar nos Iau, Mehefin 6ed 1991 am 7 o'r gloch. gwahoddir pawb â diddordeb i'r cyfarfod. **Taer erfynir am bresenoldeb teg.**

Gwelhad buan: i Mrs Lil Roberts, Bron Rallt, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd, Bangor.

i Sylfia Williams, Bwlch, ar ôl ei hanffawd.

Llongyfarchiadau: i Sian Rhiannon Jones, Cefn Bwlch, ar ei phenodiad i Swydd Pennaeth Adran i ddysgu dawn mewn Coleg 6ed Dosbarth ym Manceinion.

TAN Y COED

Annwen Parry, Ael y Bryn. Ffôn: 872276

Colled: Ar 1 Mai, yn frawychus o sydyn yn ei chartref, Tainewyddion, bu farw Mrs Catherine Roberts (Katie), priod annwyl Mr Harry Jeffrey Roberts, a mam hoff Janice, Jeffrey a Margaret; a nain ofalus ei hwyresau a'i wŷr. Cydymdeimlwn yn fawr a'i phriod a'i phlant a'u plant hwythau, ei thad a'i mam a'i chwiorydd yn Aberffraw, a'r teulku oll yn eu galar.

Mawr fu ei gofal amdanynt oll, ac am bawb ymhell ac agos oedd angen ei help fel y gŵyr yn dda y rhai oedd yn mynychu Meddygfa Waunfawr a Llanrug.

Bu'r angladd ddydd Llun, 6 Mai — gwasanaeth preifat yn Nhainewyddion a chyhoeddus yng Nghapel Tan-y-Coed. Yr oedd y capel orlawn yn tystio i werthfawrogiad eang o gydymdeimlad a diolch ei chydabod. Roedd y gwasaneth yng ngofal y Gweinidog, y Parch John

Morris. Cymerwyd rhan hefyd gan y Parch W. R. Williams, Y Felinheli, ac O. G. Williams, Aberffraw. Darllenwyd teyrnged haeddianol i Katie gan y Parch W. O. Roberts, ei chyn-weinidog a oedd yn absennol oherwydd gwaeledd, gan y Parch John Morris.

Heblaw am y golled i'r ardal ac ymhellach y mae colli Katie yn golled fawr i Gapel ac Ysgol Sul Tan-y-Coed gan y mynychai yr oedfaon pob cyfle a gâi.

Diolch am ei hadnabod a phrofi o'i hapusrwydd a'i charedigrwydd. Nerth y nef fo dros ei hanwyliaid yn eu hiraeth a'u galar.

Llongyfarchiadau: Yn y Gymanfa yn Theatr Seilo, pnawn Sul, 5 Mai derbyniodd Natalie Blanchard, Robin Thomas, Bethan, Iwan a Siôn Pritchard a Rheon Parry wobrau am ddysgu'r arholiad llafar. **Llongyfarchiadau iddynt.**

SIOP
Nwyddau Gardd
Cynnyrch Cartref
Crefftwaith



CANOLFAN GARDDIO
Blodau, Grug
Alpau, Perthi

ANTUR WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr 721

Cynnal a Chadw Gerddi
Cynnal a Chadw
Plannu Coed

Meinciau Concridd a Phren
Planters Concridd a Phren
Corachod

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



BYSIAU ARFON LLANRUG

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 5175 77858



Pencampwriaeth Karate yn y Waunfawr

Daeth cystadleuwyr o bob rhan o ogledd Cymru i'r Waunfawr ar ddydd Sul, 12 Mai, i gystadlu yn ail bencampwriaethau blynyddol Cymdeithas Karate Kokoro. Roedd clybiau o Dalybont (Conwy), Blaenau Ffestiniog, Porthmadog, Pwllheli, Llandudno a Llanrug yn cystadlu, a rhoddwyd y diwrnod gan Ysgol Yrru 'Ace of Arfon', Caernarfon. Gwnaeth Clwb Llanrug yn arbennig o dda, gan ennill tair gwobr gyntaf, a dod yn ail mewn pedair cystadleuaeth.


Roedd cystadlu brwd yn yr adrannau iau, a daeth Sandra Roberts o fewn trwch blewyn i gipio pencampwriaeth Kata. Roedd pethau mor agos rhyngddi hi a Karl Foreman o'r Blaenau fel y bu'n rhaid i'r dyfarnwyr ail-gychwyn y ffeinal er mwyn cael canlyniad. Daeth Sara yn ail hefyd yn yr adran Kumite, a enillwyd gan Gethin Jones, aelod arall o dîm Llanrug. Gethin enillodd y darian Kumite am berfformiadau arbennig o dda gydol y gystadleuaeth.

Yn yr adran hŷn, enillodd Meriel Wood o Lanrug yr adran Kata, ac yna'r adran Kumite yn erbyn Jackie Roberts (eto o Lanrug), gan gyflawni'r gamp ddwbwl.

Yn yr adran hŷn i ddynion daeth Clifford Williams o Lanrug yn ail ar ôl gornest dda iawn yn erbyn Markus Bischoff o Borthmadog. Enillodd Steven Lovell o Glwb Llanrug wobwr arbennig am ei ewyllys a'i ddyfalbarhad yn parhau i ymladd yn y rownd gyn-derfynol er gwaethaf cracio'i asennau.



Meriel Wood, Llanrug — Pencampwraig Kata a Kumite.



Clifford Williams, Llanrug — Ail Adran Kumite.



Jackie Roberts, Llanrug — Ail Adran Kumite.



Gethin Jones — Pencampwr Iau Kumite.



Anna Roberts, Llanrug — Ail ym mhencampwriaeth Iau Kumite a Kata.

Kumite hŷn (dynion): 1, Markus A. Bischoff, Porthmadog; 2, Clifford R. Williams, Llanrug. **Gwobr arbennig:** Steven Lovell, Llanrug.

diddordeb yn y grefft i gysylltu â Gareth Edwards o Glwb Llanrug (Caernarfon 77219) neu â Sensei John Lynn yn y Pencadlys yn y Rhyl (0745 343875).

Dyma restr yr enillwyr:

Kata, iau: 1, Karl Foreman, Blaenau Ffestiniog; 2, Sara S. Roberts, Llanrug. **Kumite iau:** 1, Gethin Jones, Llanrug; 2, Sara S. Roberts, Llanrug. **Kata hŷn (merched):** 1, Meriel Wood, Llanrug; 2, Patricia Hughes, Cyffordd Llandudno. **Kumite hŷn (merched):** 1, Meriel Wood, Llanrug; 2, Jackie Roberts, Llanrug.

Yn ddiweddarach cafwyd arddangosfa o grefft Karate Kokoro gan Gareth Edwards a Sensei Kevin Siddall o Glwb Llanrug. Roedd yn cynnwys amddiffyniad rhag ymosodiad â chylllell, a chwalu blociau adeiladu gyda dwylo a thraed noeth.

Cymdeithas Karate Kokoro yw'r fwyaf yng Nghymru, ac y mae croeso i unrhyw un sydd â



Steven Lovell, Llanrug — Gwobr Arbennig.



I DDYSGU
DREIFIO EFO

STAN


(Ysgol Yrru Rhiwen)

Ffoniwch

Bangor

364143

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



DEWIS EANG O
WELAU SENGL A DWBL
DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'
LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'
GWAITH CONTRACT
5000 LLATHEN SGWAR O GARPEDI
MEWN STOC — ALLWCH CHI
FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:
WAUNFAWR 291

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: Caernarfon 2790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn ordor i'ch cartref
yn ardal Llanrug.

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

Cronfa Canolfan Waunfawr: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Ebrill — 1, £40: David Owen, 1 Croes-y-waun; 2, £25: Mrs M. Owen, Bryn Gwylan; 3, £10: Mrs Nan Roberts, Pant Afon.

Llongyfarchiadau:

— i Mr a Mrs T. Griffith, Ty'n Ronnen, ar ddod yn daid a nain eto. Ganwyd mab, Gareth, i'w merch Helen a'i gŵr Len, yn Llundain — brawd bach i Ceri ac Angharad;

— i Mr a Mrs T. Jones, Cartrefle, ar ddod yn daid a nain. Ganwyd merch fach, Eluned Mair, i Dylan a'i wraig Elaine;

— daeth Tom a Iona Williams, Llwydiarth, yn daid a nain eto pan anwyd merch fach, Bethan Mair, i Dafydd a Carys, chwaer fach i Sioned Alaw;

— i Kit Jones, 20 Stad Tŷ Hen ar fod yn nain. Ganwyd merch, Helen Mai, i'w mherch Marian a'i gŵr Gareth, chwaer fach i Nia Elin.

Dathlu Penblwydd: Llongyfarchiadau i Awen Mair, 1 Bryn Golau, ar gyrraedd ei deunaw oed. Pob dymuniad da i ti Awen.

Llwyddiant Cerddorol: Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu llwyddiant: Llio Mair, Llwyn Onn, ar lwyddo gyda theilyngdod yn yr arholiad ffliwt, gradd 3; Bethan Cadwaladr, 3 Glyn Afon ar lwyddo gydag anrhydedd yn yr arholiad theori cerdd, gradd 1; Zoe Gordon, Garnedd Wen, ar lwyddo yng ngradd 5 theori cerddoriaeth.

Dymuniadau da: Rydym yng nghanol tymor yr arholiadau unwaith eto a dymunwn y gorau i holl blant a phobl ifanc y pentref sy'n sefyll gwahanol arholiadau.

Daeth Eisteddfod yr Urdd heibio eto — pob dymuniad da i'r rhai sy'n cystadlu ynddi — tua diwedd yr wythnos y bydd aelodau'r Waun yn cystadlu. Pob hwyl i chi i gyd.

Damwain: Gobeithio fod Alison Jones, Bryn Menai ac Annie Addison, Storfa Tŷ Newydd, yn gwella. Cyfarfu'r ddwy a damwain a brifo yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i blant y ddwy Ysgol Sul a gafodd eu gwobrwyo yn y Gymanfa am ddysgu adnodau ac emynau.

Gwaeledd: Anfonwn ein cofion cynhesaf at Fflyr, Stad Tref Eilian a Mrs Lyons, Ael-y-bryn, sydd yn yr ysbyty ym Mangor; at Mrs Annie

Taylor, Baladeulyn, Dôl Erddi; a Mrs Nel Williams, Ael-y-bryn, sydd yn Ysbyty Eryri. Croesawn Sharon Lewis a Mrs M. Owen, y ddwy o Stad Tref Eilian, adref ar ôl cyfnod yn yr ysbyty ym Mangor. Gobeithio y byddwch yn teimlo'n well gyda hyn. Anfonwn yr un dymuniadau at Mrs Annie Williams, Dôl Erddi, sydd oherwydd gwaeledd wedi mynd i aros dros dro i gartref nyrsio Penisarwaun. Hefyd anfon ein cofion at amryw o'r pentrefwyr sy'n glaf yn eu cartrefi.

Cydymdeimlo: Yn ystod y misoedd diwethaf cafwyd llawer profedigaeth yn ardal y Waun ac nid eithriad mo'r wythnosau olaf. Trist yw gorfod cofnodi marwolaeth tri o'r pentref a oedd yn annwyl iawn i'w teuluoedd ac i'r gymdogaeth. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at:

— Mrs Gwyneth Griffith, Llys Helen a Heulwen yn eu profedigaeth o golli priod a llys-dad tyner, Mr Harry Griffith;

— at Valerie a Haydn, Rhandir Mwyn, yn eu profedigaeth o golli eu mam, Mrs Mwynwen Jones;

— at Mary a Nancy Griffith, Tan 'Rallt hwythau hefyd wedi colli eu mham, Mrs Grace Griffith, ac â Mrs Lil Evans, Tegfan yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer;

— i'r rhai sy'n mynychu'r Feddygfa collwyd ffrind annwyl iawn drwy farwolaeth Mrs Katie Roberts, ac anfonwn ein cydymdeimlad at ei theulu yn eu profedigaeth drist.

Diolchiadau:

Dymuna Mrs Gwyneth Griffiths a'r teulu, Llys Helen, ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad â ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli gŵr, llys-dad a thaid annwyl. Diolch hefyd am bob cyfraniad tuag at ymchwil y galon er cof am Harry.

Dymuna Heulwen Huws, Argoed, ddiolch o galon i bawb a fu mor garedig wrthi tra bu yn yr ysbyty, ac yn arbennig wedi iddi ddod adref. Diolch hefyd am bob help a gafodd gan ei ffrindiau a chymdogion i edrych ar ôl y plant yn ystod ei phrofedigaeth sydyn. Diolch o galon i bawb.

Dymuna Haydn a Glenys, Rhandir Mwyn, ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch i feddygon y pentref am eu gofal ar hyd y

blynyddoedd, a diolch arbennig iawn i ffrindiau ffyddlon Mwynwen am eu caredigrwydd tuag ati. Derbyniwyd arian yn ddiolchgar tuag at Gapel Bethel M.C.

Carai Eurig Wyn ddiolch i bawb a gefnogodd y noson i godi arian ar gyfer y Cwrdiaid. Gwnaed elw o yn agos i £350 ac mae'r arian wedi ei gyflwyno i'r elusen sydd yn ei drosglwyddo yn syth i'r ymgyrch i helpu'r ffoaduriaid.

Dymuna Nancy, Mary a'r teulu, Tan 'Rallt ddiolch am bob cydymdeimlad a charedigrwydd a amlygwyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch am y rhoddion ariannol a gyflwynwyd i'r Feddygfa er cof am eu mham.

Y Gymdeithas Lenyddol: Bydd trip blynyddol y Gymdeithas nos Fawrth, Mehefin 11, pryd yr ymwelir a gwlad Llŷn yng nghwmni Dyfed Evans, Pencaenewydd. Bydd y bws yn gadael Waunfawr am 4.15 a dylai pawb sydd yn bwriadu dod ar y trip roi eu henwau ar fyrdar i Stanley Williams, Cefn Coed. Mae'n eithaf posib y bydd lle ar y bws i rai nad ydynt yn aelodau o'r Gymdeithas ond sy'n dymuno dod ar y wibdaith. Y gost am y bws a'r swper yn Nefyn yw £3.50 — bargaen os bu un erioed! Dowch a'ch ffrind efo chi.

Yr Urdd: Daeth tymor yr Urdd i ben unwaith eto a diolch i bawb a gyfrannodd i wneud y tymor yn llwyddiannus. Ymadawodd rhai o aelodau'r pwyllgor sydd wedi cyfrannu yn hael o'u hamser a'u hamynedd. Diolch iddynt am eu gwaith diwyd dros y blynyddoedd. Croeso i aelodau newydd ar y pwyllgor a hwyl iddynt yn eu gwaith. yr ysgrifennydd newydd yw Mrs Carys Owen, Glyn Awel.

Nos Wener, 10 Mai, trefnwyd noson arbennig yn y Ganolfan gan rieni y plant fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Tâf Elai, i godi arian tuag-at gostau teithio'r criw. Dymuna'r

pwyllgor ddiolch i bawb a gefnogodd y noson.

Hwyl fawr i Elin Gwilym a chriw yr ensemble yn eu cystadleuaeth lawr yn y 'Steddfod.

Llongyfarchiadau i Llio Mair Rhisiart (canmoliaeth arbennig, Tecstilau Bl. 1 a 2); Lowri Glyn (canmoliaeth arbennig Argraffu 8-10 oed); ac i Osian Elfryn (gwaith 3D 8-10 oed) ar eu llwyddiant yn adran Gwaith Llaw yr Eisteddfod. Hefyd gwobrwyo Lowri Glyn (3ydd 8-10 oed) a chafodd fedal am ei chywaith ar 'y corff'. Bydd gwaith y tri yn cael ei arddangos yn y babel Celf a Chrefft.

Yn dilyn mabolgampau'r adran a gynhaliwyd ar 1 Mai, aeth 21 o'r aelodau ymlaen i gynrychioli'r pentref ym mabolgampau'r cylch a gynhaliwyd ar 20 Mai ar gaeau Ysgol Syr Huw Owen. Daeth Ffion Williams yn drydydd ar y naid uchel o dan 10 oed ac Osian Elfryn yn gydradd drydydd ar y naid hir o dan 10 oed.

Daeth Kevin Davies yn gyntaf yn y gystadleuaeth taflu pêl o dan 12 oed a daeth Meirion Williams yn gyntaf yn y naid uchel o dan 12 oed. Fe fydd y ddau yn mynd ymlaen i gynrychioli'r cylch yn mabolgampau'r sir ar 8 Gorffennaf. Diolch i bawb am gystadlu ac i'r rhieni am gludo'r plant.

Adref o'r Ysbyty: Croeso i Mrs Bilton, Bryn Golau, adref o Ysbyty Lerpwl.



Pobl go gefnog tua'r Waunfawr 'na. Dreifio Mercedes Benz crand o gwmpas y lle. Ond pobl go anghofus hefyd ddwedwn i. Pa reswm arall oedd dros gerdded — ia cerdded! — o Ferodo am Gaernarfon yn cario rhywbeth tebyg iawn i can petrol!



Lowri Glyn, Osian Elfryn a Llio Mair Rhisiart.


GERAINT OWEN

Gosodwr carpedi a phob math o lorïau

Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR

Ffôn:
Waunfawr 552

FFENESTRI UPVC DRYSAU MEWN GWYN NEU MAHOGANI



Esiaml o bris a gosod

Crefftwyr profiadol yn eu gosod
Ffoniwch am bris i

**J R PRITCHARD, 14 Glanrafon,
Bontnewydd**

Ffôn: Caernarfon 3507 (dydd neu gyda'r nos)
Croesawn ymholiadau gan fasnachwyr

CHIROPODIST Gwasanaeth yn eich Cartref

E. Ll. Parry

M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.
57 Glanffynnon
LLANRUG

Ffôn:
**Caernarfon
5754**

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Croeso: Croesewir Mrs Gwyneth Jones, 18 Bryntirion gynt, yn gynnes iawn i 6 Llys y Gwynt. Gobeithio y byddwch yn setlo'n fuan.

Eisteddfod Pentref: Cynhelir Eisteddfod Bentref Penisarwaun, nos Wener, 28 Mehefin, yn **Neuadd yr Eglwys** am 5.30 p.m.

Bydd ymarferion i'r plant yn cychwyn nos Lun, 3 Mehefin am 6 p.m., yn Neuadd yr Eglwys. Mae rhaglenni ar gael gan yr ysgrifenyddes, Mrs Judith Harding, Winllan.

Hoffai'r pwyllgor ddiolch i bawb a gefnogodd y Ffair Wanwyn, nos lau, 16 Mai. Roedd y noson yn un llwyddiannus iawn.

Ysgol Feithrin: Cynhelir P'nawn Agored yn yr Ysgol Feithrin, Mercher, 19 Mehefin am 2 p.m. Bydd cyfle i glywed y plant yn adrodd y deg hwiangerdd y maent wedi'u dysgu gogyfer â Gŵyl Genedlaethol y Mudiad, 'Cymru a Lesotho'. Y wraig wadd fydd Mrs Pat Larsen. Bydd paned ar gael. Dewch yn llw i gefnogi.

Mae'r blodau haul yn tyfu a'r plant yn eu gwyllo yn ofalus bob dydd, ond ofnir y bydd un Mathew am fynd i Awstralia i chwilio am yr haul yn hytrach nag yma ym Mhenisarwaun!

Mae coesau ôl y penbyliad wedi dechrau tyfu — gobeithio na fyddant yn tyfu gormod yn ystod gwyliau'r hanner tymor gan ddychryn Anti Gwenda.

Rydym hefyd wedi plannu berw ar ffurf Siani Flewog. Gobeithir cael parti, cracer, cawr a berw.

Gair o Ddiolch: Dymuna Ffiona Jones a Mark ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion ar achlysur eu dyweddian yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau: Pob bendith a hapusrwydd i Janet a Roderick, 7 Bryn Tiron ar achlysur eu priodas.

Llongyfarchiadau i Nia (Tawelfa, Waun gynt) ar ei llwyddiant mewn arholiad 'Sheriff's Officer'. Llwyddodd gydag anrhydedd.

Gwellhâd: Anfonwn ein cofion anwylaf at Mrs Percy Williams, Huw Williams a Ron Hughes sydd wedi bod yn wael. Dymunir adferiad iechyd buan i bawb arall yn y pentref.

Profedigaeth: Ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs Mary Elliott a'r teulu wedi marwolaeth ei mham ym Mhrestatyn.

Wedi gwaledd byr, bu farw Mrs Jennie May Jones, Llys y Gwynt. Estynnir ein cydymdeimlad dyfnaf â

Mr Evan Jones a'r teulu oll.

Trip yr Ysgol Sul: Bydd trip yr Ysgol Sul yn mynd i **Rhyl**, ddydd Sadwrn, 6 Gorffennaf. Pris: Oedolion £3. Aelodau'r Ysgol Sul am ddim. Plant nad ydynt yn aelodau £1.50. Bydd y bws yn cychwyn o **King** am 9.30. Enwau rhag blaen i **Mrs Ann Paterson a Mrs Elizabeth Jones**.

18 oed: Pob bendith i Delwyn Jones, Bryntirion, ar gyrraedd ei 18 oed. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

Pwyllgor Neuadd: Nos Wener, 29 Ebrill, cynhaliwyd Noson Gymdeithasol yn Neuadd yr Eglwys i dynnu'r Raffi Wanwyn. Yr enillwyd oedd: 1, Elinor Jones, Gwyrfa, Penisarwaun; 2, J. Clark, Y Ddôl, Bethel; 3, Madge, Ysbyty Gwynedd. Diolchir i bawb fu'n gwerthu a phrynu tocynnau, gwnaed elw sylweddol o bron i £400.

Enillwyd Clwb Cant Ebrill oedd: 1, Wyn Griffith, Tai Arthur, Waun; 2, E. Williams, Glyn Euron; 3, W. Thomas, 4 Bryn Tiron.

Cafwyd amrywiol eitemau gan aelodau'r Urdd a diolchir iddynt am eu cyfraniad ac i'r rhai fu'n eu hyfforddi.

Carnifal: Gobeithir cynnal Carnifal eleni, bydd rhagor o fanylion yn y rhifyn nesaf.

Arholiadau: Yr un yw'r dymuniadau da y mis hwn hefyd i chwi sy'n sefyll yr amrywiol arholiadau. Pob lwc a llwyddiant!

Clwb yr Heulwen: P'nawn Mawrth, 21 Mai, cyfarfu'r aelodau am y tro olaf. Gan fod yr aelodaeth wedi lleihau'n sylweddol oherwydd gwaledd, anodd oedd cario ymlaen. Anfonwyd cofion annwyl at ffrindiau sy'n sal a chydymdeimlwyd â'r rhai gafodd brofedigaeth. Balch oedd pawb o glywed fod Mrs Nellie Roberts wedi dychwelyd i Lys y Gwynt a bod Mrs Percy Williams hithau yn bwriadu dod yn ôl i 3 Llys y Gwynt.

Mwynhawyd paned wedi'i pharatoi gan Mrs Nel Williams a Mrs Mary Davies. Enillwyd y raffi gan Mrs Eluned Porter.

Eglwys St. Helen: Edrychwn ymlaen yn awr at ein Dydd Gweddi a Rhodd a fydd yn cael ei gynnal eleni ar Mehefin 23. Am 10.30 y bore gweinyddir y Cymun Bendigaid gan y Parch. Tegid Roberts a phregethir gan y Parchedig Ganghellor Gareth Lloyd Jones, Porthaethwy. Bydd yr ail

gyfarfod yn y prynhawn fel arfer. **Diolch:** Dymuna Mary, Tony, Llŷr, Rhys a Deian, 3 Bryn Eglwys, ddiolch o waelod calon i'w cymdogion a'u cyfeillion am bob arwydd o

gydymdeimlad tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl. Diolch yn fawr hefyd am y rhoddion hael tuag at Gronfa Ymchwil y Cancr.

YSGOL TAN Y COED

Cynhaliwyd nifer o weithgareddau yn yr Ysgol yn ddiweddar. Yn gyntaf cymerodd plant Safon 3 a 4 ran mewn gwersi Diogelwch y Ffyrdd, ac fe lwyddodd pob un yn eu prawf. Llongyfarchiadau i bawb a diolch i Mr Dafydd Edwards am eu hyfforddi.

Derbyniwyd cynnig yn ddiweddar i'r plant hynaf fynychu cyfres o wyth o wersi ymarfer corff fel rhan o'r Cynllun Cyswllt Cynradd ac Uwchradd. Y syniad yw fod y plant yn treulio wyth prynhawn ym Mrynrefail yn cael eu hyfforddi mewn gwahanol sgiliau ymarfer corff. Mae'r gweithgareddau yn boblogaidd iawn, ac yn gyfle i'r plant ddod i adnabod yr ysgol y byddant yn ei mynychu ar ôl yr haf.

Trefnodd Heddlu Gogledd Cymru ddiwrnod agored yn y Ganolfan Hamdden yr wythnos ddiwethaf. Cyfle oedd hyn i'r plant hynaf ddod i adnabod yr heddlu yn well, ac i ddod i adnabod plant eriall hefyd, trwy gystadlu mewn hwyl mewn gemau nofio, pêl-rwyd. Ymunodd

Tan-y-Coed â phlant Cwm-y-Glo ac fe gafodd pawb ddiwrnod pleserus iawn a'r ysgol dystysgrif i ddathlu'r achlysur. I gloi'r dydd trefnwyd gêm bêl-droed rhwng yr Heddlu â'r athrawon. A dweud y gwir gwneud eu gorau glas i dwyllo roedd yr heddlu, ond yr athrawon a enillodd y gêm. Hwyl dda iawn gydar plant, yr athrawon a'r heddlu wedi mwynhau eu hunain yn fawr iawn. Diolch i'r rhieni a'n cludodd mewn ceir ar y diwrnod.

Cymerodd yr ysgol ran yn y Gala Nofio i Ysgolion Cynradd yn ddiweddar. Yn cystadlu ar ran yr ysgol yr oedd Sara Gawshaw, Iwan Parry, Elgan Williams, Ynyr Roberts a Daniel Fletcher. Da iawn chi am wneud ei gorau. Yr un diwrnod aeth dosbarth Mrs Thomas i ymweld â'r Sŵ Fôr ym Mrynsiencyn fel rhan o'u cywaith diweddaraf am y môr. Gan fod y plant eisoes yn gofalu am bysgod yn y dosbarth bu edrych ymlaen mawr am yr ymweliad yma.



Ynyr, Sophie, Elgan, Vanessa, Iwan, Sarah a Steven yn cynrychioli'r ysgol yn y Gala Nofio.

HELYNT Y 'SIWPYR GLIW'

Peth digon anoeth yw busnesu a dynion wrth eu gwaith Dyna hanes gŵr o Benisarwaun, pan aeth i'r Waen ar daith A tynnu coes yn uchel ei faldordd Hogia Manweb oedd yn agor twll yn y ffordd.

Yn naturiol pan mae'n bwrw glaw, mae'r twll yn dal dŵr Coeliwch neu beidio, syrthio iddo wnaeth y gŵr Bedyddiwr ydlo dw'ch, syrthiodd iddo ddwy waith Fedar o ddim gwadu, mae'n wir perffaith.

Os digwydd un anffawd, mwy na thebyg y bydd dwy Felly yn yr achos yma, a mi oedd hon yn un fwy Gwyddoch am y tacla diweddera ma i gael cerddoriaeth yn y car Neu wrth gerdded, ffram tros y pen a dau beth clywed treiddgar.

Yn anffodus trwy ddamwain, torrwyd y peth clywed gan yr hogyn Wel os drwg cynt, roedd yn waeth wedyn Roedd yr hogyn yn selog, isio'i drwsio efo siwpyr gliw Na medd y tad, rhaid cael dyn profiadol i drin offer clyw.

A'r tad yn orchesol aeth i'r afael a'r orchwyl holl bwysig I atgyweirio'r peiriant penwisg, dosbarthwr y mlwsig Yn llawn hyder ymaflodd ynddo a bys a bawb ei law chwith Ac a'r llaw dde arllwys arno y siwpyr gliw fel tith.

Efo gliw rhaid aros ychydig iddo gydio A bysodd y gŵr yn cydlynu, hawdd oedd coelio. Pa fodd yw gwahanu a hwythau'n sownd fel gelen? Hif fu'r bustachu a chyllell a Hac-So, ond i ddim diben.

Trist gorfod dweud i'r ymdrech brofi'n fethiant Ac i'r gor-hyder droi yn siomiant A gorfod fu cludo'r bysodd cydlog yn y diwedd I'w gwahanu yn Adran Ddawelinau Ysbyty Gwynedd.

A Brenda druan, heb ofyn yn cael mwy o waith A hitha, rhen dlawd, ynghanol digon ym Mhlas Pengwaith. Ni fu'r gŵr fawr gwaeth ar ôl y profiad chwerw Roedd efo'i fêts nos Sadwrn, yn cael llymaid yng ngwesty'r Tarw.

H.J.

MABOLGAMPAU'R URDD

Cynhaliwyd noson o Fabolgampau ar nos Fercher, 1 Mai. Dyma ganlyniadau'r noson:

Rhedeg dan 10 oed (50m) Bechgyn: 1, Christopher Turner; 2, Dian Dafydd; 3, Elgan Price Williams. **Merched:** 1, Vanesa Lloyd; 2, Wenna Williams; 3, Eira Eifion. **Rhedeg dan 12 oed (80m) Bechgyn:** 1, Siôn Wyn Jones; 2, Aled Jones; 3, Eryl Jones. **Merched:** 1, Angela Webb; 2, Gwenllian Turner; 3, Sarah Gawshaw. **Naid Uchel dan 10 oed Bechgyn:** 1, Sam Horlick; 2, Elgan Price Williams; 3, Dian Dafydd. **Naid Uchel dan 12 oed Bechgyn:** 1, Stephen Thomas a Siôn Jones; 2, Aled Jones ac Iwan Parry; 3, Eryl Jones a Dafydd Jones. **Merched:** 1, Angela Webb; 2, Gwenllian Turner; 3, Sarah Gawshaw. **Naid Hir dan 10 oed Bechgyn:** 1, Dion Dafydd; 2, Sam Horlick; 3, Elgan Price Williams. **Merched:** 1, Vanesa Lloyd; 2, Wenna Williams; 3, Erin Eifion. **Naid Hir dan 12 oed Bechgyn:** 1, Siôn Jones; 2, Aled Jones; 3, Iwan Parry. **Merched:** 1,

Gwenllian Turner; 2, Tracy Webb; 3, Sarah Gawshaw. **Tafli Pêl dan 10 oed Bechgyn:** 1, Elgan Price Williams; 2, Dion Dafydd; 3, Christopher Turner. **Merched:** 1, Wenna Williams; 2, Vanessa Lloyd; 3, Erin Eifion. **Tafli Pêl dan 12 oed Bechgyn:** 1, Iwan Parry; 2, Aled Jones a Siôn Jones. **Merched:** 1, Angela Webb; 2, Gwenllian Turner; 3, Sarah Crawshaw. **Tafli Pêl dan 15 oed Bechgyn:** 1, Rhys Elliott; 2, William Lewis; 3, Mark Rees. **Merched:** 1, Sioned Wyn Jones; 2, Faye Rees; 3, Lois Dafydd. **Naid Uchel dan 15 oed Bechgyn:** 1, William Lewis; 2, Mark Rees; 3, Rhys Elliott. **Merched:** 1, Sioned Jones a Lois Dafydd; 2, Faye Rees; 3, Nia Lewis. **Rhedeg dan 15 oed (100m) Bechgyn:** 1, Rhys Elliott; 2, Mark Rees; 3, William Parry. **Merched:** 1, Faye Rees; 2, Nia Lewis; 3, Sioned Jones a Lois Dafydd.

Diolch i Mr Dafydd Morris am gael defnyddio y cae ac i bawb a ddaeth i'n helpu ar y noson.



Dewch i gael bwyd ym **Mwyty'r Pysgotwyr, GWESTY CASTELL CIDWM** ar lan Llyn Cwellyn. **Coginio Prydeinig**, yn gynnil o wahanol. **Gwinnoedd diddorol. Tân Coed. Clustogau Cyfforddus. Golygfeydd Hardd.** Lle rhagorol i ymlacio.

Betws Garmon, Ffôn: Waunfawr 243

LLANRUG

Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhyddallt. Ffôn: C'fon. 76733

Llongyfarchiadau i Eluned Mai Roberts, Hafod y Rhos, Llanrug, a Mark McQuire Jones o Walchmai, Sir Fôn, ar achlysur eu priodas ar 11 Mai ym Mrynrefail. Dymuna Eluned a Mark ddiolch am yr holl anrhegion ar llw cardiau a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas. Llongyfarchwn Eluned hefyd ar ddatlu ei phenblwydd yn 21 oed ar 12 Mai, sef diwrnod ar ôl ei phriodas ac fe hoffai ddiolch am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd.

Cydymdeimlo: Cydymdeimlir â Mrs Gwenda Roberts, Talybont, ar farwolaeth ei thad yn Llanberis.

Ein cydymdeimlad â Mr John Rowlands, Llys Forgan a hefyd Mrs Maggie Williams, Bethel, ar golli eu hannwyl chwaer, Mrs Annie Evans, Porthaethwy, yn sydyn yn ystod mis Ebrill.

Bedydd: Prynhawn Sul, yng Nghapel Pontrhythallt, gyda'r Parch John Morris, B.D. yn gweinyddu, bedyddiwyd Lois Angharad, plentyn Amranwen a Graham, Gwyddfor.

Cyfarfod y Chwioriudd: Cynhaliwyd cyfarfod yn Ffestri Pontrhythallt ar 16 Mai. Llywyddwyd gan Mrs Williams, Bod Fair, a gwnaed coffhâd am y ddiweddar Mrs M. Lloyd Williams, Llys Awen a oedd yn aelod ffyddlon o'r gymdeithas. Cafwyd sgwrs ddiddorol gan Mrs Williams am ei hymwelid a Chanada a diolchwyd iddi gan Mrs Thomas, Dolwar. Rhoddwyd y te gan Mrs Griffith, Fron Hyfryd a Mrs Smith, Llechwedd. Bydd y cyfarfod nesaf 20 Mehefin am 2 o'r gloch.

Ysgol Gynradd Llanrug:

Bu Safon 4 yn cymryd rhan mewn gweithgareddau wedi eu trefnu gan yr Heddlu yn ddiweddar. Ymgasglodd dros 300 o blant yng Nghanolfan Hamdden Arfon, lle buont yn cystadlu mewn nifer o chwaraeon. Mae'r dosbarth hefyd yn mwynhau cwrs o amrywiol chwaraeon gyda phlant ysgolion y fro ym Mrynrefail pob prynhawn Mawrth.

Yr Urdd: Bydd Eisteddfod yr Urdd Tâf Elai yn ei hanterth pan ddaw'r Eco allan y mis yma. Byddwn yn gwybod erbyn hynny tynged y parti Dawnsio Gwerin dan 12 oed. Llongyfarchiadau iddynt am gyrraedd yr ŵyl ac am eu hymroddiad i'r ymarferion. Diolch i Gymdeithas Ffrindiau'r Ysgol am gyfrannu tuag at y costau i fynd i Dâf

Elai. Mae gwobr gyntaf am ysgrifennu cerdd eisoes wedi cyrraedd Michelle Roberts, Safon 2. Llongyfarchiadau — tystysgrif arall i'r casgliad Michelle. Llongyfarchiadau hefyd i bawb a fu'n cystadlu ym Mabolgampau'r Urdd. Bydd nifer yn cystadlu ym mabolgampau'r sir ym Mangor yn lled fuan.

Ymweliadau: Fel rhan o'u gwaith ar chwedl 'Branwen' bu Safon 1 ar daith i Ben y Gaer, Penisarwaun. Maent hefyd yn cael hwyl fawr ar lythrennu Celtaidd wedi treuluo prynhawn yn dysgu am y grefft yng nghwmni Mr Frank Green.

Mwynhaodd y Dosbarth Derbyn ddiwrnod yn y Pili Palas. Roedd nifer o atyniadau yno o lygod mawr mewn cawell i Pili Palas anferth yn glanio ar ambell i ben ac ysgwydd.

Croesawodd Babanod Uchaf PC Philip Griffiths yn ddiweddar. Soniodd am bwysigrwydd rheolau'r ffordd fawr ac am ei waith. Gofynnodd y plant nifer o gwestiynau doeth a diddorol iddo. Mae'n diogelwch ni yn y dyfodol yn eithaf sicr wedi'r ymweliad, gan bod ambell i un yn bwriadu bod yn PC a WPC rhyw ddydd!

Ffarwelio: Ar ôl wyth mlynedd yn casglu arian cinio ac yn gofalu am y plant yn ystod awr ginio rydym yn ffarwelio â Mrs Charlotte Evans. Bydd colled fawr ar ôl Anti Charlotte i sgipio a chwarae pêl ar y buarth. Dymuniadau gorau i chi yn eich swydd newydd.



Michelle Roberts — llwyddiant yn yr Urdd.

Buddugol yn y Gala Nofio



Tim Llanrug oedd yn fuddugol yn Gala Nofio i Ysgolion Lleol a gynhaliwyd yng Nghanolfan Hamdden Arfon yn ddiweddar. Tim ysgol Bethel ddaeth yn ail.

Cymdeithas Ffrindiau'r Ysgol: Ar noson fendigedig o braf aeth llw o geir o fuarth yr ysgol ar Helfa Drysor. Cyrhaeddodd oddeutu 100 i fwyta pryd ym Mhlas Tan Dinas, pob un wedi llwyddo heb agor yr amlen!

Mrs Mair Parry (Safon 3) a'i theulu ddaeth yn fuddugol gyda theulu Hastings yn ail, Mrs Charlotte Evans a'i chwmni yn drydydd, a Mr Philip Griffiths a'i deulu yn bedwerydd. Cafodd Mrs Wendy Jones a'i theulu wobwr arbennig am gael y lleiaf un o farciau. Gobeithio bod y map wedi bod o gymorth iddi gyrraedd adref yn ddiogell!

Diolch i Iwan a Gwenda Roberts am drefnu yr helfa ac i aelodau'r pwyllgor am yr holl baratoadau.

Merched y Wawr Llanrug TAITH DDIRGEL

Nos Fawrth, 11 Mehefin
Bws yn cychwyn o'r Sgwâr
am 6.30 p.m.

Pris: oddeutu £5.50

Enwau i Heulwen Evans
Ffôn: 872497
erbyn 4 Mehefin,
os gwelwch yn dda.

Plaid Cymru: Cafwyd Helfa Drysor dda iawn, wedi ei threfnu gan Mrs Marian McGuinness a Mrs Ceinlys Roberts, nos Fercher, 15 Mai. Hoffai'r pwyllgor ddiolch yn gynnes iddynt am eu gwaith ac am y paratoadau am y bwyd yn yr Half Way, Felinheli. Llongyfarchiadau i'r enillwyr Ann a Dafydd Ifans a Phyllis Ellis a Gwyn Jones. Bydd y cyfarfod nesaf nos Fercher, 19 Mehefin, yn y Sefydliad Coffa am 7.30 o'r gloch pan fyddwn yn llunio cynigion ar gyfer

Cynhadledd Arfon a gynhelir ym mis Gorffennaf. Gobeithiwn weld nifer ohonoch yno.

Cymorth Cristnogol: Cyngor Eglwys Llanrug sy'n cynnwys Tanycoed a'r Ceunant fu'n gyfrifol am drefnu Casgliad Cymorth Cristnogol. Trwy haelioni trigolion yr ardal ac ymdrech y casglwyr cafwyd cyfanswm o £637.34. Dymuna'r pwyllgor fynegi eu diolchgarwch i bawb.

Noson Goffi: Cynhelir Noson Goffi yn Ystafell y Band am 7 o'r gloch, nos Iau, 6 Mehefin. Stondinau cacennau, poteli ac amryw o rai eraill. Croeso i bawb.

Tombola: Cynhelir noson Tombola nesaf y Band am 7 o'r gloch, nos Lun, 24 Mehefin, yn Ystafell y Band.

Hospis yn y Catref: Nos Fawrth, 21 Mai, cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn yr Ysgol Gynradd a'r wraig wadd oedd Mrs Jennie Howard, Is-gadeirydd Hospis yn y Catref Gwynedd. Yn ystod y cyfarfod penderfynnwyd sefydlu cangen Hospis yn y Cartref pentref Llanrug. Penodwyd Mrs Meirwen Thomas yn gadeirydd; Mrs Iona Williams, ysgrifenyddes; Mrs Beryl Robers, trysorydd a Mrs Angela Williams yn is-drysorydd. Bydd cychwyn i'r gronfa drwy gynnal Noson Goffi, y dyddiad a'r amser i'w gyhoeddi eto.

Pwyllgor Merched Arfon PLAID CYMRU

STONDIN CACENNAU

ar y Maes, Caernarfon
Bore Sadwrn, 22 Mehefin
am 10 o'r gloch

Derbynnir cyfraniadau yn ddiolchgar.

**Wavell
Roberts**
CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

+

J.M.
JONES
A'I FEIBION

GWAITH
CERRIG
BEDDAU

Y SGWÂR,
LLANRUG

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol,
Cerrig o bob
math ar gael.

Ffôn:

Caernarfon 2898
(dydd)
Caernarfon 76285
(nos)

BRYN
(B & K Williams)

Hen Ysgol
Glanmoelyn

LLANRUG

Ffôn 77482 (dydd)
870793 (nos)

Gwneuthurwyr Ffenestri,
Drysau, Grisau neu
unrhyw fath o gynnyrch
coed. Y coed meddal wedi
derbyn triniaeth arbennig i
wneud iddynt bara.

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

Diolch: Diolch o galon i bawb ddaeth draw i'r Neuadd i blygu rhifyn Mai o'r Eco.

Llwyddiant Cerddorol: Llongyfarchiadau i Llinos Ann Roberts, Cefn Cynrig, ar gael ei dewis i chwarae'r piano mewn cyngerdd arbennig o dan nawdd Bwrdd Arholi yr Ysgolion Cerdd Brenhinol, i'w gynnal yn Neuadd Powis, Bangor, y mis nesaf.

Cantorion Elidir: Llongyfarchiadau i'r côr ar eu llwyddiant yn sicrhau y wobwr gyntaf yn Eisteddfod Groeslon yn ddiweddar. Mae'r côr wedi'i sefydlu ers dros flwyddyn bellach ac yn cyfarfod bob nos lau yn yr Ysgol Gynradd dan arweiniad Mr Robin Jones, Stâd Eryri.

Y Genhadaeth: Yn ddiweddar bu nifer o chelworydd Y Cysegr o gwmpas aelodau a charedigion yn casglu. Y cyfanswm oedd £117.

Llongyfarchiadau:

Llongyfarchiadau hwyr i Menai ac Ieuan Jones, Tan y Buarth ar enedigaeth merch fach, Lowri, ar 13 Mawrth.

Llongyfarchiadau i Jaqueline a Hayden ar enedigaeth efeilliaid, Aaron a Hailey.

Llongyfarchiadau i Leslie a'i gŵr Cremllyn ar enedigaeth merch fach, Manon.

Priodas Arian: Llongyfarchiadau i Rita a Collwyn Williams, Elan, ar ddathlu eu Priodas Arian, ddydd Mawrth 21 Mai — yn arbennig oddi wrth Manon a Gareth, Meinir a Menna.

Cymorth Cristnogol: Yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol casglwyd dros £280 ym Methel. Diolch i bawb am eu cyfraniad.

Panod Lwcus: Llongyfarchiadau i Gwenno Bond, Llanfairfechan (Tan y Cae gynt), ar ennill mewn cystadleuaeth i ddathlu agor yr Orsaf Wasanaethau newydd ger Llandegai. y wobwr oedd cael munud i redeg o gwmpas y siop yno i hel cymaint ac

a allai i'w basgbed. Gallodd lenwi ei basged gyda gwerth tua £350 o deganau, ornamenta, diodydd a melysion.

Gemau Rhyn-Bentrefol: Daeth tîm y pentref yn ail yn y gystadleuaeth rhyng-bentrefol a gynhaliwyd yng Nghanolfan Arfon, ddydd Sul. Llongyfarchiadau i'r holl gynrychiolwyr, ac yn arbennig i'r rhai a enillodd eu gemau, sef tîm pêl-droed Ysgol Gynradd (Irfon, Dylan, Andrew, Brian, David, Gethin); tîm pêl-droed merched (Carys, Sheila, Glenda, Delyth, Eirian); tîm y profion ffitrwydd (Aled, Rhodri, Angela).

Llwyddiant Carati: Llongyfarchiadau i Gethin Jones, Wenallt, ar ennill tarian am ddod yn gyntaf mewn cystadleuaeth Carati Kukoro Shukokai Gwynedd yn ddiweddar. Cynhaliwyd y gystadleuaeth yn y Waunfawr. Mae Gethin yn aelod o Glwb Carati Llanrug.

Ysgol Gynradd Bethel: Fe ddaw'r flwyddyn addysgol eleni a ni i ddiwedd cyfnod arbennig yn hanes Ysgol Gynradd Bethel. Wedi chwarter canrif, bydd Mr Islwyn L. Jones yn ymddeol o'i swydd fel prifathro'r ysgol.

Mae'n sicr y bydd llawer o gyn-ddisgyblion a ffrindiau yn awyddus i ddymuno'n dda iddo ar ei ymddeoliad ac i ddangos gwerthfawrogiad o'i wasanaeth dros y blynyddoedd. I'r pwrpas hwn, trefnir tysteb iddo dan nawdd Staff a Llywodraethwyr yr ysgol. Os

Atgofion am Neuadd Goffa Bethel

Sylwais yn yr Eco, mis Mai, fod yna gyfarfod 'ffarwel' i'w gynnal yn y Neuadd Goffa ym Methel, ac y bydd neuadd newydd yn cael ei chodi ar yr un safle cyn bo hir.

Rwy'n cofio'r noson agoriadol yn dda, a'r Dr W. J. Gruffydd yn cyflawni'r seremoni. Mae W.J.G. yn sôn yn ei gerdd i'r hen dyddynwr fel y rhoes 'ei geiniog brin at godi'r coleg', sef Coleg y Brifysgol ym Mangor.

Mae gen innau gof byw am bentrefwyr Bethel yn cyfrannu chwe cheiniog yn wythnosol tuag at godi'r Neuadd Goffa. Gyda llaw, rwy'n credu mai adeilad perthynol i'r fyddin, yng Nghricieth, oedd pwrpas cyntaf Neuadd Goffa Bethel.

Bûm yn ysgrifennydd i bwyllgor y neuadd am rai blynyddoedd, a byddwn yn trefnu i gael adloniant yno bob nos Wener. Caed ymweliadau gan gwmnïau dramâu a phartïon cyngherddau o fri. Y ffefrynnau blynyddol fyddai ymweliadau gan gwmnïau dramâu Waunfawr, Llanllyfni a Llan-nerchymedd, ac roedd disgwyl mawr am gyngherddau gan barti Alun Ogwen o Benmachno (tad Euryng Ogwen S4C) a pharti Lewis R. Lewis, Blaenau Ffestiniog (tad Eigra Lewis Roberts).

Cynhelid eisteddfodau cadeiriol a choronog yn y neuadd am

dymuna unrhyw un gyfrannu i'r gronfa, derbynir rhoddion yn yr Ysgol o hyn i Fehefin 21ain.

gyfnod, a byddai nifer o'r beirniaid yn aros gyda ni ar aelwyd Bryn Alun. Mae gen i atgofion melys am gael seiadau tan oriau mân y bore gyda'r cerddor Gwilym Gwalchmai (brawd Gwyn Eryl) a fu farw mor ddi-rybudd yn ŵr ifanc. Yn eiteddfod Bethel y cychwynnodd Valerie Jones, Mynytho (Valerie Elis erbyn hyn) ar ei gyrfa fel beirniad. 'Chydig a feddyliais yr adeg honno y byddwn yn cyd-feirniadu â Valerie mewn sawl eisteddfod yn y dyfodol.

Un arall a fyddai'n beirniadu yn aml yn eisteddfod y pentref oedd y Prifardd Gwilym R. Tilsely (a oedd gyda llaw yn dathlu ei benblwydd yn 80 oed ddiwedd mis Mai).

Y Prifardd Tilsely a roddodd y wobwr gynta' erioed i mi am gyfansoddi darn adrodd i blant, ac mewn steddod yn Neuadd Goffa Bethel y digwyddodd hynny. Cyfansoddi darn adrodd i blant dan 8 oed oedd y gamp, ac fe anfonais dri darn i'r gystadleuaeth. Doeddwn i rioed cyn hynny wedi llunio un. Roedd Tilsley mewn cryn benbleth pan un i'w gwobrwyo — ac fe roddodd y cyfrifoldeb o 'feirniadu' ar Gareth, ei fab, a oedd yn wyth oed ar y pryd. Dewisodd Gareth y darn 'Bai ar Gam', sy'n digwydd bod yn un o'r darnau gosodedig ym Mhrifwyl yr Urdd, Tâf Elai, eleni. Felly a bod yn fanwl gywir, mab y prifardd a roddodd y wobwr gynta' erioed i mi am lunio darn adrodd i blant — Gareth — y Dr Gareth Tilsley erbyn hyn. Byddaf yn atgoffa Tilsley yn aml am hyn.

Yn ôl at y Dr W. J. Gruffydd. Mae o yn cydnabod yn ei glasur *Hen Atgofion* mai 'trigo' yr oedd o yng Nghaerdydd, ond yn 'byw' ym Methel. Ambell dro, pan ddeuai ar ei wyliau i Fethel, mi fyddai yn dod a chyfaill gydag o, a byddai'r cyfaill hwnnw o'r Sowth yn aros hefo ni yn Bryn Alun, gan nad oedd lle yn Gorffwysfa (cartref W.J.G.).

Roeddwn i wrth fy modd gweld y dyn diarth o'r Sowth yn dod acw i aros — oherwydd roeddwn i yn cael pishin chwe cheiniog ganddo bob tro y deuai — ac roedd chwech yn ffortiwn i blentyn ysgol yr adeg honno.

Ymhen blynyddoedd wedyn y deuthum i ddeall mai y gŵr caredig o'r Sowth oedd neb llai na'r diweddar Athro Gruffydd John Williams.

Do, mi fûm i'n ffodus iawn i gael fy magu ar aelwyd lle roedd 'na groeso a llety i feirdd, cantorion a llenorion, ac amryw ohonynt yn aros acw yn sgil gweithgareddau a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa.

SELWYN

Ar y Sgrîn Fach

Ymddangosodd cyn-ddisgybl o Ysgol Brynrefail, Llanrug, bron yn ddyddiol ar y teledu am gyfnod gweddol hir yn ddiweddar.

Bu Euron Wyn Griffith, brodor o Fethel, yn actio rhan 'Cawlach' yn y gyfres boblogaidd 'Parablu' yn ystod dyddiau'r wythnos.

Yna, am gyfnod o saith mis, ymddangosodd yn rheolaidd bob bore Sul, yn trafod cerddoriaeth bop ar y rhaglen 'See You Sunday' a gyflwynid gan Roy Noble.

Cafodd gyfle hefyd i gymryd rhan ar 'Pobol y Cwm' yn ddiweddar. Cyfnod prysur — ac mae rhagolydd am fwy o waith teledu i ddod i'w ran yn y dyfodol agos.

Addysgwyd Euron yn Ysgol Gynradd Bethel ac yn Ysgol Brynrefail, a graddiodd gydag anrhydedd mewn Saesneg a Llenyddiaeth Americanaidd ym Mhrifysgol Caint.



NANT PERIS

Ann Fleming, Dolwen,
8 Nant Ffynnon.

Llongyfarchiadau i Owain Griffiths, 2 Bro Glyder, ar ennill un fedal arian a thair medal efydd ym Mabolgampau Myfyrwyr Cymru yng Nghaerdydd.

Bistro

43-45

Stryd Fawr

LLANBERIS

Ffôn 871278



Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Plymio

4 Bryn Eglwys
PENISARWAUN
Ffôn Llanberis
871047

CHWILOTA

MWRDWR! MWRDWR!



Anaml iawn y cafwyd achosion o fwrddwr neu ddyn-laddiad o fewn y fro, a rhaid troi'r cloc yn ôl ddwy ganrif a hanner i ddarganfod yr achos diwethaf o grogi am weithred o fwrddwr.

Digwyddodd y lladd yn ardal Caeathro, pan laddwyd gwraig o'r enw Rebecca gan ei gŵr, Evan Thomas. Nid oes sicrwydd pendant fod y ddau yn byw yn yr ardal a'i yntau aros yno dros dro roeddynt. Ychydig o wybodaeth sydd ar gael am y weithred, ond mae'n ymddangos fod Evan Thomas yn weithiwr amaethyddol ac yn bregethwr (gyda pa enwad tybed?). Lladdodd ei wraig gyda morthwyl a thafli ei chorff i'r pwll yn y Felin Bach, Caeathro. Fe'i crogwyd yn gyhoeddus ar Forfa Seiont, Caernarfon yn 1751.

Nid oes cofnod o gladdu Rebeccas ym mynwent Llanrug; mae'n bosibl felly iddi ei chladdu yn Llanbeblig. Roedd Felin Bach yn agos iawn i lwybr y porthmyn, ac yr oedd lle dyfrio gwartheg ar afon Gwna gerllaw. Oddi yno gallai'r gwartheg gael eu gyrru draw i gyfeiriad Pontrug cyn croesi afon Seiont ac anelu am Landdeiniolen a Phentir.

Tybed a oes hen draddodiad neu hen straeon am y mwrddwr yn parhau ar lafar yn ardal Caeathro?

Gwybodaeth am Refail Newydd
Yn dilyn cais y mis diwethaf, daeth llythyr i law gan Mrs M. G. Williams, Bethel. Mae'n ymddangos oddi wrth ei nodiadau, mai ardal o dai yn cario'r enw Refail Newydd oedd yma yn

hytrach nag un tŷ arbenig. Dyma sydd ganddi i'w ddweud:

Arferai Taid Bont (tad Tada) ag yntasu fyw mewn bwthyn o'r enw 'Refail Newydd'. Mae gennyf lun o'r tŷ, yn rhyfedd mewn math o 'tin', ac nid fel lluniau heddiw. Hefyd roedd teulu drws nesa', sef teulu y diweddar Barchedig W. J. Roberts, yn byw yn 'Refail Newydd' o 1901-15 ond o 1911-15 dan yr enw Isgaer. Yn nhaflen y cyfrifon (Glasgoed) nid oes sôn am deulu Isgaer yn 1916 — tybed a oeddynt wedi symud i Gapel Pontrhythallt.

Ar ôl marw Taid yn 1898, yn 72 oed, adnewyddodd Tada y tŷ a daeth yr enw Llys Yolen (Llys Iolen). Bu teulu o Lanrug yn byw yno 1901-03, ond yn 1904 priododd Tada, a daeth ef a mam i fyw i Llys Iolen.

'Roedd un tŷ ynd al yr enw 'Refail Newydd' hyd yn ddiweddar.

'Roedd y tai eraill o gwmpas i gyd ag enwau iddynt, fel y maent heddiw, o Dan-y-gaer i lawr i'r Ship. Enw'r tŷ oedd ynghlwm a 'Refail Newydd' ac a chwalwyd i ledu'r ffordd oedd Bryn Costrelau.

Chlywais i erioed am Bryn Costrelau o'r blaen. Tybed a oes a wnelo'r ffaith fod dwy ffynnon o fewn ychydig lathenni i'w gilydd yn yr ardal. Mae ffynnon yng ngardd ffyrnt Isgaer a hefyd yng ngardd gefn 'Refail Newydd' presennol.

Diolch hefyd i Dafydd E. Pritchard am alwad ffôn ar yr union noson y daeth yr *Eco* o'r wasg yn cadarnhau fod Rowland Williams, Greuor, wedi ei gladdu yn Llanrug.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

COLEG PRIFYSGOL GOGLEDD CYMRU

Adran Efyddiau Allanol

Ysgol Undydd:

HANES LLEOL — LLANBERIS

i'w chynnal ar

DDYDD SADWRN, MEHEFIN 8 am 9.30 a.m.

Lleoliad: AMGUEDDFA'R GOGLEDD, LLANBERIS

Ffi: £3.50 (i gynnwys coffi)

Siaradwyr:

9.30 — DAFYDD ORWIG: Plwyf Llanddeiniolen o lawr gwlad i odre'r dal Elidir

11.00 — DAFYDD WHITESIDE THOMAS: Adar Brith a Chwrrw

12.00 — DEWI JONES: Tywyswyr a chasglwyr Planhigion yn Eryri

2.30 — Miss MATT PRITCHARD: Atgofion am Llanberis rhwng y ddau ryfel

3.30 — Dr PRYS OWEN: Perthyn Ddoe a Heddiw — Hanes Teulu o Benisarwaun

FFURFLEN GOFRESTRU — LLANBERIS

Hoffwn ymuno â'r Ysgol Undydd uchod ac amgaeaf y ffi o £3.50

ENW.....

CYFEIRIAD..... Rhif Ffôn:.....

Dychweler i: Mrs Nerys Hague, Adran Efyddiau Allanol, G.P.G.C., Bangor LL57 2DG
erbyn Mehefin 1af, 1991.

DAN FLEW EIN LLYGAID

 hefo'r LLYGAD FACH GRAFF

Cyfri' Pennau: Cyfri' Defaid

'Un llwdwn ar ôl; un yn ishio,' fel'na yn union roedd Huw Maes yn cyfri' pennau ers llawer dydd bellach. Cyfri' defaid roedd o ac mi allaf warantu i chwi ei fod â chrap go lew ar y cyfri', yn clandro symiau yn gysact ac yn cyfri' yn y Gymraeg. Ydach chi wedi teimlo fel dafad ryw dro? Go brin ynte. *Home sapien* yntydan, er bod nifer ohonom yn râl pen-dafad ar brydiau ac yn lwdwn.

Teimlo fel un o ddefaid Huw Maes wnes i gyda'r Cyfrifiad ar ddydd holl bwysig y Cyfri' Mawr eleni. Dewadd annwyl 'doedd y Cyfrifiadur yn un busneslyd dwedwch; roedd angen bod yn râl Sgolor Mawr i'w lenwi; nosweithiau yn bustachu a phendroni uwch ei ben nes bod y wraig yn meddwl mod i'n colli arni ac ar fedr mynd i berlewyl. Roedd cymaint o wres yn y tŷ 'cw nes y meiriolodd yr eira ar gopa'r Wyddfa. Doedd dim rhaid rhoi'r fatsen i gynnau'r tân yn y boreau — roedd y gwreichion o'm tafod yn ddigonol.

Ni wnaeth Huw Maes rioed ofyn beth oedd rhyw pob dafa o'i eiddo. Cymryd yn ganiataol a wnaeth ef, ac mi roddodd Huw, gyda'r blynyddoedd, hwb i'r economi Gymreig a chynnal Cymreictod gan mai yn iaith ei gyndadau y mnnodd gynnal busnes o fferm i farchnad, o stiop i'r capel. Gresyn fod rhai fel Huw ddweda i wedi prinhau yng Nghymru. Dafad wen oedd dafa wen i Huw. Hesbwrn oedd hesbwrn, Ac os oedd yn ddu roedd hi'n dal yn ddafan onid oedd — yn tyfu cnu ac yn brefu fel pob dafad meidrol.

Ie, beth ydy'ch lliw? 'Coch yn yr haf, gwyn yn y gaeaf' oedd ateb syml un cyfaill da i mi. Y cyfaill hwn a ofynnodd ar ei ffurflen yn ogystal pam cyfyngu 'os oeddech yn siarad Cymraeg' i Gymru gan fod ei gefnder yn gweithio yn Birmingham heb gael yr hawl i ddatgan mai Cymro a ddeallai'r iaith Gymraeg ydoedd. Rhyfedd meddwl hefyd na chafwyd cyfle i ddweud am gyflwr cymdeithasol y cylch y digwyddech fod yn byw ynddo; pethau fel cyfleusterau meddygol, meysydd chwarae a chanolfannau i'r ieuenctid a'r oedolion gan gynnwys yr henoed. A dim gair — dim byd oll — am fynychu capeli ac eglwysi. Doedd cyflwr ysbrydol Cymru heb fod yn y fantol bid sicr. Ond roedd o bwys beth oed eich cyflog ac os oeddech yn berchen car neu wraig neu ŵr. Yn y materol roedd y Llywodraeth Ganolog yn Lloegr yn gosod pwys. Ys gwn i sut y byddai hi arnom petaem yn wlad rydd ac yn annibynol gyda llywodraeth ein hunain? A fyddai rhai wrth gwestiynau estronol eu naws; cwestiynau yn drevi o ishio lladd yr hen ffordd Gymreig o fyw? Neu a welid geiriau Huw Maes yn dwad yn wir...?



Cyfrifiad 1991

Mae'n cyfrif am eich bod
chwi'n cyfrif

'Un llwdwn ar ôl, ngwas i.'

'Sut gwyddoch chi, Huw?'

'Bob blwyddyn run fath; yn y cwm pellaf. Un gwbl annibynol — yn mynnu byw ei rhyddid hyd y pen.'

A Huw yn corlannu a dechrau cyfri' pennau — unwaith roedd y llwdwn cyfrolledig wedi ei gyrchu o'r cwm anghysbell.

'Dydach chi heb wylltio'n gudyll Huw?'

'Gwylltio?'

'Ia'r llwdwn 'na.'

Ac yntau'n gwenu'n llaryaidd ac yn mynegi, 'Na, ei edmygu o rydw i. Rydw i yn edmygwyr mawr o unrhyw un a fydd ei ryddid ac yn ymdrechu i daflu gwisg gorthrwm oddi ar ei ysgwyddau.'

Y Cyfrifiad eleni? 'Ac aethant i'w trethu.' Dyna ddywed y Beibl.

'A threthi anghyfiawn a osodwyd ar y bobol.' Cyfri' pennau? Mi wyddoch chi cystal â minnau paham.

Emyr Jones

PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI

Cynnal Boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 3513



Dyddiadur y Mis

MEHEFIN 1991

2. Sul. Deiniolen: Cyfarfod Pregethu y Wesleaid yn Ebeneser, 10 y bore, 5.30 yr hwyr. Dinorwig: Eglwys y Santes Fair, Cymun Bendigaid am 2.
3. Llun. Deiniolen: Sefydliad y Merched. Dinorwig: Cyfarfod yn y Ganolfan i drefnu Hwyl Haf am 7.
6. Iau. Llanrug: Noson Goffi, ystafell y Band am 7.
7. Gwener. Rhosgadfan: Cyfarfod Coffa Dr Kate Roberts. Darlith gan Dr Derec Llwyd Morgan yn Neuadd y Pentref. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band am 8.
9. Sul. Taith Gerdded yr Amgueddfa Genedlaethol — Yr Wyddfa. Cyfarfod am 11 ym maes parcio Pen Pass.
11. Mawrth. Llanrug: Merched y Wawr. Taith Ddirgel. Waunfawr: Y Gymdeithas Lenyddol — trip

blynnyddol, cychwyn am 4.15 o'r gloch. Brynrefail: Cymdeithas y Chwiorydd.

12. Mercher. Yr Ardal: Antur Padarn yn Angorfa, Stryd y Ffynnon, Llanberis am 7.

14. Gwener. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band am 8.

15. Sadwrn. Glynllifon: Diwrnod Stêm. Arddangosfa hen geir a thractorau.

16. Sul. Dinorwig: Eglwys y Santes Fair. Gŵyl Bregethu am 3.45. Cymun Teuluol am 10 y bore.

19. Mercher. Llanrug: Cyfarfod Blynnyddol Plaid Cymru a llunio cynnigion i'r Gynhadledd, yn y Sefydliad Coffa am 7.30.

Penisarwaun: Pnawn Agored yr Ysgol Feithrin am 2.

20. Iau. Llanrug: Cyfarfod y Chwiorydd am 2.

21. Gwener. Brynrefail: Barbeciw yn yr hen Ysgol Fach, at Apêl Hospis yn y Cartref. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band am 8.

22. Sadwrn. Y Cylch: Pwyllgor Merched Arfon Plaid Cymru — Stondin Gacennau ar y Maes Caernarfon o 10 y bore.

23. Sul. Dinorwig: Gwasanaeth Gosber am 3.45.

24. Llun. Llanrug: Tombola yn Ystafell y Band am 7.

28. Gwener. Penisarwaun: Eisteddfod y Pentref yn Neuadd yr Eglwys am 5.30. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band am 8.

30. Sul. Ceisiadau am gael rhedeg Ras yr Wyddfa i law erbyn heddiw.

GERDDI GLASCOED (Ger Capel Glascoed) PENISARWAUN

- ★ Planhigion Border
 - ★ Llwyni
 - ★ Basgedi
 - ★ Grug
 - ★ Rhosod hen ffasiwn a llawer mwy
- Galwch heibio neu ffoniwch
870453

**CEFNOGWCH EIN
HYSBYSEBWYR**

Gwaith Proffesiynol Prisiau Rhesymol
Am holl anghenion eich offer nwy

FFLAM ERYRI

Rhowch alwad i arbenigwr wedi'i hyfforddi'n llawn gan Nwy Prydain

Gwasanaeth 24 awr

Geraint Fôn Williams Penmaenmawr 622422

LIFESTYLE


— YN WERTH DOD YN GYFARWYDD AG O

LifeStyle

**CEWCH HYD I WELL
FFORDD O FYW
YN EICH SIOP
GROSER
LLEOL**

**FEL Y GWELWYD
AR S4C**

CROESAIR MEHEFIN



AR DRAWS

2. Aderyn prin (5)
5. Palu yn is ac yn is (4)
7. Briw (4)
8. Nodwedd cymydog (8)
9. Dylai pob 'cocyn hitio' fod yn hwn (8)
11. Roedd wedi canu ers meityn (4)
12. Teitl cân neu redfeydd dŵr dinas o'r Beibl (6,7)
15. (a 13 i lawr) — — rhew ceir dŵr (4,7)
17. Cyfieithiad llythrennol o'r pegwn isaf (4,4)
19. Cael teitl yn ôl (5,3)
21. Methu (4)
22. Mae'n dal i frifo (4)
23. Un a reola'n llwyr (5)


I LAWR

1. Aneddle'r gaeaf (7)
2. Tymor (3)
3. Perthynas (5)
4. 'Disglair rew' (5,2)
5. Un enwog yw 'yr eryr' (3)
6. Effaith cadw clwt heb sychu (5)
10. Yn y lle yr ydym yn byw (3,2)
11. Sych iawn (5)
13. Gweler 15 ar draws (4,7)
14. Urdd yr Orsedd am ysgrifennu (4,3)
16. Ceir un 'Cymru' ac un 'Wales' (5)
18. Yn gyflym (2,3)
20. Dechrau'r weddi (3)
22. Weithiau, clywir ef yn disgyn (3)

CROESAIR MAI

ATEBION AC ENILLWYR

Naw ymgeisydd. Dau wedi cynnig 'Blino' yn lle 'Britho' am 10 i lawr. Pump wedi mentro 'Fo a fi' am 18 i lawr. Ond dau yn unig yn rhoi'r ateb cywir 'Fi a thi', sef H. O. Hughes, Anedd Wen, Y Ffôr a Sera Williams, Sŵn y Môr, Pistyll, Pwllheli. A'r enillydd y mis hwn yw: Sera Williams, Sŵn y Môr, Pistyll, Pwllheli.



CARTREF HENOED



**Caernarfon
(0286) 4652**

RAS YR WYDDFA 27 Gorffennaf GAIR I'CH ATGOFFA

Dylai'r ceisiadau am gael rhedeg Ras yr Wyddfa fod yn llaw'r Trefnydd, Ken Jones, 6 Blaen Ddôl, Llanberis, erbyn 30ain Mehefin. Mae'r trefnwyr yn pwysleisio nad yw gwneud cais o fewn y dyddiad hwn yn gwarantu hawl i redeg. **RHAID wrth brofiad RHEDEG MYNYDD!!** Rhoddir ystyriaeth ddifrifol i bob cais gan blant. Unwaith eto, rhaid pwysleisio fod angen profiad rhedeg.

CHWARAEON

Y Cwpan Moorings i Ddeiniolen

Pleser o'r mwyaf ydi cael defnyddio gofod y dudalen ôl y mis yma i gofnodi llwyddiant dau o dri chlwb pêl-droed ardal *Eco'r Wyddfa*, sef Deiniolen a Llanrug. Bu'n dymor bythgofiadwy ar y Darrans wrth gwrs am resymau eraill, fel y cofiwch rwy'n siwr, ond ar y cae, ail o waelod tabl cynghrair Sealink oedd safle terfynol y tim cyntaf. Fe brofodd yr ail dîm dymor llawer mwy llwyddiannus, gan ddod yn drydydd yng nghynghrair Sain a cholli o gôl i ddim yn rownd gyn-derfynol cwpan Wil Evans i hogia Nefyn. Dim tlws i Lanbêr felly, ac mae'n rhaid i mi gyfaddef mod i'n poeni rhyw wythnos yn ôl os byddai rhywbeth yn dod i'r ddau glwb arall chwaith.

Tua chanol tabl cynghrair Sain oedd mesur llwyddiant Deiniolen yn y gynghrair, a cholli fu eu hanes ar gae Mountain Rangers nos Lun yr 20fed o Fai yn ffeinal y cwpan Alves pan aeth Penrhos a hi, 0 4 gôl i 2 yng nghyfnod amser ychwanegol.

'Roedd hi'n stori wahanol y Sadwrn dilynol ar gae'r Fêl ym Mhenygroes er hynny.



Do bu rhaid chwarae 'extra time' eto, ond yn rownd derfynol y cwpan Moorings, Deiniolen a gipiodd y wobwr gyda'r unig gôl yn erbyn Penrhos, eto, yn cael ei sgorio gan Richard Owen.

Mae'r llawenydd yn amlwg ar wynebau'r tîm yn y llun uchod, ac hefyd yn y ffordd y mae'r capten, Kevin John Jones, yn gwahodd y cefnogwyr i rannu yn eu llwyddiant; ar ôl derbyn y cwpan gan Mr Alun Ffred Jones.



CWIS MIS MEHEFIN Crys y Goli sy'n wahanol

Un o gôlgeidwaid mwyaf profiadol cynghrair Gwynedd ofynnodd gwestiwn cyntaf cwis y mis diwethaf i mi, sef beth na chaiff y gôlgeidwad ei wneud, yn wahanol i bawb arall ar y cae. Wel, **gwsgo crys llewys byr** ydi'r ateb, medda fo, ac mae'n rhaid i mi gyfaddeg na welais erioed goli'n gwneud hynny. Mae'r rhesymeg y tu ôl i'r rheol yn bur syml pan mae rhywun yn meddwl am y peth, yntydi?

Dyma'r atebion eraill, ac fel yr addewais, mae 'na rhyw gyswllt â Chymru ym mhob un ohonynt: **Lewis Jones** sgoriodd 496 bwynt i Leeds yn rhyddor 56-57; i **Juventus** ac **A.S. Roma** y bu John Charles yn chwarae yn yr Eidal; **Terry Griffiths** oedd pencampwr amatur Lloegr yn 78 a 79; **David Llewellyn** sy'n dal y record am rownd golff 60 strôc ym Miarritz; **Ray Reardon** oedd pencampwr snwcer y byd yn 1978; **Llanelli** a **Chastell Nedd** oedd yn chwarae yng Nghwpan Schweppes pan ddaeth dros 56,000 o bobl i'w gwyllo; **Ian Woosnam** oedd y Prydeiniwr cyntaf i ennill pencampwriaeth 'match-play' y byd; roedd **Gareth Edwards** yn gapten tîm rygbi Cymru yn ugain oed, a'r gŵr oedd yn bencampwr y byd ar neidio ceffyllau yn 1970 oedd **David Broome**.

Mae fy ngwybodaeth i am fyd rasio ceffyllau yn llai na'r hyn y gellid ei ysgrifennu ar gefn 'betting slip', cwestiwn un o hogia Llanrug ydi'r cynta y mis yma, felly, sef **enwch yr unig bedwar maes rasio ceffyllau nad oes yr un o'r llythrennau R, A, C na E yn yr enw**, e.e., mae C, E, ac R yn CHESTER, mae A ac E yn AINTREE — pa bedwar sydd heb yr un o'r bedair llythyren?

Gan fod y tymor pêl-droed newydd ddod i ben, naw chwestiwn yn dilyn ar y gêm honno:

1. Pwy oedd y Sgotyn a chwaraeodd bêl-droed Ewropeaidd dros glwb o Gymru pan yn 42 mlwydd oed?
2. Pwy sy'n chwarae ar London Road?
3. Ym mha wlad mae Stadium Maracana?
4. Pwy ydi'r 'Saddlers'?
5. Enwch y pedwar clwb cynghrair Lloegr y bu'r enwog Trevor Ford yn chwarae iddynt.
6. Ym mha wlad chwaraeir Cwpan y Byd yn 1994?
7. Pwy oedd y chwaraewr Prydeinig cyntaf i gael cyflog o £100 yr wythnos yn 1961?
8. Pwy oedd y Sais a brynwyd gan Celtic o Pisa yn yr Eidal am £600,000 yn 1989?
9. Ar pa dîm pêl-droed fu Stanley Matthew yn reolwr?

Llwyddiant Llanrug

Chafodd ail dîm Llanrug fawr o hwyl yn y gynghrair, gan orffen mewn safle tua hanner ffordd i fyny tabl Saint. Y nhw hefyd gollodd o ddwy gôl i un yn rownd gyn-derfynol cwpan Moorings yn erbyn Penrhos.

Y tîm cynta' ydi 'heroes' y tymor, ond bu bron iawn iddo fod yn dymor o foddwr wrth ymyl y lan.

Daeth eu cyfle cyntaf ar gae dinas Bangor yn ffeinal tarian Eryri yn erbyn Llanfairfechan — a cholli fu eu hanes, o ddwy gôl i un.

Yna, wythnos yn ddiweddarach, ar yr Ofal y tro yma, ffeinal cwpan Gwynedd yn erbyn Machno. Crasfa go iawn, gan golli o 5 gôl i 2.

Bydd sôn am yr hyn a ddigwyddodd yn y gynghrair tra pery diddordeb mewn pêl-droed yn yr ardal; deunydd sgript penod o 'Mid-fild' y dyfodol mi fentraf.

Daeth Machlud ar Machno

Na, nid y fi biau'r penawd, ond rhyw Mr Davies reit adnabyddus o Lanrug.

Bu'n amlwg ers rhai wythnosau mai ras rhwng dau geffyl, sef Penmachno a Llanrug fyddai hi am y teitl pencampwr cynghrair Gwynedd. 'Roedd mwy o bwyntiau gan Machno ond gemau mewn llaw gan Llanrug. Yn anffodus 'roedd y gwahaniaeth rhwng goliau 'o blaid' ac 'yn erbyn' Machno yn llawer gwell hefyd. I wneud y 'plot' yn fwy cynhyrfus fyth, roedd dwy gêm yn weddill gan Machno, y ddwy yn erbyn Llanrug. Byddai un gêm ychwanegol gan Lanrug, sef gêm ola'r tymor ar gae Eithin Duon yn erbyn Coleg y Brifysgol, Bangor.

Dydd Sadwrn, yr llog o'r mis, a'r gyntaf o'r treialon. Llanrug fu fuddugol ar eu cae eu hunain o ddwy gôl i un. Byddai pwynt yn unig yn ddigon ym Machno y nos Fawrth ddilynol, ac fe ddaeth torf o dros 300 yno i gyfrannu at y cynnwrf. 'Doedd ond dau funud yn unig ar ôl, a'r sgôr yn gyfartal, pan lwyddodd Ken Roberts o Fachno i rwydo heibio i gôlgeidwad Llanrug.

Y pwyntiau'n gyfartal, un gêm yn weddill gan Lanrug, ac angen ennill gyda gwahaniaeth o 12 gôl yn y sgôr yn erbyn CPGC os am fynd â hi. Daeth llond bws o gefnogwyr Machno draw i Eithin Duon gan ragweld y byddid yn cyflwyno'r tlws iddynt ar ddiwedd y gêm — **pan oedd hi'n 12-0 ychydig ar ôl hanner amser 'doedd yna fawr o neb ohonynt ar ôl!** Ac nid dwsin yn unig oedd maint yr helfa, ond dwy gôl ar bymtheg!



Llanrug 17 - CPGC 0

Fe gollodd Dilwyn John Williams ei ben yn lân gan sgorio 6 gwaith, Jamie Richardson dair gyda Dilwyn Roberts a martin Bohana yn cael dwy yr un. Daeth y bedair arall gan Adrian Wakeham, Dewi Williams, Gwyn Davies a Garry Evans. Na, nid sgript deledu oedd hi — 'I was there'!

I gwblhau'r llawenydd, fe gyflwynwyd hefyd gwpan Chwaraewr Gorau'r Gynghrair am y tymor i gefnwr Llanrug, David Phillips.

